Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd EM

**Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd EM**

# Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon

## 2014-15

HC 9
SG/2015/57

Gwasanaeth Llysoedd
a Thribiwnlysoedd EM

# Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon 2014-15

# Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd EM

Mae Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd EM yn un o asiantaethau gweithredol y Weinyddiaeth Cyfiawnder.

Adroddiad Blynyddol a gyflwynwyd i'r Senedd yn unol ag Adran 1(4) o Ddeddf Llysoedd 2003 ac Adran 39(3) o Ddeddf Tribiwnlysoedd, Llysoedd a Gorfodaeth 2007.

Cyfrifon Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd EM a gyflwynwyd i Dŷ'r Cyffredin yn unol ag Adran 7 o Ddeddf Adnoddau a Chyfrifon y Llywodraeth 2000.

Cyfrifon Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd EM a gyflwynwyd i Dŷ'r Arglwyddi ar Orchymyn Ei Mawrhydi.

Cyfrifon y Panel Apeliadau Digolledu am Anafiadau Troseddol a gyflwynwyd i'r Senedd yn unol ag Adran 6 o Ddeddf Digolledu am Anafiadau Troseddol 1995.

Gorchmynnwyd eu hargraffu gan Dŷ'r Cyffredin ar 10 Mehefin 2015.

Gosodwyd gerbron Senedd yr Alban gan Weinidogion yr Alban ar 10 Mehefin 2015.

HC 9
SG /2015/57

© Hawlfraint y Goron 2015

Trwyddedir y cyhoeddiad hwn o dan delerau fersiwn 3.0 y Drwydded Llywodraeth Agored, ac eithrio lle nodir yn wahanol. I weld y drwydded hon, ewch i nationalarchives.gov.uk/doc/open-government-licence/version/3
neu ysgrifennwch at y Tîm Polisi Gwybodaeth, The National Archives, Kew, Llundain TW9 4DU, neu e-bostiwch: psi@nationalarchives.gsi.gov.uk.

Lle'r ydym wedi nodi deunydd gyda hawlfraint trydydd parti, bydd angen ichi ofyn am ganiatâd gan y rhai sy'n dal yr hawlfraint honno.

Mae'r cyhoeddiad hwn ar gael yn www.gov.uk/government/publications.

Dylid anfon unrhyw ymholiad ynghylch y cyhoeddiad hwn atom yn:

Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd EM
Communications Team
1st Floor, 1.13
102 Petty France
Llundain
SW1H 9AJ

E-bost: HMCTS.Communications@hmcts.gsi.gov.uk

Gallwch lawrlwytho'r cyhoeddiad hwn ar-lein yn
www.gov.uk/government/organisations/hm-courts-and-tribunals-service

Fersiwn brintiedig ISBN 9781474120593
Ar y we ISBN 9781474120609

Argraffwyd yn y Deyrnas Unedig gan y Williams Lea Group ar ran Rheolwr Llyfrfa Ei Mawrhydi.

ID: 01061525 06/15

Argraffwyd ar bapur yn cynnwys o leiaf 75% o ffibr wedi'i ailgylchu.

# Cynnwys


**1. Rhagarweiniad** **2**

**2. Rhageiriau gan y Cadeirydd a'r Prif Weithredwr** **4**

**3. Adroddiad strategol** **6**

Amdanom ni 6

Gweledigaeth, amcanion a blaenoriaethau 7

Perfformiad yn erbyn amcanion 8

Cyllid 21

Adroddiad cynaliadwyedd 25

**4. Adroddiad y Swyddog Cyfrifyddu** **31**

Ein staff 31

Strwythur uwch reoli 32

**5. Adroddiad taliadau cydnabyddiaeth** **33**

**6. Datganiad o Gyfrifoldebau'r Swyddog Cyfrifyddu** **39**

**7. Datganiad llywodraethu blynyddol** **40**

**8. Tystysgrif ac Adroddiad Rheolwr ac Archwilydd Cyffredinol Tŷ'r Cyffredin** **53**

**9. Cyfrifon** **55**

# 1. Rhagarweiniad

Mae Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd EM yn gyfrifol am weinyddu'r llysoedd troseddol, sifil a theulu yng Nghymru a Lloegr, y tribiwnlysoedd yn Lloegr a'r tribiwnlysoedd sydd heb eu datganoli yng Nghymru, yr Alban a Gogledd Iwerddon.

Mae hon wedi bod yn flwyddyn bontio bwysig. Yn 2014 cytunodd Drysorlys EM ar gyllid ar gyfer Rhaglen Ddiwygio Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd EM, er mwyn dylunio a darparu system well a mwy effeithlon o weinyddu cyfiawnder. Mae gwaith sylweddol i gyflwyno'r system hon ar y gweill. Y nod yw gwneud newidiadau sy'n hanfodol i gwrdd ag anghenion a disgwyliadau'r bobl sy'n defnyddio'r llysoedd a'r tribiwnlysoedd, yn awr ac ymhell i'r dyfodol, a pharhau i ddarparu gwasanaethau wrth i newidiadau gael eu gwneud.

Ochr yn ochr â hyn, mae gwaith helaeth yn parhau i gael ei wneud i wella prosesau a pherfformiad, o fewn y cyfyngiadau presennol. Mae'r gwaith hwn wedi digwydd o ganlyniad i weithio'n gydweithredol rhwng y weinyddiaeth a'r farnwriaeth a hefyd gyda phartneriaid eraill ar draws y system gyfiawnder.

Mae pethau nodedig wedi eu cyflawni dros y flwyddyn ddiwethaf. Maent yn cynnwys:

- cyflwyno'r Un Llys Teulu a chyflwyno'r Un Llys Sirol gan felly ddileu ffiniau daearyddol a hwyluso perfformiad gwell a gweithio'n fwy effeithlon;
- cynnydd gyda'r gwaith o ddigideiddio prosesau'r llys troseddol, cam tuag at ddiwygio;
- cynyddu capasiti'r Siambr Dreth i gwrdd â'r cynnydd disgwyliedig yn y galw'n dilyn Deddf Gyllid 2014; a
- cynnydd pellach mewn ymgysylltu gweithwyr.

Mae'r hyn a gyflawnwyd yn deyrnged i ymroddiad a phroffesiynoldeb y farnwriaeth a staff Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd EM.

Rydym yn falch o gyflwyno'r Adroddiad Blynyddol hwn sy'n nodi'r hyn a gyflawnwyd dros y flwyddyn ddiwethaf yn fwy manwl. Mae hefyd yn nodi rhai o'r sylfeini a osodwyd ar gyfer Diwygio. Y Rhaglen Ddiwygio fydd ein ffocws dros y flwyddyn i ddod. Ei nod fydd darparu:

- technoleg well i wella prosesau, mynediad ac effeithlonrwydd i gwsmeriaid a defnyddwyr eraill;
- moderneiddio ein hystâd gan gynnwys cyfleusterau gwell i bawb sy'n defnyddio ein gwasanaethau; a
- defnydd gwell o ystafelloedd y llys a chynnydd cynt gydag achosion.


Estynnwn groeso hefyd i Natalie Ceeney, Prif Weithredwr newydd Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd EM, ac edrychwn ymlaen at weithio gyda hi i ddatblygu a darparu'r cynllun hwn i drawsnewid gweinyddu cyfiawnder.

Yn olaf, hoffem ddiolch i staff Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd EM am eu hymroddiad parhaus i ddarparu'r gwasanaeth gorau posibl. Gwelsom hyn yn glir o fewn cyfyngiadau'r dechnoleg a chyfyngiadau'r ystâd sydd ganddynt ar hyn o bryd, ac wrth weithio tuag at wasanaeth diwygiedig.




Y Gwir Anrh. Michael Gove AS

Yr Arglwydd Ganghellor a'r Ysgrifennydd Gwladol dros Gyfiawnder



Y Gwir Anrh. Yr Arglwydd Thomas o Gwmgïedd
Arglwydd Brif Ustus Cymru a Lloegr



Y Gwir Anrh. Syr Jeremy Sullivan
Uwch Lywydd y Tribiwnlysoedd

# 2. Rhageiriau gan y Cadeirydd a'r Prif Weithredwr

## Rhagair gan y Cadeirydd

Mae'r adroddiad hwn yn cofnodi'r bedwaredd flwyddyn ers sefydlu Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd EM. Yn y pedair blynedd hyn mae perfformiad y gwasanaeth wedi gwella a chost darparu'r gwasanaeth wedi gostwng yn sylweddol. Llwyddwyd i wneud hyn oherwydd proffesiynoldeb ein staff a'n rheolwyr a thrwy gydweithredu'n dda â'r farnwriaeth a'r Weinyddiaeth Cyfiawnder. Hoffwn ddiolch iddynt i gyd.

Disgrifir llwyddiannau'r flwyddyn sydd newydd ddod i ben yn fwy manwl yn yr adroddiad sy'n dilyn ond hoffwn dynnu sylw'n arbennig at y llwyddiant parhaus i leihau amseroedd gwrandawiadau a phenderfynu achosion yn y Llys Teulu.

Fel Cadeirydd Annibynnol ar Wasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd EM, rwyf wedi hysbysu'r Arglwydd Ganghellor a'r Arglwydd Brif Ustus er bod creu Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd EM o hen wasanaethau'r Gwasanaeth Tribiwnlysoedd a Gwasanaeth Llysoedd EM wedi llwyddo, bod y sgôp i wella eto ar yr hyn a ddarparwn i'r cyhoedd, ac i wneud mwy o arbedion cost, erbyn hyn yn brin iawn oni edrychwn yn radical iawn ar sut y darperir rhai o'n gwasanaethau, ac oni fuddsoddwn yn helaeth mewn TG a symleiddio ein hystâd. Heb wneud hyn bydd yn amharu'n arw ar ein gallu i redeg system llysoedd a thribiwnlysoedd 'effeithiol ac effeithlon'. Ac ni ellid rhoi unrhyw sicrwydd y gellid cynnal Rheol y Gyfraith.

Rwyf felly'n falch iawn bod Llywodraeth EM a'r farnwriaeth, mewn egwyddor, yn deall a chytuno gyda'r achos dros newid a bod pob gobaith y bydd cyfalaf newydd ar gael gan y Trysorlys i gefnogi hyn. Datblygu a gweithredu'r Rhaglen Ddiwygio hon fydd y cam nesaf yn ein gwaith.

Arweiniwyd y gwaith llwyddiannus o uno'r Gwasanaeth Tribiwnlysoedd a Gwasanaeth Llysoedd EM gan Peter Handcock, ein prif weithredwr cyntaf. Mae Peter wedi ymddeol ers diwedd 2014. Fe wnaeth waith rhagorol ac, ar ran ei gydweithwyr oll, hoffwn ddiolch iddo am ei wasanaeth hir i lysoedd a thribiwnlysoedd ein gwlad. Roedd yn bleser gweithio gyda fo a gobeithio ei fod yn mwynhau ei ymddeoliad haeddiannol.

Roeddem yn ffodus gallu recriwtio Natalie Ceeney fel olynydd i Peter. Dechreuodd Natalie ar 5 Ionawr 2015 ac mae eisoes yn cael effaith gref iawn ar ein gwaith. Edrychaf ymlaen at weithio gyda hi wrth i ni gychwyn ar y cam nesaf yn hanes Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd EM a'i ymateb i ddisgwyliadau'r cyhoedd ynghylch sut i sicrhau cyfiawnder yn yr unfed ganrif ar hugain.



**Robert Ayling**
Cadeirydd

# Rhagair gan y Prif Weithredwr


Rwyf wrth fy modd yn ysgrifennu fy rhagair cyntaf ar gyfer Adroddiad Blynyddol Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd EM.

Er mai ond ers ychydig fisoedd yr wyf wedi bod yma, mae meddylfryd cadarnhaol a diwylliant y sefydliad yr wyf bellach yn ei arwain wedi gwneud argraff fawr arnaf – ym mhob un o fy ymweliadau â llysoedd a thribiwnlysoedd ar draws y DU gwelais staff ymroddgar a gweithgar sy'n benderfynol o ddarparu cyfiawnder, a gwneud hynny drwy ganolbwyntio ar y cwsmer. Nid damwain a hap fu'n gyfrifol am y diwydiant yn y sefydliad – roedd fy rhagflaenydd, Peter Handcock, yn hyrwyddo'r ffocws ar gwsmeriaid a gwella parhaus drwy gydol ei arweinyddiaeth. Hoffwn ddiolch yn ffurfiol i Peter am bopeth a gyflawnodd fel Prif Weithredwr cyntaf Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd EM ac am y diwylliant hynod gadarnhaol o 'nid da lle gellir gwell' a adawodd ar ei ôl.

Heb os, mae Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd EM fel sefydliad wedi cyflawni'n aruthrol dros y flwyddyn ddiwethaf. Mae ein pobl wedi ymateb yn wych i newidiadau mawr mewn cyfiawnder teulu, wedi gwella amseroedd aros ar draws llawer o'n hawdurdodaethau, ac wedi gweithio'n galed i gwtogi ar gostau mewn cyfnod anodd. Digwyddodd hyn i gyd gyda lefelau cynyddol uwch o ymgysylltu staff – sy'n heriol o ystyried bod nifer ein staff wedi parhau i ostwng. Ni fyddem yn gallu gwneud hyn heb ymroddiad ac ewyllys da anhygoel ein staff – a hoffwn hefyd ddiolch o waelod calon i'n pobl i gyd ac am yr hyn a wnaethant ar ein rhan dros y flwyddyn ddiwethaf.

Fy ffocws ers ymuno, ac am y blynyddoedd i ddod, yw Diwygio Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd EM. Er i mi weld ymroddiad a ffocws ar gwsmeriaid ymhlith ein staff, gwelais hefyd rwystredigaeth a dymuniad cryf i newid pethau. Mae ein prosesau papur wedi hen ddyddio, yn siomi neu'n cythruddo ein defnyddwyr a'n staff fel ei gilydd, ac yn ddrud i'w rhedeg. Yn y byd sydd ohono, mae defnyddwyr y llysoedd a'r tribiwnlysoedd (naill ai'r bobl eu hunain neu eu cynrychiolwyr cyfreithiol) yn disgwyl gallu gweld dogfennau ar-lein, gallu defnyddio fideo-gynadledda yn lle teithio'n bell i gyfarfod byr, a gallu rhyngweithio gyda ni mewn ffyrdd ac ar adegau sy'n gyfleus iddynt. Yn gadarnhaol, dros y flwyddyn ddiwethaf, gosodwyd sylfeini cadarn ar gyfer y newid hwn ac ym mis Ionawr lansiwyd ein Rhaglen Llwyfan Cyffredin fydd yn datblygu seilwaith digidol ar gyfer cynnal treialon troseddol - a rhai esiamplau digidol sydd eisoes yn fyw ac yn gweithio. Mae gennym waith aruthrol i'w wneud ond hefyd weledigaeth gynyddol gliriach o ble'r ydym yn mynd.

Bydd y llwybr o'n blaenau'n heriol – bydd angen i ni redeg gwasanaethau gwell am gost is a datblygu dulliau cwbl newydd fydd yn herio'r modelau a weithredwn heddiw'n llwyr. Fodd bynnag, gyda'r sylfeini a osodwyd ers creu Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd EM yn 2011, ac yn enwedig dros y flwyddyn ddiwethaf, rwyf yn gynyddol ffyddiog y gallwn ateb yr her honno.



**Natalie Ceeney CBE**
Prif Weithredwr a Swyddog Cyfrifyddu

# 3. Adroddiad strategol

## Amdanom ni

Sefydlwyd Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd EM yn 2011 fel yn un o asiantaethau gweithredol y Weinyddiaeth Cyfiawnder (MoJ). Mae'r Asiantaeth yn gweithredu fel partneriaeth rhwng yr Arglwydd Ganghellor, yr Arglwydd Brif Ustus ac Uwch Lywydd y Tribiwnlysoedd fel y nodir yn ein Dogfen Fframwaith.

Mae Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd EM yn gyfrifol am weinyddu'r llysoedd a'r tribiwnlysoedd troseddol, sifil a theulu yng Nghymru a Lloegr a'r tribiwnlysoedd sydd heb eu datganoli yn yr Alban a Gogledd Iwerddon. Mae'n cynnig system gyfiawnder deg, effeithlon ac effeithiol a ddarperir gan farnwriaeth annibynnol.

Y MoJ yw un o adrannau mwyaf y llywodraeth ac mae'n cyfuno meysydd sy'n gyfrifol am weinyddu'r llysoedd, tribiwnlysoedd, cymorth cyfreithiol, polisi dedfrydu, carchardai, rheoli troseddwyr a materion yn ymwneud â chyfreithiau a hawliau.

### Bwrdd Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd EM (ers 1 Ebrill 2015)

Aelodau anweithredol:

- Robert Ayling (Cadeirydd)
- Victoria Cochrane (Cadeirydd Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd EM)
- Rachel Osborne
- Ian Playford

Aelodau gweithredol:

- Natalie Ceeney, CBE (Prif Weithredwr, Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd EM)
- Steve Gillespie (Cyfarwyddwr Cyllid a Llywodraethu, Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd EM)
- Kevin Sadler (Cyfarwyddwr Datblygu Gwasanaethau, Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd EM)
- Guy Tompkins (Cyfarwyddwr Troseddu, Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd EM)

Aelodau barnwrol:

- Yr Arglwydd Ustus Sullivan (Uwch Lywydd y Tribiwnlysoedd)
- Yr Arglwydd Ustus Gross (Uwch Farnwr Llywyddol Cymru a Lloegr)
- Y Barnwr Rhanbarth Michael Walker, CBE

### Uwch Dîm Rheoli Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd EM (ers 1 Ebrill 2015)

- Natalie Ceeney, CBE (Prif Weithredwr)
- Steve Gillespie (Cyfarwyddwr Cyllid a Llywodraethu)
- Kevin Sadler (Cyfarwyddwr Datblygu Gwasanaethau)
- Guy Tompkins (Cyfarwyddwr Troseddu)
- Paul Harris (Cyfarwyddwr Interim Sifil, Teulu a Thribiwnlysoedd)
- Julie Nerney (Cyfarwyddwr Rhaglen, Trawsnewid)
- Rod Davis (Cyfarwyddwr Interim Adnoddau Dynol)
- Paul Shipley (Cyfarwyddwr Technoleg Gwybodaeth)

# Gweledigaeth, amcanion a blaenoriaethau

## Ein gweledigaeth

Rhedeg system llysoedd a thribiwnlysoedd effeithiol ac effeithlon, trwy'r hon y cynhelir rheol y gyfraith ac sy'n rhoi mynediad at gyfiawnder i bawb.

Nodir ein hamcanion yn nogfen Fframwaith Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd EM ac maent fel a ganlyn:

## Amcanion

- Darparu'r trefniadau gweinyddol i gefnogi system llysoedd a thribiwnlysoedd deg, effeithlon a hygyrch
- Cefnogi barnwriaeth annibynnol i weinyddu cyfiawnder
- Ysgogi gwelliannau perfformiad ac effeithlonrwydd parhaus ar draws pob agwedd ar weinyddu'r llysoedd a'r tribiwnlysoedd
- Cydweithredu'n effeithiol ag asiantaethau a chyrff cyfiawnder eraill, gan gynnwys y proffesiynau cyfreithiol, i wella mynediad at gyfiawnder
- Gweithio ag adrannau ac asiantaethau'r llywodraeth, fel y bo'n briodol, i wella ansawdd a phrydlondeb eu penderfyniadau er mwyn lleihau nifer yr achosion sy'n dod gerbron y llysoedd a'r tribiwnlysoedd.

## Blaenoriaethau busnes

Cyhoeddwyd ein blaenoriaethau yn ein Cynllun Busnes 2011-15 a thros y cyfnod hwn roeddent fel a ganlyn:

- Sefydlu ein gweledigaeth hirdymor
- Cynyddu effeithlonrwydd a lleihau costau
- Gweithio â'n partneriaid yn y system gyfiawnder i wella perfformiad.

Gan edrych tuag at 2015-16 a thu hwnt, ein blaenoriaethau fydd:

- Datblygu, cytuno a rhannu gweledigaeth ar gyfer dyfodol Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd EM yn 2020 sy'n darparu cyfiawnder gwell am gost is
- Datblygu pobl a gallu Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd EM
- Rhoi mwy o ffocws ar gwsmeriaid yng Ngwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd EM a gwella'r ddarpariaeth i gwsmeriaid
- Darparu perfformiad gweithredol i lefelau cytunedig
- Fel rhan o'r gwaith hwn, datblygu cynllun trawsnewid pum mlynedd newydd ar gyfer Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd EM.

# Perfformiad yn erbyn amcanion

## Crynodeb o lwyth gwaith a pherfformiad

Fel rhan o Strategaeth Wybodaeth y MoJ ac Agenda Tryloywder y Llywodraeth, cyhoeddwn wybodaeth am weithrediad y llysoedd a'r tribiwnlysoedd i helpu'r cyhoedd i ddeall sut yr ydym yn perfformio. Mae'r dangosyddion hyn yn nodi mewnbwn gwasanaeth a'r effaith ar ein perfformiad. Mae'r Tabl isod yn nodi llwyth gwaith ein llysoedd a'n tribiwnlysoedd yn 2013 a 2014, a dangosyddion mewnbwn ac effaith. Nid oedd data ar gyfer 2014-15 gyfan wedi'i gyhoeddi fel Ystadegau Swyddogol pan gyhoeddwyd yr adroddiad hwn.

Mae'r Weinyddiaeth Cyfiawnder yn cyhoeddi ystadegau chwarterol ar lwyth gwaith a pherfformiad y llysoedd a'r tribiwnlysoedd yn yr Ystadegau Swyddogol canlynol:

Y *Civil Justice Statistics Quarterly* yn https://www.gov.uk/government/collections/civil-justice-statistics-quarterly

Y *Tribunals Statistics Quarterly* yn https://www.gov.uk/government/collections/tribunals-statistics

Y *Family Court Statistics Quarterly* yn https://www.gov.uk/government/collections/family-court-statistics-quarterly

A'r *Criminal Courts Statistics Quarterly* yn https://www.gov.uk/government/collections/criminal-court-statistics

Mae'r calendr ar gyfer cyhoeddi'r ystadegau hyn ar gael yn https://www.gov.uk/government/statistics/announcements

| Llwyth gwaith | Dangosyddion effaith |
| --- | --- |
| **Llys y Goron** | |
| Rhagamcan o nifer y derbyniadau 2014-15 – pob achos[1]: 136,501<br>Union nifer y derbyniadau yn 2014 – pob achos: 137,442<br>Derbyniadau yn 2013 – pob achos: 139,922<br>Rhagamcan o nifer y derbyniadau 2014-15 – achosion treial: 94,974<br>Derbyniadau yn 2014 – achosion treial:<br>94,741<br>Derbyniadau yn 2013 – achosion treial: 92,130 | Nifer yr wythnosau ar gyfartaledd y mae'n ei gymryd i gychwyn[2] achosion treial o'u derbyn yn Llys y Goron –<br>Treialon naill ffordd neu'r llall:<br>2014: 17.6 wythnos<br>2013: 14.3 wythnos<br>Treialon ar dditiad yn unig:<br>2014: 20.0 wythnos<br>2013: 18.3 wythnos |

[1] Yn cynnwys achosion treial, achosion traddodi ar gyfer dedfrydu, ac apeliadau yn erbyn penderfyniadau ynadon
[2] Mae achos yn cychwyn ar ddechrau'r prif wrandawiad cyntaf yn Llys y Goron. Prif wrandawiad yw un lle mae'r diffynnydd yn pledio'n euog neu'n ddieuog i'r holl gyhuddiadau neu lle defnyddir rheithgor ar lw.

| Llwyth gwaith | Dangosyddion effaith |
|---|---|
| **Llysoedd ynadon**<br>Rhagamcan o nifer yr achosion oedolion ditiadwy a naill ffordd neu'r llall a gwblheir yn 2014-15: 335,348<br>Union nifer yr achosion oedolion ditiadwy a naill ffordd neu'r llall a gwblhawyd yn 2014: 393,642<br>Union nifer yr achosion oedolion ditiadwy a naill ffordd neu'r llall a gwblhawyd yn 2013: 381,152<br><br>Rhagamcan o nifer yr achosion diannod a gwblheir yn 2014-15: 1,077,322<br>Union nifer yr achosion diannod a gwblhawyd yn 2014: 1,094,944<br>Union nifer yr achosion diannod a gwblhawyd yn 2013: 1,067,485 | Nifer yr wythnosau ar gyfartaledd y mae'n ei gymryd i gwblhau'r[3] holl achosion o'r rhestru cyntaf –<br>2014: 2.9 wythnos<br>2013: 3.0 wythnos<br>Nifer y diwrnodau gwaith ar gyfartaledd y mae'n ei gymryd i'r canlyniad gael ei nodi ar gofrestr y llys -<br>2014: 1.3 diwrnod<br>2013: 1.3 diwrnod<br>Cosbau ariannol:<br>Faint o arian parod a gasglwyd<br>2014: £299 miliwn<br>2013: £289 miliwn<br>Ôl-ddyledion heb eu casglu<br>Rhagfyr 14: £565 miliwn<br>Rhagfyr 13: £556 miliwn<br>Canran y cyfrifon wedi eu cau neu'n cydymffurfio â thelerau talu o fewn 12 mis i'r gosb[4]:<br>2014: 72%<br>2013: 69% |
| **Tribiwnlysoedd**<br>Yr holl dribiwnlysoedd:<br>Rhagamcan o nifer y derbyniadau 2014-15: 837,248<br>Achosion a dderbyniwyd yn 2014: 344,237<br>Achosion a dderbyniwyd yn 2013: 867,338<br>Nawdd Cymdeithasol a Chynnal Plant:<br>Rhagamcan o nifer y derbyniadau 2014-15: 516,949<br>Achosion a dderbyniwyd yn 2014: 108,335<br>Achosion a dderbyniwyd yn 2013: 524,606<br><br>Cyflogaeth:<br>Rhagamcan o nifer y derbyniadau 2014-15: 150,300<br>Hawliadau a dderbyniwyd yn 2014: 52,062<br>Hawliadau a dderbyniwyd yn 2013: 152,573 | <br><br><br><br><br>Nifer yr wythnosau ar gyfartaledd y mae'n ei gymryd i benderfynu achosion ar draws y Tribiwnlys Nawdd Cymdeithasol a Chynnal Plant -<br>2014: 26 wythnos<br>2013: 19 wythnos<br>Nifer yr wythnosau ar gyfartaledd y mae'n ei gymryd i benderfynu hawliadau ar draws y Tribiwnlys Cyflogaeth -<br>2014: 178[5] wythnos<br>2013: 117 wythnos |
| Haen Gyntaf - Mewnfudo a Lloches (Haenau Cyntaf ac Uwch):<br>Rhagamcan o nifer y derbyniadau 2014-15: 93,284<br>Achosion a dderbyniwyd yn 2014: 97,944<br>Achosion a dderbyniwyd yn 2013: 114,628<br>Iechyd Meddwl:<br>Rhagamcan o nifer y derbyniadau 2014-15: 37,321 | Nifer yr wythnosau ar gyfartaledd y mae'n ei gymryd i benderfynu achosion ar draws y Tribiwnlys Mewnfudo a Lloches Haen Gyntaf -<br>2014: 29 wythnos<br>2013: 24 wythnos<br><br>Nifer yr wythnosau ar gyfartaledd y mae'n ei gymryd i benderfynu achosion Adran 2 ar draws y Tribiwnlys Iechyd Meddwl - |

[3] Caiff achos ei gwblhau yn y llysoedd ynadon naill ai ar ôl iddo gael ei benderfynu neu pan gaiff ei drosglwyddo i Lys y Goron.
[4] Cyfrifon sydd wedi eu cau neu'n cydymffurfio erbyn diwedd yr un mis y flwyddyn ganlynol, er enghraifft cosbau a roddwyd yn Ebrill 2012 ac a oedd wedi eu cau neu'n cydymffurfio erbyn diwedd Ebrill 2013.
[5] Mae data 2014 wedi'i sgiwio oherwydd nifer o hawliadau lluosog mawr iawn a benderfynwyd yn ystod y flwyddyn.

| Llwyth gwaith | Dangosyddion effaith |
|---|---|
| Achosion a dderbyniwyd yn 2014: 31,469<br>Achosion a dderbyniwyd yn 2013: 30,363<br><br>Eraill:<br>Rhagamcan o nifer y derbyniadau 2014-15: 39,394<br>Achosion a dderbyniwyd yn 2014: 37,338<br>Achosion a dderbyniwyd yn 2013: 39,296 | 2014: 1 wythnos<br>2013: 1 wythnos |
| **Cyfiawnder Sifil a Theuluol** | |
| **Llysoedd sifil -**<br>Yr holl dderbyniadau:<br>Rhagamcan o nifer y derbyniadau 2014-15: 1,497,343<br>Achosion a dderbyniwyd yn 2014: 1,585,275<br>Achosion a dderbyniwyd yn 2013: 1,445,339<br>Hawliadau arian:<br>Rhagamcan o nifer y derbyniadau 2014-15: 1,100,885<br>Achosion a dderbyniwyd yn 2014: 1,272,652<br>Achosion a dderbyniwyd yn 2013: 1,105,455<br>Adfeddiannu:<br>Rhagamcan o nifer y derbyniadau 2014-15: 244,309<br>Achosion a dderbyniwyd yn 2014-15: 201,560<br>Achosion a dderbyniwyd yn 2013-14: 224,110<br>Ansolfedd (dychwelyd nwyddau):<br>Rhagamcan o nifer y derbyniadau 2014-15: 26,562<br>Achosion a dderbyniwyd yn 2014: 25,362<br>Achosion a dderbyniwyd yn 2013: 30,508<br>Eraill:<br>Rhagamcan o nifer y derbyniadau 2014-15: 125,587<br>Achosion a dderbyniwyd yn 2014: 111,063<br>Achosion a dderbyniwyd yn 2013: 115,774 | Sifil – Nifer yr wythnosau ar gyfartaledd y mae’n ei gymryd i wrando achosion o bryd y derbyniwyd yr hawliad yn y llys - (amser cyfartalog rhwng cyflwyno’r hawliad a’r gwrandawiad / treial)<br><br>Hawliadau bychain:<br>2014: 31.5 wythnos<br>2013: 30.2 wythnos<br><br>Treialon cyflym ac amldrac:<br>2014: 56.9 wythnos<br>2013: 59.2 wythnos |

| Llwyth gwaith | Dangosyddion effaith |
|---|---|
| **Llysoedd teulu -**<br>Pob achos:<br>Rhagamcan o nifer y derbyniadau 2014-15: 212,341<br>Achosion a dderbyniwyd yn 2014: 241,836<br>Achosion a dderbyniwyd yn 2013: 265,954<br>Mabwysiadu:<br>Rhagamcan o nifer y derbyniadau 2014-15: 14,244<br>Achosion a dderbyniwyd yn 2014: 13,075<br>Achosion a dderbyniwyd yn 2013: 14,799<br>Derbyniadau cyfraith gyhoeddus:<br>Rhagamcan o nifer y derbyniadau 2014-15: 17,000<br>Achosion a dderbyniwyd yn 2014: 14,952<br>Achosion a dderbyniwyd yn 2013: 15,098<br>Derbyniadau cyfraith breifat:<br>Rhagamcan o nifer y derbyniadau 2014-15: 55,001<br>Achosion a dderbyniwyd yn 2014: 42,426<br>Achosion a dderbyniwyd yn 2013: 54,950<br>Derbyniadau'r Ddeddf Cyfraith Teulu (trais yn y cartref):<br>Rhagamcan o nifer y derbyniadau 2014-15: rhwng 18,128 a 22,536<br>Achosion a dderbyniwyd yn 2014: 20,296<br>Achosion a dderbyniwyd yn 2013: 19,744<br>Derbyniadau ysgariad:<br>Rhagamcan o nifer y derbyniadau 2014-15: 114,415<br>Achosion a dderbyniwyd yn 2014: 113,296<br>Achosion a dderbyniwyd yn 2013: 118,299 | Teulu[6] – Nifer yr wythnosau y mae'n ei gymryd ar gyfartaledd i sicrhau canlyniad terfynol i'r plentyn mewn achosion gofal a goruchwylio–<br>2014: 26<br>2013: 32<br><br>Nifer yr wythnosau y mae'n ei gymryd ar gyfartaledd i sicrhau canlyniad terfynol i'r plentyn mewn achosion cyfraith breifat –<br>2014: 9<br>2013: 9 |

**Dangosyddion corfforaethol ac ariannol eraill**

- Nifer y cwynion a gofnodwyd gan Wasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd EM yn 2014: 15,866
- Canran y cwynion a benderfynwyd gan yr haen gyntaf yng Ngwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd EM yn 2014: 91.5%
- Nifer y diwrnodau gwaith ar gyfartaledd a gymrodd i ateb cwynion yn derfynol yn 2014: 11.5 diwrnod gwaith
- Yr holl wariant a chontractau dros £25,000: Cyhoeddir manylion am holl wariant a chontractau dros £25,000 gan Wasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd EM ac ar draws y MoJ yn fisol yn: https://www.gov.uk/government/publications/hmcts-spend-over-25000-2014

[6] Mae'r mesurau hyn, ynghyd â mesurau gan y Comisiwn Gwasanaethau Cyfreithiol a'r Gwasanaeth Cynghori a Chynorthwyo Llys i Blant a Theuluoedd (CAFCASS), yn rhan o fframwaith mesur traws-system

## Cwynion i'r Ombwdsmon Seneddol a Gwasanaeth Iechyd

Mae'r Ombwdsmon Seneddol a Gwasanaeth Iechyd (PHSO) yn ymchwilio i gwynion gan unigolion a dderbyniodd wasanaeth gwael gan adrannau'r llywodraeth, cyrff cyhoeddus eraill a chan y GIG yn Lloegr. Mae ganddo'r pŵer, o dan y gyfraith, i ymchwilio ac i wneud y penderfyniad terfynol ar gwynion am wasanaethau cyhoeddus ar gyfer unigolion. Gall hefyd argymell sut y gellid cywiro camgymeriadau a gofyn i sefydliadau gynhyrchu cynlluniau gweithredu'n dangos sut y byddant yn gwneud hyn.

Ym mlwyddyn galendr 2014 (y cyfnod adrodd a ddefnyddir gan y PHSO), derbyniodd yr Ombwdsmon 66 o gwynion yn erbyn Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd EM i'w hymchwilio; o'r rhain cwblhawyd 51 yn 2014.

Roedd canlyniadau'r ymchwiliadau hyn fel a ganlyn.

| | Nifer | Canran |
|---|---|---|
| Ymchwiliad wedi'i gwblhau | 51 | 100 |
| Cwynion a gadarnhawyd yn erbyn Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd EM | 8 | 14 |
| Cwynion a gadarnhawyd yn rhannol yn erbyn Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd EM | 17 | 34 |
| Cwynion a wrthodwyd yn erbyn Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd EM | 26 | 52 |

Mae Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd EM yn cymryd pob cwyn o ddifrif ac yn ymrwymedig i leihau'r nifer sy'n arwain at ymchwiliad gan y PHSO. Rydym yn awyddus i ddysgu o ganfyddiadau'r ymchwiliadau hyn er mwyn gwella'n gwasanaethau ac wedi mabwysiadu egwyddorion y PHSO wrth ystyried cwynion. Mae'r egwyddorion hyn yn ymwneud â: gweinyddiaeth dda; trin cwynion yn dda; ac egwyddorion ar gyfer unioni. Mae'r chwe phwynt allweddol isod yn ymwneud â phob un o'r tair egwyddor.

- Cael pethau'n iawn
- Ffocws ar y cwsmer
- Bod yn agored ac atebol
- Gweithredu'n deg a chymesur
- Cywiro pethau sy'n mynd o'i le
- Ceisio gwella'n barhaus

Ym mis Tachwedd 2014 cafodd lawlyfr gwell ar drin cwynion ei roi i staff a chynhaliwyd nifer o weithdai o gwmpas y wlad i gefnogi staff sy'n trin cwynion. Drwy wneud hyn rydym wedi gallu atgyfnerthu pwysigrwydd trin cwynion yn dda. Bwriadwn hefyd gyhoeddi astudiaethau achos ar gyfer staff.

## Perfformio yn ystod cyfnod o newid

### Awdurdodaeth y teulu

Ar 22 Ebrill 2014 lansiwyd yr Un Llys Teulu gan ddod â barnwyr ac ynadon at ei gilydd mewn un awdurdodaeth am y tro cyntaf. Mae pwyntiau mynediad dynodedig ar gyfer ceisiadau, un broses ddyrannu gyson a thimau gweinyddol unedig. Mae'r awdurdodaeth unigol hefyd wedi hwyluso

sefydlu canolfannau ysgariad arbenigol yn defnyddio cynghorwyr cyfreithiol i helpu Barnwyr Rhanbarth i ddelio ag achosion ysgariad diwrthwynebiad.

Mae perfformiad achosion gofal a goruchwylio (cyfraith gyhoeddus) wedi parhau i wella yn ystod y flwyddyn. Am y cyfnod rhwng Hydref a Rhagfyr 2014 daeth yr amser cyfartalog y mae achosion yn para i lawr i 28.7 wythnos. Mae hyn yn parhau'r duedd o wella o flwyddyn i flwyddyn ers 2011 pan adroddodd y Bwrdd Cyfiawnder Teuluol fod achosion yn para 56 wythnos ar gyfartaledd. Mae tua 60% o achosion bellach yn cael eu cwblhau o fewn 26 wythnos.

Nid yw'r ffocws parhaus hwn ar wella faint y mae achosion cyfraith gyhoeddus yn para, a'r cynnydd yn y gyfran o ymgyfreithwyr drostynt eu hunain (pobl sy'n cynrychioli eu hunain) yn dilyn y newidiadau cymorth cyfreithiol yn Ebrill 2013, wedi effeithio ar berfformiad mewn achosion trefniadau plant (cyfraith breifat). Am y cyfnod rhwng Hydref a Rhagfyr 2014 mae achosion cyfraith breifat yn para 15.3 wythnos ar gyfartaledd ar hyn o bryd.

Mewn ymateb i'r cynnydd yn nifer yr ymgyfreithwyr drostynt eu hunain mewn achosion cyfraith breifat, rydym wedi gweithio â CAFCASS, y MoJ a'r sector cynghori i wella'n sylweddol ar y cymorth a'r gefnogaeth a roddir.

### Yr awdurdodaeth sifil

Lansiwyd yr Un Llys Sirol ar 22 Ebrill 2014 gan ddileu ffiniau daearyddol y 172 llys sirol oedd mewn bodolaeth ar y pryd a symud at un awdurdodaeth Llys Sirol genedlaethol. Roedd hefyd yn flwyddyn o foderneiddio sylweddol gyda lansiad llwyddiannus dwy system Technoleg Gwybodaeth cwsmer-ganolog newydd:

- **Y Cyfrif Ffioedd** a gyflwynodd swyddogaeth talu drwy gyfrif ar gyfer ffioedd sifil a theulu; a
- Mae **Trosglwyddo Data Diogel** yn ffordd ddiogel i'n defnyddwyr allu trosglwyddo data'n electronig o'u system nhw i'n system ni.

Mae'r ddwy system uchod yn ei gwneud yn haws i'n cwsmeriaid ac i ddefnyddwyr eraill weithio gyda ni, yn enwedig rhai sy'n delio gyda nifer fawr o hawliadau. Maen nhw hefyd wedi creu arbedion sylweddol i Wasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd EM. Gwelodd 2014-15 fwy o waith yn cael ei symud i'n canolfannau busnes, gan gynnwys rheolaeth ganolog o'r Gwasanaeth Cyfryngu Hawliadau Bychain.

Yn ehangach o fewn yr awdurdodaeth:

- golygodd newidiadau fod ei awdurdodaeth ecwiti'n cael ei gynyddu i £350,000 a gall barnwyr Llys Sirol enwebedig yn awr wneud gorchmynion rhewi;
- sefydlwyd system newydd ar gyfer rheoli ceisiadau am Feilïaid Trwyddedig; a
- cyflwynwyd rheoliadau Ewropeaidd allweddol yng nghyswllt dyfarniadau sifil a masnachol a mesurau gwarchod.

Mae'r awdurdodaeth wedi parhau i ddelio â llwyth achosion trwm iawn gyda 1.6 miliwn o hawliadau yn 2014, cynnydd o 10% ar 2013. Er y cynnydd hwn, llwyddodd y canolfannau busnes a'r llysoedd i barhau i reoli'r llwyth achosion yn brydlon ac roedd gwella gwasanaeth i'r cwsmer yn parhau i fod yn flaenoriaeth.

### Tribiwnlysoedd

Gwelodd y llynedd nifer y derbyniadau tribiwnlys yn lleihau o 60% wrth i amrywiol ddiwygiadau wreiddio ar draws y llywodraeth. Mae cyfanswm cost y tribiwnlysoedd wedi gostwng o £401.7 miliwn yn 2013-14 i £346.2 miliwn yn 2014-15 o ganlyniad. Mae mesurau arbed cost pellach yn cael eu gweithredu i fanteisio ar y lleihad mewn derbyniadau. Mae hyn wedi helpu'r tribiwnlysoedd i leihau eu llwythi achosion yn sylweddol, i lawr i'r nifer isaf ers dros saith mlynedd. Ynghyd â hyn mae'r system dribiwnlysoedd unedig wedi parhau i dyfu gyda 33 o hawliau apêl newydd dros y flwyddyn ddiwethaf.

**Adroddiad y Cyngor Cyfiawnder Sifil**

Mae cyhoeddi, ar 13 Chwefror 2015, adroddiad gan Grŵp Cynghori Datrys Anghydfod Ar-lein y Cyngor Cyfiawnder Sifil wedi bod yn amserol iawn wrth i ni ddatblygu Rhaglen Ddiwygio Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd EM. Rydym yn croesawu cyhoeddi'r adroddiad pwysig ac ysgogol hwn, a bwriadwn gymhwyso llawer o'i egwyddorion i'r gwaith o ddylunio gwasanaethau yn y dyfodol.

**Tribiwnlys Nawdd Cymdeithasol a Chynnal Plant**

Mae hon wedi bod yn flwyddyn lle cafwyd llwythi gwaith cyfnewidiol iawn yn dod gerbron y tribiwnlys, gydag apeliadau'n gostwng o 80% yn dilyn diwygiadau lles y llywodraeth. Mae hyn wedi rhoi cyfle i ganolbwyntio ar glirio achosion hŷn a lleihau amseroedd aros i ddefnyddwyr. Ar ddiwedd Mehefin 2013 roedd gan y tribiwnlys 221,601 o achosion heb eu clirio gan leihau o dros 80% i 40,734 erbyn diwedd Rhagfyr 2014, gyda'r tribiwnlys yn penderfynu 114% yn fwy o apeliadau nag a dderbyniodd yn 2014. Dyma'r llwyth achosion lleiaf ers i ystadegau gael eu cyhoeddi gyntaf yn 2007/08. Wrth i achosion hŷn gael eu clirio ar ddechrau 2014, roedd nifer yr wythnosau ar gyfartaledd y cymerai i'w penderfynu'n cynyddu, fel yr adroddwn yn y crynodeb o lwythi gwaith a pherfformiad uchod. Fodd bynnag, erbyn diwedd 2014, roedd apeliadau newydd yn cael eu rhestru i'w gwrando mewn llai nag 16 wythnos.

**Y Siambr Mewnfudo a Lloches**

Mae hon wedi bod yn flwyddyn o newid a diwygiadau sylweddol i'r Siambrau Mewnfudo a Lloches. Cafodd Ddeddf Mewnfudo 2014, sy'n dileu nifer o hawliau apêl a phrosesau newid, ei gweithredu'n llwyddiannus ym mis Mawrth 2014. Rydym hefyd wedi gwneud newidiadau i gefnogi diwygio Rheolau Gweithdrefn y Tribiwnlysoedd Haen Gyntaf sy'n symleiddio'r system i ddefnyddwyr. Yr her fwyaf i'r Haen Gyntaf yw'r cynnydd diweddar yn nifer yr achosion apêl mewnfudo a lloches, gyda'r tribiwnlys yn penderfynu 16% yn fwy o achosion nag a dderbyniodd yn 2014. O ganlyniad i'r llwyth gwaith trymach hwn, roedd yn cymryd mwy o wythnosau ar gyfartaledd i benderfynu achosion yn 2014 nag yn 2013.

**Tribiwnlys Cyflogaeth**

Rydym wedi parhau i wrando ar adborth gan ddefnyddwyr ac i wella'r gwasanaeth a gynigiwn i wneud cais i'r tribiwnlys cyflogaeth ar-lein. Gall hyn fod yn anodd a thrafferthus i ddefnyddwyr yn aml felly mae'n galonogol gweld y gwasanaeth yn dod yn bedwaredd esiampl ddigidol gan y MoJ, a bellach mae 81% o hawliadau'n cael eu gwneud ar-lein. Mae cyflwyno cymodi buan, natur anwastad hawliadau lluosog, y twf mewn cyflogaeth a ffioedd i gyd wedi effeithio ar faint a natur llwyth gwaith y Tribiwnlys Cyflogaeth. Derbyniodd y Tribiwnlys 52,062 o hawliadau yn 2014 a phenderfynu 337,131, gyda nifer o hawliadau lluosog mawr yn cael eu clirio. O ganlyniad i ddatrys yr achosion hŷn hyn, cymerai fwy o wythnosau ar gyfartaledd i benderfynu achosion fel yr adroddwn yn y crynodeb o lwythi gwaith a pherfformiad.

**Iechyd Meddwl**

Mae'r Tribiwnlys wedi parhau i ganolbwyntio ar leihau ei amseroedd aros a sicrhau ei fod yn cydymffurfio â'r amseroedd statudol ar gyfer gwrando achosion. Roedd y llwyth achosion oedd heb ei glirio'n 3,288 ar ddiwedd Rhagfyr 2014, sef y lleiaf ers cadw cofnodion ers 2008-09, gyda'r achosion pwysicaf yn dal i gael eu rhestru i'w gwrando o fewn saith diwrnod i'w derbyn.

**Y Siambr Dreth**

Mae'r Siambr Dreth wedi bod yn brysur iawn yn ystod y flwyddyn yn paratoi am y cynnydd yn y llwyth gwaith yn sgil diwygiadau'r llywodraeth i osgoi trethi. Mae hyn wedi gweld tîm prosesu cenedlaethol yn cael ei sefydlu mewn un ganolfan fusnes ym Mirmingham gan y Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd EM, systemau rheoli achosion gwell o lawer i symleiddio'r broses yn ogystal â phenodi barnwyr ffi a chyflogedig ychwanegol. Mae gwaith yn awr yn parhau ar gynyddu'r adnoddau gweinyddol a nifer yr ystafelloedd tribiwnlys yn Llundain sydd ar gael ar gyfer achosion treth.

**Awdurdodaethau tribiwnlys newydd**

Mae uno apeliadau tribiwnlys yn parhau gyda 33 o hawliau apêl newydd wedi eu cyflwyno i'r system Tribiwnlysoedd Haen Gyntaf yn 2014-15.

## Trosedd

Mae Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd EM yn gweithio â phartneriaid ar draws y CJS i ddatblygu rhaglen newid busnes TG fel y gall asiantaethau'r CJS fod yn fwy effeithlon a darparu gwasanaeth gwell i ddioddefwyr, tystion a diffynyddion. Y rhaglenni hyn yw'r Rhaglen Llwyfan Cyffredin a'r rhaglen Effeithlonrwydd Cyfiawnder Troseddol. Mae mwy o wybodaeth am y rhaglenni hyn ar dudalennau 16-17.

Mae casglu dirwyon troseddol yn parhau i fod yn flaenoriaeth i ni, a law yn llaw â Chyllid a Thollau EM (HMRC) rydym wedi datblygu prosesau i rannu gwybodaeth am gyfrifon dirwyon. Lle mae HMRC yn darparu'r manylion cyflogaeth gellir creu gorchymyn atafaelu enillion er mwyn gallu gorfodi dirwyon troseddol yn fwy effeithiol ac effeithlon. Rydym wedi parhau i weithio'n rhagweithiol ar adolygu'r holl gyfrifon byw i sicrhau bod y camau gorfodi mwyaf priodol yn cael eu cymryd. Rydym hefyd wedi gwneud gwaith helaeth yn ystod y flwyddyn i edrych ar ddulliau eraill o gasglu dirwyon yn fwy effeithiol, a bwriadwn weithredu hyn yn ystod 2015/16.

Rydym yn parhau i gefnogi'r rhaglen Trawsnewid Cyfiawnder Diannod sydd wrthi'n cael ei chyflwyno ar draws Cymru a Lloegr. Bydd hyn yn helpu i sicrhau ymhellach bod achosion i'w gwrando mewn llysoedd ynadon yn cael eu rheoli'n drylwyr cyn dyddiad y treial, gan leihau nifer y gohiriadau diangen a chynyddu nifer y treialon effeithiol ar y diwrnod. Mae Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd EM wedi gweithio â'i bartneriaid yn y CJS a'r farnwriaeth i newid patrymau rhestru, gan rannu achosion yn rhai lle disgwylir ple euog a rhai lle disgwylir ple dieuog a sicrhau bod nifer briodol o achosion yn cael eu rhestru mewn sesiynau llys. Dylai hyn leihau nifer y gwrandawiadau ym mhob achos. Gweithredir y rhan fwyaf o'r rhaglen hon erbyn diwedd Mai 2015.

Mae prydlondeb yn y llysoedd ynadon wedi gwella. Symudodd 81% o achosion troseddol o'r rhestru cyntaf i draddodi neu gwblhau o fewn pedair wythnos yn 2014, o'i gymharu â 79% yn 2013. Llwyddwyd i gynnal cyfradd y treialon effeithiol ar 45% dros y ddwy flynedd diwethaf, ac mae wedi bod yn gwella'n gyson ers tro. Mae llwyth gwaith y llysoedd ynadon wedi cynyddu yn 2014, gyda derbyniadau i fyny 5% ar 1.61 miliwn, penderfyniadau i fyny 1% ar 1.57 miliwn a'r llwyth gwaith heb ei glirio i fyny 13% ar 0.33 miliwn.

Cynyddodd nifer yr achosion treial heb eu clirio yn Llys y Goron i 47,000 erbyn diwedd Rhagfyr 2014, 13% yn fwy na'r 42,000 ar ddiwedd 2013. Mae hyn yn dilyn cynnydd o 3% mewn derbyniadau i 95,000, yn enwedig mewn achosion troseddau rhywiol a thrais yn erbyn y person. Mae hyn wedi cynyddu'r amser aros cyfartalog o 3.3 wythnos ar gyfer achosion naill ffordd neu'r llall, ac 1.7 wythnos ar gyfer achosion ditiadwy'n unig, rhwng 2013 a 2014.

Achosion naill ffordd neu'r llall yw troseddau canolig y gellir eu profi mewn llys ynadon neu yn Llys y Goron, yn ôl cyfarwyddyd yr ynadon neu ddewis y diffynnydd. Yn 2012 derbyniwyd tua 4,000 o achosion naill ffordd neu'r llall yn Llys y Goron bob mis; yn 2013 roedd hyn wedi codi i 4,700 o achosion y mis, ac yn 2014 i 5,100 y mis. Yn 2014 deliwyd â thua 4,700 o achosion naill ffordd neu'r llall y mis, cynnydd o 15% ar 4,100 y mis yn 2013. Roedd y cynnydd hwn yn rhannol oherwydd bod cymysgedd yr achosion wedi newid ac yn sgîl cyflwyno Deddf Cymorth Cyfreithiol, Dedfrydu a Chosbi Troseddwyr 2012 a gyflwynodd newidiadau i fechnïaeth a phwerau'r llysoedd i remandio oedolion heb eu collfarnu yn y ddalfa.

**Adolygiad Syr Brian Leveson o Effeithlonrwydd Achosion Troseddol**

Mae argymhellion yr Adolygiad o Effeithlonrwydd Achosion Troseddol gan Syr Brian Leveson, ac a gyhoeddwyd yn Ionawr 2015, yn eang iawn – ac yn herio'r system cyfiawnder troseddol i wneud defnydd mwy radical o ddulliau digidol. Rydym wedi dechrau gweithio gyda'n partneriaid yn y farnwriaeth a'r system cyfiawnder troseddol i gynllunio rhaglen waith, sy'n cysylltu i raglenni presennol, er mwyn ateb yr angen i symud ymlaen yn y tymor byr a hirach, wedi'i chydbwyso yn erbyn defnydd effeithiol o'r adnoddau sydd ar gael.

Yn Chwefror 2014 sefydlwyd Grwpiau Busnes Barnwrol (JBG) lleol newydd. Mae'r grwpiau JBG hyn yn gyfrifol am sicrhau bod trefniadau lleol priodol yn eu lle i gyflawni busnes barnwrol yr ardal, ac am sicrhau bod ymgynghori rheolaidd â Rheolwyr Clwstwr Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd EM ynghylch gweithrediad y llysoedd. Mae'r JBG yn fforwm lle gall y farnwriaeth a Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd EM ddod at ei gilydd i ystyried a sicrhau bod rhaglenni cenedlaethol fel Trawsnewid Cyfiawnder Diannod yn cael eu gweithredu mewn ffordd sy'n gyson a chydnaws â'u gofynion lleol.

Mae Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd EM wedi llwyddo i gynyddu'r defnydd o dechnoleg fideo. Cynyddodd nifer y cysylltiadau fideo rhwng y carchar a'r llys o 53,487 gwrandawiad yn 2013 i 72,201 gwrandawiad yn 2014 gan leihau symudiadau carcharorion. Rydym hefyd wedi bod yn profi atebion fideo eraill yn y llysoedd ar ffurf gwasanaethau fideo drwy'r rhyngrwyd, ac yn rhoi mwy o gyfle i dystion lleyg a'r heddlu roi tystiolaeth drwy gyswllt fideo, gan gynnwys o dramor. Er enghraifft, ym mis Medi 2014, gwnaed trefniadau i gael cyswllt fideo i ystafell gynadledda drwy'r rhyngrwyd yn Basra, i'w ddefnyddio gan Ymchwiliad Barnwrol Irac.

Mae Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd EM yn gweithio gyda'r farnwriaeth ac asiantaethau partner y CJS i ddarparu gwasanaeth mwy effeithlon drwy weithio'n ddigidol. Cyfeiriwn at y gwaith hwn ar dudalennau 16-17.

## E-alluogi ein system gyfiawnder

### Cefndir

Mae gan Wasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd EM weledigaeth o fodel busnes newydd sy'n defnyddio technoleg fodern i ddarparu gwasanaethau cyfiawnder mwy cost-effeithiol ac effeithlon. Bydd hyn yn arwain at:

- drafodion busnes am y gost isaf bosibl i bob achos
- y wybodaeth iawn ar yr amser iawn i'r bobl iawn, a
- gwasanaeth o ansawdd uwch i'r cyhoedd.

Yn 2014-15 a chyda'n partneriaid ar draws y system gyfiawnder, fe wnaethom gynnydd sylweddol gyda darparu atebion galluogi TG i gefnogi newid. Rydym wedi cychwyn rhaglenni uchelgeisiol i ddigideiddio ac e-alluogi'r system gyfiawnder; er mwyn rhoi manteision yn syth ac i ategu Rhaglen Ddiwygio Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd EM.

Ochr yn ochr â hyn rydym yn parhau i gefnogi'r gwasanaethau TG presennol i sicrhau bod pethau'n parhau i redeg yn effeithiol drwy'r broses newid raddol hon.

### Rhaglen Effeithlonrwydd y System Cyfiawnder Troseddol

Mae'r rhaglen yn gweithio gyda'r heddlu, Gwasanaeth Erlyn y Goron a Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd EM i arlwyo'r ffordd ar gyfer digideiddio'r system cyfiawnder troseddol. Gwneir hyn drwy gyflwyno ffeiliau achos digidol a meddalwedd a chaledwedd allweddol fel y gellir defnyddio ffeiliau digidol yn ystafell y llys.

Mae Rhaglen 2014-15 wedi darparu'r canlynol:

- Gosodwyd Wi-Fi proffesiynol i ddefnyddwyr y llys mewn deg ardal a dderbyniodd y cyfarpar yn gynnar, ac rydym wrthi'n ei osod mewn nifer o safleoedd eraill. Bwriadwn osod y cyfarpar mewn dros 300 o lysoedd troseddol erbyn Mawrth 2016.
- Atebion cyflwyno yn y llys mewn dros 400 o ystafelloedd llys gydag adborth cadarnhaol gan ddefnyddwyr sy'n defnyddio'r cyfarpar i gyflwyno tystiolaeth ddigidol. Bwriadwn gwblhau cyflwyno'r system mewn llysoedd ynadon yn 2015 ac mae cynlluniau ar y gweill i gael system debyg yn Llys y Goron.
- Storfa 'gwmwl' i storio'r holl ddogfennau digidol yn ymwneud â'r llysoedd. Mae hon wedi'i phrofi'n llwyddiannus ar ddau safle. Bwriadwn wneud y storfa ar gael ym mhob llys troseddol erbyn haf 2015.

- Mae profion defnyddwyr yn cael eu cyflawni ym Mirmingham i gyflwyno dyfeisiau fel bod ynadon yn cael mynediad amserol at ffeiliau digidol. Bydd y rhain yn cael eu diwygio ar sail adborth gan ddefnyddwyr cyn eu cyflwyno'n genedlaethol, rhwng Mehefin a Thachwedd 2015 i fod.
- Cafodd gontractau i ddarparu'r ateb digidol yn Llys y Goron eu caffael ym Mawrth 2015 gan fwriadu ei ddefnyddio ym mhob Llys y Goron erbyn dechrau 2016. Bydd yr ateb hwn yn golygu bod partïon yn gallu lanlwytho, cael mynediad at a chyflwyno eu tystiolaeth yn y llys.
- Mwy o ddarparu a defnyddio cyswllt fideo rhwng partïon. Defnyddiwyd llawer mwy o gyswllt fideo rhwng y carchar a'r llys, a hefyd defnyddiwyd mwy o fathau eraill o gysylltiadau o bell er mwyn cynyddu mynediad i ddefnyddwyr a thystion. Cwblhawyd y cynlluniau peilot i recordio croesholi tystion agored i niwed ymlaen llaw a chafodd brofion o wasanaethau fideo drwy'r rhyngrwyd eu cyflawni'n llwyddiannus gyda'r nod o'u cyflwyno'n ehangach yn 2015-16.
- Yn olaf, mae'r Rhaglen hefyd wedi datblygu ffeil achos ddigidol lle bydd heddluoedd yn gallu anfon ffeiliau achos mewn fformat data y bydd yna'n bosibl ei ddefnyddio ar y llwyfan cyffredin i atal dyblygu ac ail-fewnosod.

**Llwyfan Cyffredin y System Cyfiawnder Troseddol**

Rhaglen newid busnes Technoleg Gwybodaeth yw'r Llwyfan Cyffredin fydd yn cefnogi trawsnewid busnes ar draws Gwasanaeth Erlyn y Goron a Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd EM. Bydd yn dod â gwybodaeth hanfodol am droseddu at ei gilydd i'w defnyddio gan ymarferwyr cyfiawnder troseddol lle a phryd y bydd ei hangen arnynt. Bydd cynhyrchion a gwasanaethau'r Llwyfan Cyffredin yn cael eu teilwrio i anghenion yr ymarferwr penodol ac ar gael drwy borthol diogel. Disgwyliwn y bydd modd addasu llawer o'r dechnoleg ar gyfer meysydd busnes eraill Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd EM. Mae'r Llwyfan Cyffredin wedi symud i gael ei lywodraethu gan Raglen Ddiwygio Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd EM o ystyried bod amcanion a sgôp y ddwy raglen yn gorgyffwrdd.

Yn 2014-15 darparodd y canlynol:

- Achos busnes cymeradwy sy'n nodi'r manteision, costau a phrosesau ar gyfer datblygu a gweithredu'r rhaglen rhwng nawr a 2019.
- Proses fusnes droseddol unedig newydd, wedi'i chyd-ddatblygu gennym ni a Gwasanaeth Erlyn y Goron, o'r cam cyn-gyhuddo i'r penderfyniad. Mae'r broses hon yn gwneud y mwyaf o'r cyfleoedd i rannu data, awtomeiddio a safoni.
- Porthol pledio ar-lein sy'n caniatáu i ddefnyddwyr gyflwyno eu ple ar-lein. Datblygwyd a phrofwyd hwn yn Llys Ynadon Manceinion a Salford mewn partneriaeth â thîm lleol y Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd EM, Gwasanaethau Digidol y MoJ a Heddlu Manceinion Fwyaf. Bydd yn cael ei gyflwyno'n genedlaethol yn 2015-16, bydd yn cefnogi'r Weithdrefn Gyfiawnder Unigol newydd ac yn dempled i ddefnyddwyr gael mynediad pellach at y system cyfiawnder troseddol.
- Cafodd beilot llwyddiannus o rota ynadon, fel bod ynadon yn gallu cyflwyno a rheoli eu hargaeledd ar-lein, ei gwblhau ym mis Hydref 2014. Bydd y system yn cael ei datblygu a'i chyflwyno ymhellach i'r busnes cyfan yn 2015-16.
- Comisiynwyd gwaith ar ystod o gynhyrchion eraill gan ddechrau datblygu meysydd craidd y broses, fel canlyniadau ar gofrestr y llys, amserlen a chynnydd achosion. Bydd y swyddogaeth o nodi canlyniadau ar gofrestr y llys yn cael ei phrofi a'i chyflwyno i'r busnes yn 2015-16. Mae'r rhaglen hefyd wedi cychwyn prosiect porthol amddiffyn lle bydd ymarferwyr amddiffyn yn gallu defnyddio'r Llwyfan Cyffredin ar-lein a chael gafael ar wybodaeth achos allweddol. Mae'n ddyddiau cynnar ar y prosiect hwn a bydd yn cael ei ddatblygu gydag ymarferwyr amddiffyn drwy gydol 2015 a 2016.

**TG Sifil, Teulu a'r Tribiwnlysoedd**

Yn barod am y newidiadau a ddaw drwy Raglen Ddiwygio Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd EM, mae adolygiad o'r gwasanaethau TG sy'n cefnogi'r tribiwnlysoedd a'r

llysoedd sifil a theulu ar hyn o bryd wedi adnabod cyfleoedd i wneud y mwyaf o'r manteision a'r defnydd o wasanaethau ar draws awdurdodaethau.

Mae system rheoli achosion newydd hefyd yn cael ei chyflwyno'n llwyddiannus yn y Siawnsri a'r Llysoedd Technoleg ac Adeiladu.

**Busnes fel arfer**

Mae Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd EM hefyd wedi gwneud ystod eang o newidiadau i'r systemau TG presennol i:

- sicrhau cydymffurfio â deddfwriaeth newydd
- gwella effeithlonrwydd a chefnogi ffyrdd newydd o weithio, a
- gwella mynediad i'r cyhoedd.

Bydd y systemau etifeddol yn parhau i ddarparu craidd y gwasanaethau i ni dros y tair blynedd nesaf o leiaf. Mae datblygiadau penodol sy'n cefnogi ffyrdd newydd o weithio'n cynnwys y canlynol:

- Lansio'r llys unigol, un awdurdodaeth ar gyfer llysoedd sifil ac un ar gyfer llysoedd teulu, gyda'r newid mwyaf i Dechnoleg Gwybodaeth erioed yn y maes hwn.
- Trosglwyddo data'n ddiogel, sy'n digideiddio'r broses o wneud a thracio ceisiadau i ddefnyddwyr sy'n gwneud nifer fawr o hawliadau arian sifil – mae 72% o'r holl hawliadau arian bellach yn cael eu gwneud yn ddigidol drwy Hawlio Arian Ar-lein.

## Sicrhau bod ein hystâd yn addas i'r pwrpas

**Cefndir**

Ar hyn o bryd mae gan Wasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd EM ystâd o tua 500 o adeiladau yng Nghymru a Lloegr. Mae'r ystâd hon o ganlyniad i uno nifer o sefydliadau a arweiniodd at greu Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd EM yn 2011. Mae 236 o lysoedd ynadon; 172 o lysoedd sirol; 76 o brif ganolfannau Llys y Goron (a 15 arall o ganolfannau 'lloeren' Llys y Goron); ac mae tribiwnlysoedd yn eistedd mewn tua 100 o wahanol leoliadau.

Mae'r ystâd wrandawiadau ar gyfer ein defnyddwyr yn amrywiol iawn. Mae'n cynnwys nifer o gyfleusterau modern rhagorol a rhai adeiladau hŷn effeithiol sy'n cael eu cynnal yn dda. Fodd bynnag amrywiol yw safon yr adeiladau a gynigiwn i'r cyhoedd i'w mynychu. Mae gennym yn aml sawl safle mewn un ddinas neu dref sy'n cynnig yr un gwasanaethau'n union. Mae hyn yn ddryslyd i ddefnyddwyr, yn gwastraffu amser, yn achosi oedi annisgwyl ac yn gostus. Mae seilwaith ein llysoedd a'n tribiwnlysoedd yn heneiddio ac yn dioddef o ddiffyg buddsoddiad. Yn aml, dim ond nifer fach o ystafelloedd gwrandawiad sydd yn yr adeiladau, sy'n golygu na allwn eu rhedeg yn effeithlon. Mae'r holl ffactorau hyn wedi arwain at orgapasiti a diffyg hyblygrwydd yn yr ystâd sydd yn ei dro'n arwain at gostau diangen.

Drwy Raglen Ddiwygio Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd EM, mae gennym gyfle i fuddsoddi mewn gwella ein hystâd i'w gwneud yn addas i'r pwrpas i ddefnyddwyr. Mae'r rhaglen olaf o fuddsoddi yn yr ystâd yn dal i gael ei datblygu ac rydym yn benderfynol o'i chynllunio ar y cyd â newidiadau TG a phroses er mwyn gwneud yn siŵr bod gennym ystâd sy'n hwyluso ein ffyrdd newydd o ddarparu gwasanaeth.

Mae hefyd yn glir y bydd angen i ni sicrhau y gall yr ystâd gefnogi rhestru mwy effeithiol. Daw ystafelloedd gwrandawiad yn fwyfwy aml-swyddogaeth fel bod gwahanol awdurdodaethau llys a thribiwnlys yn gallu rhannu gofod. A byddwn yn sicrhau yr ystyriwn y potensial i ddefnyddio technoleg ddigidol i edrych o'r newydd ar yr hyn a wneir mewn adeilad a'i gymharu â beth fyddai'n bosibl ei wneud o bell – fel y nododd adolygiad Leveson ac adolygiad y Cyngor Cyfiawnder Sifil. Byddwn yn parhau i gyflawni dadansoddiadau manwl lleol i sicrhau bod mynediad at wasanaethau llys a thribiwnlys i drigolion mewn ardaloedd gwledig yn cael ei asesu'n drylwyr fel y cynhelir mynediad at gyfiawnder lle bynnag y mae pobl yn byw.

Bydd y newidiadau hyn a ddaw yn sgîl Rhaglen Ddiwygio Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd EM yn sicrhau:

- y gall arferion rhestru fod yn llawer mwy hyblyg, gan wneud gweinyddu cyfiawnder yn fwy effeithlon
- y bydd bil cynnal a chadw llai, a
- y bydd cydymffurfio gwell â Deddf Cydraddoldeb 2010.

Bydd hyn yn sicrhau profiad gwell i ddefnyddwyr y llys, dioddefwyr, tystion a'r farnwriaeth.

**Beth a gyflawnwyd**

Yn 2014-15 cafodd gyfanswm o 22 eiddo eu gwerthu gan roi derbyniadau cyfalaf o tua £16.4m.

Yn ogystal â chau llysoedd gyda chyfleusterau anfoddhaol, rydym wedi parhau i foderneiddio'r ystâd llysoedd. Er enghraifft, cafodd y gwaith o ddylunio ac adeiladu Llys Teulu Dwyrain Llundain yn Canary Wharf ei gwblhau yn 2014. Agorwyd y llys yn swyddogol gan Lywydd yr Adran Deulu, Syr James Munby, a'r Gwir Anrhydeddus Simon Hughes AS, y Gweinidog Gwladol dros Gyfiawnder a Hawliau Sifil, ar 12 Rhagfyr 2014. Fel canolfan gyda 12 o ystafelloedd lys, mae'n delio ag amrywiaeth o waith teulu ac fe'i dyluniwyd yn arbennig gyda chyfarpar i gefnogi gwrandawiadau drwy gyswllt fideo mewn pedwar o'r llysoedd er lles tystion agored i niwed.

Cytunodd y Bwrdd i fuddsoddi mewn siambrau barnwrol i sicrhau bod modd diogelu ac atal risg i ddefnyddwyr yn ystod gwrandawiadau. Roedd hyn yn dilyn pryderon a nodwyd gan archwiliadau diogelwch lleol a thrwy adborth gan farnwyr unigol. Mae'r rhaglen waith wedi cael ei monitro'n fanwl gan y Bwrdd ac roedd bron wedi'i chwblhau ar ddiwedd Mawrth 2015.

Mae cynnal ystâd llysoedd gwbl weithredol ac addas i'r pwrpas yn rhan bwysig o'n gwaith beunyddiol. Yn 2014-15 llwyddodd Gyfarwyddiaeth Ystâd y MoJ, ar ein rhan, i gwblhau 177 o brosiectau ystâd, gyda 497 arall ar y gweill. O ganlyniad i redeg gorsafoedd ailgylchu ar draws yr ystâd, enillodd Wasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd EM Wobr Amgylcheddol glodfawr Afal Gwyrdd am Ymarfer Amgylcheddol Gorau.

## Cyfiawnder mwy effeithlon

### Gwella parhaus

Rydym wedi parhau i gymell effeithlonrwydd drwy feithrin gallu ein timau i ddefnyddio technegau gwella parhaus i ddileu gwastraff a lleihau galwadau o ganlyniad i fethiant systemau. Mae un o'n timau, yn y Gwasanaeth Profiant, wedi datblygu offeryn rheoli llwyth gwaith sy'n casglu'r wybodaeth sydd ei hangen i ganolbwyntio adnoddau ar y gweithgaredd, sy'n ychwanegu gwerth i'r cwsmer ac i ddefnyddwyr eraill. Defnyddir hwn hefyd i sicrhau bod gennym y sgiliau iawn i ddarparu'r gwasanaeth. Bwriadwn ei gyflwyno'n ehangach maes o law.

Drwy ddefnyddio rhwydweithiau a gweithgareddau dysgu eraill, mae pobl wedi rhannu profiadau o ddatrys problemau ac wedi dod i ddeall yn well sut i wella'r gwasanaeth a roddir i'r cwsmer drwy dechnegau gwella parhaus. Mae hyn nid yn unig wedi rhoi arbedion ond hefyd wedi gosod y sylfeini ar gyfer gallu ymateb i'n cwsmeriaid a defnyddwyr eraill wrth i ni ddod i ddeall eu hanghenion yn well.

### Cynyddu defnyddioldeb i sicrhau bod capasiti'n cyfateb i'r llwyth gwaith

Rydym yn parhau i adnabod a phrofi mesurau i wella'r ffordd y defnyddiwn ein hystafelloedd gwrandawiadau llys a thribiwnlys. Mae gwneud defnydd effeithlon o'r ystâd yn bwysig fel y gallwn barhau i gynnig gwerth am arian a gweithredu o fewn ein modd. Bydd y mesurau hyn hefyd yn ein helpu i ddeall sut y gallwn ddarparu ein harferion gweithredol yn unol â'n bwriadau strategol yn y dyfodol. Mae mwy o wybodaeth am ein hystâd ar dudalennau 18-19.

Mae ein Canolfannau Busnes Cenedlaethol (NBC) yn parhau i ddarparu gwasanaethau effeithlon ac effeithiol gyda ffocws ar roi profiad gwell i'r defnyddiwr. Eleni daethant yn gyfrifol am alwadau cyswllt cyntaf mewn nifer o lysoedd, gan gynnwys y Llys Sirol yng Nghanol Llundain, yn

uniongyrchol mewn ymateb i adborth gan ddefnyddwyr. Ers dod yn gyfrifol am y gwasanaeth a'i ddarparu gyda 30% yn llai o adnoddau, mae'r amser a gymerir i ateb galwadau (32 eiliad) wedi gwella'n sylweddol a derbyniwyd mwy o adborth cadarnhaol gan gwsmeriaid.

Mae'r canolfannau NBC hefyd wedi arwain y ffordd ar berfformiad, gyda mwy o hawliadau arian penodedig yn mynd drwy'r ddwy ganolfan fusnes sifil ac yn cael eu prosesu, gan ragori ar y dangosydd perfformiad allweddol (prosesir 96.8% o'r gwaith ar amser - 94% yw'r dangosydd perfformiad allweddol). I'r dyfodol mae'r canolfannau NBC yn bwriadu ysgwyddo mwy o waith gyda swyddogaeth brosesu'r Tribiwnlys Treth, fydd yn ehangu'n sylweddol, gan ymuno yn Ebrill 2015.

**Gorfodaeth droseddol**

Mae Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd EM yn parhau i chwilio am ffyrdd mwy effeithlon o gasglu mwy o ddirwyon troseddol ac o wella cydymffurfio a gorfodaeth. Ym mis Gorffennaf 2013 gwnaethom gychwyn ar broses gaffael i adnabod darparwr allanol i ddarparu'r gwasanaethau hyn. Erbyn haf 2015, gobeithiwn fod wedi dyfarnu'r contract i'r bidiwr llwyddiannus. Bydd y gwasanaeth yn cynnwys y rhan fwyaf o'r gwaith cydymffurfio a gorfodaeth yng nghyswllt dirwyon troseddol. Daw hyn â'r buddsoddiad angenrheidiol a'r dechnoleg fydd ei hangen arnom i gyflawni ein dyheadau am wasanaeth mwy effeithlon ac effeithiol yn y dyfodol. Disgwylir y bydd y prosiect yn creu manteision o ganlyniad i fwy o refeniw oherwydd gorfodi mwy effeithiol, llai o gostau adnoddau drwy weinyddu a gorfodi'n fwy effeithlon, a mwy o hyder yn y system cyfiawnder troseddol drwy gasglu dirwyon ariannol yn fwy llwyddiannus.

## Newid o'n blaenau

Mae'r ffordd y mae pobl yn defnyddio gwasanaethau, cynhyrchion a gwybodaeth wedi newid ac yn parhau i newid. Mae'r cyhoedd yn disgwyl gallu defnyddio gwasanaeth yn gyflym a chyfleus, ar adegau ac mewn ffyrdd sy'n hwylus iddynt.

Mae llawer bellach yn dewis gwneud eu siopa wythnosol o gysur eu cartrefi, cwblhau trafodion banc wrth fynd o gwmpas eu busnes ac adnewyddu eu hyswiriant car drwy glicio llygoden. Mewn ychydig dros ugain mlynedd mae'r we wedi dod yn rhan anferth o'n bywydau pob dydd. Heddiw mae 84% o oedolion yn y DU ar-lein a daeth cwblhau trafodion ar-lein yn ail natur i bobl.

Mae sefydliadau, p'un ai yn y sector cyhoeddus neu breifat, wedi cydnabod bod hyblygrwydd a gallu addasu'n hollbwysig yng ngoleuni'r datblygiadau chwim iawn mewn technoleg a'r newidiadau yn y ffordd y mae'n well gan gwsmeriaid a defnyddwyr eraill wneud pethau. Nid yw Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd EM ddim gwahanol. Ond hyd yma rydym wedi methu ag ymateb yn ddigonol i'r newid hwn yn ymddygiad ein cwsmeriaid. Nid yw aros fel yr ydym neu wneud mân newidiadau graddol yn ddigon i sicrhau bod Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd EM yn parhau i gwrdd ag anghenion defnyddwyr ein gwasanaethau. Bydd hefyd yn galluogi'r llysoedd i gynnal eu gwasanaethau ymgyfreitha byd-enwog.

Fel unrhyw ddarparwr gwasanaeth, mae ein llwyddiant yn dibynnu ar ansawdd y gwasanaeth a ddarparwn a'n perfformiad yn cwrdd â disgwyliadau'r cwsmer yn yr oes fodern. Gwyddom fod lefel y gwasanaeth a geir mewn llys neu dribiwnlys yn anghyson ar y gorau ar hyn o bryd, a gwaeth fyth yn rhwystredig, er gwaethaf ymdrechion caled a pharhaus ein staff a'r farnwriaeth.

Mae defnyddio ein gwasanaeth heddiw'n aml yn golygu llenwi ffurflenni papur, teithio i un o'n hadeiladau i gwblhau proses syml neu drefnu cyfarfod wyneb yn wyneb i dderbyn arweiniad syml. Gall hyn arwain at gymhlethdod, dryswch ac oedi diangen i'n defnyddwyr.

Hyd yn oed lle rydym wedi ceisio cyflwyno ffyrdd mwy digidol o weithio, dibynnwn yn aml ar fersiynau digidol o brosesau busnes papur, a osodwyd ar ben hen systemau TG etifeddol, rhai ohonynt dros 30 oed. Ni chawsant eu dylunio gyda gwasanaeth digidol mewn golwg, crëwyd hwynt yn hytrach i ddyblygu ffurflenni a phrosesau papur yn hytrach na manteisio ar gyfle i gyn-boblogi neu ymateb i ddewisiadau defnyddwyr. Mae gennym systemau ôl-brosesu sydd wedi dyddio, sy'n ychwanegu at oedi, aneffeithlonrwydd a methiant y system. Dyluniwyd ein gwasanaethau'n aml mewn 'seilos' yn hytrach na fel rhan o ddull cyson o wella profiad ein defnyddwyr ar draws ein

gwasanaeth. Mae'n dilyn bod profiad y defnyddiwr hefyd yn anghyson ac yn ddiangen o ddryslyd, yn enwedig i ddefnyddwyr agored i niwed.

**Trawsnewid Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd EM drwy ganolbwyntio ar ein cwsmeriaid a'n defnyddwyr eraill**

Wrth gwrs, mae'n amhosibl rhagweld yn hollol pa newidiadau a ddaw yn y dyfodol. Ond rhaid i ni sicrhau ein bod yn ystyried y tueddiadau newydd hyn fel bo'r gwasanaeth a ddarparwn yn y dyfodol yn ddigon hyblyg ac ystwyth i gwrdd ag amrediad newydd ac eang o anghenion gan y defnyddwyr llys a thribiwnlys a wasanaethwn.

Yn 2014 gwnaethom gytuno i fuddsoddi cyllid gros o dros £700m mewn gwella a thrawsnewid yn sylfaenol y gwasanaeth a ddarparwn. Bydd y trawsnewid hwn yn herio'r ffordd y darparwn ein gwasanaeth. Yn benodol bydd yn sicrhau bod Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd EM, yn y dyfodol, yn cael ei ail-ddylunio'n sylfaenol i gwrdd ag anghenion newydd ein defnyddwyr gan ddarparu gwasanaeth mewn ffordd sy'n gweithio iddyn nhw, yn hytrach na disgwyl iddyn nhw addasu i ni. Byddwn yn sicrhau bod pob dinesydd a defnyddiwr yn cael mynediad prydlon at gyfiawnder yn ôl eu gwahanol anghenion, p'un ai fel dioddefwr neu dyst i droseddu, defnyddiwr mewn dyled, plentyn mewn risg o gael niwed, busnes mewn anghydfod masnachol neu unigolyn sy'n mynnu ei hawliau cyflogaeth.

I gyd-fynd â'r diwygiadau sylfaenol hyn bydd gennym gyfres newydd o ddangosyddion perfformiad allweddol i roi gwybodaeth well i ddefnyddwyr am ansawdd ac effeithiolrwydd y gwasanaethau a ddarparwn. Hyd nes y datblygir y gyfres newydd hon o ddangosyddion canlyniad, nid ydym wedi cynnwys yr holl wybodaeth fewnbwn oedd mewn adroddiadau blynyddol blaenorol, oherwydd nid yw fel rheol yn ddefnyddiol i ddarllenwyr er mwyn barnu perfformiad yn briodol.

Bydd Rhaglen Ddiwygio Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd EM felly'n darparu:

- gwasanaeth gwell i ddefnyddwyr
- cyfiawnder teg a thryloyw
- sianeli mynediad gwell a modern; a
- seilwaith diogel at y dyfodol sy'n gynaliadwy a digon hyblyg i addasu i ofynion y dyfodol.

O ganlyniad disgwyliwn y gallwn ddarparu gwasanaeth gwell am gost net is.

**Newid ehangach**

Ar yr un pryd ag y gwnawn y newidiadau sylfaenol hyn i'r ffordd y darparwn ein gwasanaethau, arhoswn yn hyblyg a pharod i gwrdd ag anghenion y llywodraeth newydd. Mae hyn yn cynnwys datblygu polisi yn y MoJ ac yn adrannau eraill y llywodraeth, a fydd hefyd efallai'n cael effaith sylweddol ar y ffordd a weithredwn. Byddwn hefyd yn parhau i weithio'n agos â'n partneriaid yn y systemau cyfiawnder troseddol a theulu, sydd â pholisïau sy'n effeithio'n uniongyrchol ar y system llysoedd a thribiwnlysoedd.

# Cyllid

### Sylwebaeth ar reolaeth

Mae Cyfrifon Blynyddol Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd EM am 2014-15 ar dudalennau 55-105. Paratowyd y cyfrifon yn unol â'r cyfarwyddyd Cyfrifon a gyhoeddwyd gan Drysorlys EM ar 18 Rhagfyr 2014 o dan adran 7(2) o Ddeddf Adnoddau a Chyfrifon y Llywodraeth 2000.

Mae Swyddog Cyfrifyddu'r MoJ wedi dynodi Prif Weithredwr Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd EM fel Swyddog Cyfrifyddu'r Asiantaeth Weithredol. Awdurdodwyd y cyfrifon i'w cyhoeddi ar yr un dyddiad y cadarnhaodd Rheolwr ac Archwilydd Cyffredinol Cyfrifon.

## Perfformiad ariannol cyffredinol

Oherwydd ein ffocws parhaus ar weithredu strwythurau rheoli a darparu symlach, rydym wedi gallu cyflawni ein blaenoriaethau busnes allweddol ond hefyd wedi lleihau ein costau gweithredu o £1,229 miliwn yn 2013-14 i £1,097 miliwn yn 2014-15. Mae ein costau gweinyddol yn 2014-15 wedi gostwng o £4 miliwn o'i gymharu â'r flwyddyn cynt, a chostau rhaglen wedi gostwng o £67 miliwn o'i gymharu â 2013-14. Rydym hefyd wedi cynhyrchu mwy o incwm gyda chynnydd o £60 miliwn wedi'i gofnodi yn 2014-15.

Rhoddir mwy o wybodaeth am ein prif gategorïau cost isod.

### Costau staff a'r farnwriaeth

Aeth nifer gyfartalog y staff parhaol, cyfwerth â llawn amser i lawr am y bedwaredd flwyddyn yn olynol; roedd Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd EM yn cyflogi 17,033 o staff yn 2014-15 o'i gymharu â 19,704 yn 2011-12. Mae cyfanswm y costau staff a'r farnwriaeth wedi gostwng o £36 miliwn i £959 miliwn yn 2014-15 o'i gymharu â £995 miliwn yn 2013-14.

### Costau gweithredu

Mae costau heb fod yn arian parod i lawr o £213 miliwn i £153 miliwn, lleihad o £60 miliwn. Priodolir hyn i brisiadau uwch ar gyfer eiddo a chyfarpar o'u mesur yn defnyddio prisiau tendro am gontractau adeiladu.

Mae costau gweithredu eraill wedi cynyddu o £18 miliwn sef o £640 miliwn yn 2013-14 i £658 miliwn yn 2014-15. Mae hyn yn bennaf oherwydd cynnydd mewn costau gwasanaeth TG a chostau gwasanaethau dan gontract, o £10 miliwn am y naill a £14 miliwn am y llall. Mae'r cynnydd mewn costau gwasanaeth TG oherwydd bod Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd EM wedi setlo disgownt gwasanaeth yn 2014-15. Mae'r cynnydd mewn costau gwasanaethau dan gontract oherwydd ffioedd beilïaid uwch y gellir eu hadennill y llawn fel incwm (gweler y paragraff incwm isod).

### Incwm

Cafwyd cynnydd o £60 miliwn yn yr incwm a gofnodwyd yn 2014-15 o'i gymharu â 2013-14. Mae hyn oherwydd incwm ffioedd a ffioedd beilïaid uwch, sef £77 miliwn am y naill a £14 miliwn am y llall, wedi'i wrthbwyso gan adennill £31 miliwn yn llai o incwm gan adrannau eraill y llywodraeth. Mae'r cynnydd mewn incwm o ffioedd yn bennaf oherwydd cyflwyno diwygiadau ffioedd adennill costau a ddaeth i rym ar 22 Ebrill 2014.

### Asedau anghyfredol

Mae gwerth yr asedau anghyfredol wedi cynyddu o £199 miliwn, yn bennaf oherwydd cynnydd o £205 miliwn yng ngwerth eiddo a chyfarpar Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd EM. Mae'r cynnydd yng ngwerth ein heiddo a'n cyfarpar oherwydd cynnydd o £178 miliwn yng ngwerth ein hasedau, ynghyd ag ychwanegiadau a throsglwyddiadau o £45 miliwn wedi'u gwrthbwyso gan y taliadau dibrisio ac amhariad.

### Pensiynau

Rhoddir manylion am sut yr ymdrinnir â chostau pensiynau a rhwymedigaethau ariannol yn nodyn 1 i'r Cyfrifon, ac mae gwybodaeth bellach am bensiynau wedi'i chynnwys yn nodyn 3 i'r Cyfrifon ac yn yr Adroddiad Tâl.

### Busnes hyfyw

Bydd cyllido rhwymedigaethau'r MoJ i'r dyfodol yn cael ei gwrdd gan gyflenwadau yn y dyfodol a thrwy gymhwyso incwm yn y dyfodol, y ddau i'w cymeradwyo'n flynyddol gan y Senedd. Nid oes lle i gredu na chymeradwyir y rhain yn y dyfodol. Gweithiwn felly ar sail y dybiaeth y caiff gweithgareddau Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd EM eu hariannu mewn cyfnodau ariannol yn y dyfodol. Yn unol â hynny, tybiwyd ei bod yn briodol mabwysiadu sail busnes hyfyw wrth baratoi'r datganiadau ariannol hyn.

### Rhoddion elusennol

Cyfrannodd yr Asiantaeth £15,000 mewn rhoddion elusennol yn 2014-15 (2013-14: £15,000). Gwnaed y rhoddion hyn i sefydliadau elusennol i gefnogi gweithgareddau'n ymwneud â gweithrediadau'r Asiantaeth.

### Taliadau

Polisi Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd EM yw talu ei gyflenwyr o fewn pum diwrnod i dderbyn anfoneb ddilys yn y cyfeiriad bilio cywir.

Ar gyfer 2014-15, talwyd 89.5% o anfonebau o fewn y telerau hyn, yn erbyn targed traws-llywodraeth o 80% (2013-14: 87.4% yn erbyn targed o 80%).

### Strwythur cyfalaf

Cynrychiolir asedau net Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd EM yn llwyr gan ecwiti trethdalwyr, sy'n cynnwys y Gronfa Gyffredinol a'r Cronfeydd Ailbrisio fel y nodir yn y Datganiad o Newid mewn Ecwiti Trethdalwyr.

### Archwilwyr

Mae'r Cyfrifon, sy'n cynnwys y Datganiad o Wariant Net Cynhwysfawr, Datganiad o'r Sefyllfa Ariannol, y Datganiad o Newid mewn Ecwiti Trethdalwyr a'r Datganiad Llif Arian, yn cael eu harchwilio gan y Swyddfa Archwilio Genedlaethol ar ran y Rheolwr ac Archwilydd Cyffredinol. Tâl yr Archwilwyr am archwilio Cyfrifon Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd EM am 2014-15 oedd £0.32 miliwn (2013-14: £0.35 miliwn), a ddatgelir yn nodyn 4 i'r Cyfrifon. Ni wnaed unrhyw waith di-archwilio yn 2014-15 nac yn 2013-14.

Cyn belled ag y mae'r Swyddog Cyfrifyddu'n ymwybodol, nid oes unrhyw wybodaeth archwilio berthnasol na ŵyr yr archwilwyr amdani. Mae'r Swyddog Cyfrifyddu wedi cymryd yr holl gamau gofynnol i fod yn ymwybodol o unrhyw wybodaeth archwilio berthnasol ac i sefydlu bod yr archwilwyr yn gwybod am y wybodaeth honno.

### Prif risgiau ac elfennau o ansicrwydd

Mae Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd EM wedi wynebu sialensau a risgiau i gyflawni ei amcanion busnes a nodir y rhain yn y Datganiad Llywodraethu. Mae strategaeth rheoli risg fanwl wedi bod yn ei lle drwy gydol y flwyddyn ar gyfer pob un o'r risgiau hyn i sicrhau bod risgiau sefydliadol yn cael eu rheoli'n effeithiol.

### Datblygiadau i'r dyfodol

Ym mis Mawrth 2014, cytunodd Drysorlys EM ar fuddsoddiad newydd, ar gyfartaledd hyd at £75m pob blwyddyn dros bum mlynedd o 2015-16 ymlaen – ar yr amod y cytunir ar achos busnes trawsnewidiol yn 2015. Gyda'r buddsoddiad hwn bydd Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd EM yn gallu gweithredu rhaglen ddiwygio i sicrhau y gweinyddir ein llysoedd a'n tribiwnlysoedd yn fwy effeithiol ac effeithlon drwy ddefnyddio technoleg fodern, ystâd well a moderneiddio'r arferion gweithio presennol.

Mae'r cyllid i wneud y gwaith hwn wedi'i sicrhau o flwyddyn ariannol 2015-16 ymlaen ac mae ar ben y cyllid a ddaeth eisoes gan y Weinyddiaeth Cyfiawnder ar gyfer rhaglenni Llwyfan Cyffredin a TG y CJS ac i gefnogi'r gwaith o uwchraddio'r ystâd. Mae gwaith ar gynhyrchu strategaeth ddiwygio derfynol mewn llaw, ac rydym yn ffyddiog y gallwn gyflwyno'r achos i Drysorlys EM am y buddsoddiad llawn i foderneiddio.

Bydd y Rhaglen Ddiwygio'n rhoi seilwaith cynaliadwy a fforddiadwy ar gyfer gweinyddu cyfiawnder yn y dyfodol ac yn darparu system weinyddol sy'n perfformio'n well a mwy effeithlon ar gyfer y llysoedd a'r tribiwnlysoedd, sy'n cwrdd ag anghenion y cyhoedd a hefyd yn cynnig manteision sylweddol i'r trethdalwr a'r proffesiwn cyfreithiol.

**Digwyddiadau ar ôl y cyfnod adrodd**

Yn unol ag IAS 10 'Digwyddiadau ar ôl y Cyfnod Adrodd', ystyrir addasiadau a datgeliadau cyfrifo hyd at y pwynt pryd yr awdurdodir y Cyfrifon i'w cyhoeddi. Awdurdodwyd y Cyfrifon i'w cyhoeddi ar yr un dyddiad ag yr ardystiodd y Rheolwr a'r Archwilydd Cyffredinol y Cyfrifon. Rhoddir manylion pellach yn Nodyn 22.

**Cydraddoldeb ac amrywiaeth**

Mae Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd EM yn ymrwymedig i sicrhau yr ystyriwn anghenion amrywiol ein staff a phawb sy'n defnyddio ein gwasanaethau. Hyrwyddwn ddiwylliant lle caiff staff a defnyddwyr gwasanaeth eu trin gyda thegwch a pharch. Sicrhawn ein bod yn sensitif i anghenion pobl agored i niwed ac sydd wedi eu hallgau'n gymdeithasol.

Gweithiwn yn galed i sicrhau cydraddoldeb i staff a defnyddwyr anabl. Mae gennym bolisi addasiadau rhesymol lle rhoddir cyngor, cymorth ac arweiniad ar sut i ystyried a gwneud addasiadau rhesymol fel bod pobl anabl yn gallu defnyddio ein gwasanaethau. Mae arweiniad ar gefnogi staff anabl a gwneud addasiadau rhesymol ar gael yn Llawlyfr Gallu'r MoJ. Mae'r adran yn ddefnyddiwr awdurdodedig o'r Cynllun Dau Dic ac yn rhan o'r Cynllun Sicrhau Cyfweliad i ymgeiswyr ag anabledd.

Mae ein Cynllun Iaith Gymraeg 2013-16 yn nodi sut y mae Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd EM yn gweithredu ar sail yr egwyddor, wrth gyflawni busnes cyhoeddus a gweinyddu cyfiawnder yng Nghymru, y bydd yn trin yr ieithoedd Cymraeg a Saesneg yn gyfartal. Noda'n cynllun sut yr ydym yn ymateb i gyd-destun sy'n dal i newid yng Nghymru o ran ein gwasanaethau iaith Gymraeg a'r ddarpariaeth ar draws y system gyfiawnder ehangach. Wrth weithredu'r cynllun yn ystod y flwyddyn adrodd, gwelsom ein Huned Iaith Gymraeg yn delio â llwyth gwaith cyfieithu mwy o hyd, gan ehangu ei sylfaen gwsmeriaid ymhellach. Mae gwasanaeth ein Llinell Gymorth Iaith Gymraeg hefyd wedi ehangu gan chwarae rôl bwysig mewn gwella'r gwasanaeth i gwsmeriaid a lleihau cwynion cysylltiedig â'r iaith Gymraeg.

Fel rhan o deulu'r MoJ rydym wedi penodi Pencampwyr Amrywiaeth sy'n darparu gweledigaeth ac arweinyddiaeth i ganolbwyntio ar ein strategaeth amrywiaeth a chydraddoldeb. Maen nhw'n gweithio mewn partneriaeth â rhwydweithiau staff i hyrwyddo a chodi ymwybyddiaeth a dealltwriaeth o amrywiaeth, cydraddoldeb a chynhwysiant ar draws y sefydliad. Cofleidiwn yn llwyddiannus raglen Amser i Newid yr elusennau iechyd meddwl ac anogwn ein staff i ddod yn Gyfeillion Dementia.

Mae'r staff i gyd yn derbyn arweiniad a hyfforddiant i sicrhau eu bod yn deall sut i gwrdd â gofynion cyfreithiol Deddf Cydraddoldeb 2010 yn eu gwaith beunyddiol ym mhob maes o'n busnes.

O dan y ddyletswydd gydraddoldeb gyffredinol a gyflwynwyd gan Ddeddf Cydraddoldeb 2010, rhaid i gyrff cyhoeddus ystyried anghenion pawb wrth ddatblygu polisi a darparu gwasanaeth, yng nghyswllt eu gweithwyr a'u defnyddwyr. Dangoswn ein bod yn rhoi'r sylw dyledus angenrheidiol i'r ddyletswydd hon drwy asesu effaith polisi a phrosiectau newid mawr ar gydraddoldeb, ar ddechrau ac yn ystod eu datblygu. Mae hyn yn sicrhau y cymerir y camau iawn gan y bobl iawn ar yr adeg iawn.

Ar 31 Mawrth 2015, roedd y dadansoddiad o'r gweithwyr yn ôl rhyw fel a ganlyn:

| | Dynion | Merched | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| Aelodau Bwrdd gweithredol ac anweithredol | 6 (66.6%) | 3 (33.3%) | 9 |
| Uwch Reolwyr (Uwch Weision Sifil) | 17 (59%) | 12 (41%) | 29 |
| Gweithwyr Eraill | 5,160 (29%) | 12,906 (71%) | 18,066 |
| **Cyfanswm** | **5,183 (29%)** | **12,921 (71%)** | **18,104** |

Cyfarwyddwyr: Aelodau Bwrdd (gan gynnwys aelodau Bwrdd anweithredol)

Uwch Reolwyr: SCS (Aelodau heb fod ar y Bwrdd)
Gweithwyr Eraill: Band A ac is.

Ar 31 Mawrth 2015, roedd y dadansoddiad o'r staff yn ôl tarddiad ethnig fel a ganlyn:

| Gradd newydd y llywodraeth | Tarddiad Ethnig | | |
|---|---|---|---|
| | Grwpiau Du a Lleiafrifol Ethnig | Gwyn | Heb ddatgan |
| SCS | 3% | 84% | 13% |
| Band A | 5% | 80% | 15% |
| Band B | 13% | 72% | 15% |
| Band C | 12% | 75% | 13% |
| Band D | 13% | 70% | 17% |
| Band E | 16% | 62% | 22% |
| Band F | 10% | 64% | 26% |
| Staff llwybr cyflym | 0% | 0% | 100% |
| **Prif gyfanswm** | **14%** | **66%** | **20%** |

Ar 31 Mawrth 2015, roedd y dadansoddiad o'r staff oedd wedi datgan anabledd fel a ganlyn:

| Gradd newydd y llywodraeth | Anabledd | | |
|---|---|---|---|
| | Oes | Nag oes | Heb ddatgan |
| SCS | 0% | 87% | 13% |
| Band A | 2% | 76% | 22% |
| Band B | 3% | 80% | 17% |
| Band C | 3% | 79% | 18% |
| Band D | 3% | 76% | 21% |
| Band E | 4% | 73% | 23% |
| Band F | 5% | 71% | 24% |
| Staff llwybr cyflym | 0% | 0% | 100% |
| **Prif gyfanswm** | **4%** | **74%** | **22%** |

Ar 31 Mawrth 2015, roedd y dadansoddiad o'r staff yn ôl grŵp oed fel a ganlyn:

| Band oed | Cyfanswm cyfrif pennau | Uwch Weision Sifil yn unig |
|---|---|---|
| Rhwng 16 a 19 oed | 0% | 0% |
| Rhwng 20 a 24 oed | 2% | 0% |
| Rhwng 25 a 29 oed | 8% | 0% |
| Rhwng 30 a 34 oed | 11% | 7% |
| Rhwng 35 a 39 oed | 10% | 14% |
| Rhwng 40 a 44 oed | 12% | 21% |
| Rhwng 45 a 49 oed | 15% | 25% |
| Rhwng 50 a 54 oed | 16% | 18% |
| Rhwng 55 a 59 oed | 13% | 11% |
| Rhwng 60 a 64 oed | 8% | 4% |
| Rhwng 65 a 69 oed | 3% | 0% |
| 70+ oed | 1% | 0% |
| **Prif gyfanswm** | **100%** | **100%** |

# Adroddiad cynaliadwyedd

**Rhagarweiniad**

Dyma'r pedwerydd Adroddiad Cynaliadwyedd a baratowyd gan Wasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd EM yn unol â chanllawiau 2014-15 gan Drysorlys EM yn 'Adroddiadau Blynyddol y Sector Cyhoeddus: Adroddiadau Cynaliadwyedd' a gyhoeddwyd yn:

http://www.gov.uk/government/publications/government-financial-reporting-manual/

Mae'r adroddiad hwn yn cyd-fynd â'r sgôp a'r manylion yn Ymrwymiadau Gwyrddio'r Llywodraeth (GGC). GGC yw'r prif sbardun i Ddatblygu Cynaliadwyedd ar draws y llywodraeth ac mae'n cynnwys cyfres o dargedau gwella yn erbyn meysydd fel carbon o ynni, gwastraff, dŵr a bioamrywiaeth.

Mae ffocws cynaliadwyedd y MoJ ar gyflawni'r targedau hyn, lleihau'r effaith ar yr amgylchedd a lleihau costau. Mae blaenoriaethau'n cynnwys lleihau allyriadau carbon, defnyddio dŵr a gwastraff i'w dirlenwi. Mae manylion pellach am GGC yn:

https://www.gov.uk/government/policies/making-sustainable-development-a-part-of-all-government-policy-and-operations

**Sgôp, eithriadau ac amcangyfrifon**

Mae'r adroddiad hwn yn ymwneud â 480 o adeiladau. Ni chyfrifir am adeiladau rhannu meddiannaeth oherwydd yr anhawster o gasglu data cynaliadwyedd dibynadwy o ddata taliadau gwasanaeth. Roedd 80 o adeiladau rhannu meddiannaeth yn 2014-15. Oherwydd eu bod yn gymedrol o ran maint ac oherwydd yr adroddir ar adeiladau rhannu meddiannaeth gan y prif ddeilydd, nid oes fawr o fantais mewn casglu eu data cynaliadwyedd. Mae hyn yn gyson ag arferion llywodraeth yn ehangach, a chydag adroddiad y llynedd. Ni chredwn fod eithrio'r rhain yn cael unrhyw effaith sylweddol ar adrodd ar gynaliadwyedd yn gyffredinol. Ac eithrio 'Gwariant ar deithio busnes swyddogol', lle oedd canlyniadau blwyddyn lawn ar gael, amcangyfrif yw tri mis o'r canlyniadau hyn, ar sail perfformiad pedwerydd chwarter 2013-14, oherwydd nad oedd y data perfformiad gwirioneddol gennym ar y dyddiad adrodd.

**Ymrwymiadau'r Cynllun Busnes a'r Strategaeth Datblygu Cynaliadwyedd Gyffredinol**

Nodir ymrwymiadau cynaliadwyedd Cynllun Busnes y MoJ am 2012-15 yn yr atodiad i'r Cynllun Busnes ac maent fel a ganlyn:

i) Asesu a rheoli effeithiau a chyfleoedd amgylcheddol, cymdeithasol ac economaidd wrth ddatblygu polisi a gwneud penderfyniadau. Mae'r MoJ yn dangos ymrwymiad i wreiddio egwyddorion Datblygu Cynaliadwyedd o fewn ei arferion gweithio beunyddiol ac ar draws ei holl adrannau. I wneud hyn yn effeithiol mae'r MoJ yn cynnal cyfarfodydd Bwrdd Cynaliadwyedd misol, wedi'u cadeirio gan Bencampwr Cynaliadwyedd ar lefel Bwrdd, i lywio a chytuno ar raglenni gwaith ac i wella arferion gweithio ar draws y gwahanol ddisgyblaethau ym mhob adran.

ii) Gweithredu cynllun yr adran i gyflawni'r GGC, cyflenwi gwybodaeth chwarterol a chyfrannu at adroddiad blynyddol ar gynnydd. Lansiwyd y GGC ar 1 Ebrill 2011 yn gofyn bod adrannau'r llywodraeth yn gweithredu i leihau eu heffaith ar yr amgylchedd yn sylweddol erbyn 2014-15 (o'i gymharu â data sylfaenol 2009-10). Mae amcanion y GGC yn flaenoriaeth allweddol gan Gyfarwyddiaeth Ystâdau'r MoJ a chânt eu rheoli, adolygu a'u monitro gan SDT y MoJ.

iii) Caffael cynaliadwy: Caffael gan fusnesau bach, gyda'r nod bod 25% o gontractau'n cael eu dyfarnu i Fusnesau Bach a Chanolig (BBaCh).

Mae ein Strategaeth Datblygu Cynaliadwy Gyffredinol yn cynnwys yr elfennau canlynol.

**Addasu i'r Newid yn yr Hinsawdd:** Mae'r SDT yn parhau i reoli ac adolygu ei gronfa ddata o adeiladau risg uchel, sy'n tynnu sylw at adeiladau a safleoedd sy'n fwy agored i gael eu heffeithio gan newidiadau yn yr hinsawdd fel cynnydd mewn tymheredd, lefel y môr yn codi, llifogydd, ac amodau hinsawdd andwyol eraill. Drwy wneud hyn mae'r MoJ yn gallu gwerthuso'r risg i raglenni ar orlifdiroedd sy'n agored i gael eu llifo, blaenoriaethu ei reolaeth o safleoedd risg uchel a sefydlu proses strategol fel bod y MoJ yn gallu cyflwyno mesurau i addasu i'r newid yn yr hinsawdd yn y dyfodol.

**Ymwybyddiaeth gymdeithasol ac amgylcheddol:** Drwy'r tîm Datblygu Cynaliadwyedd, mae'r MoJ yn annog partneriaethau allanol drwy Femoranda Dealltwriaeth, er mwyn hyrwyddo dysgu a

hyfforddiant sgiliau ym mhob ffrwd waith Datblygu Cynaliadwyedd a thrwy hynny'n hyrwyddo cyfiawnder adferol, lleihau aildroseddu a chefnogi Strategaeth Gynaliadwyedd y llywodraeth.

**Adeiladu cynaliadwy:** Mae'n ofynnol i bob adeilad a godir o'r newydd neu sy'n cael ei ailwampio'n sylweddol dderbyn asesiad Dull Asesu Amgylcheddol y Sefydliad Ymchwil Adeiladau (BREEAM) i safon 'dda iawn' ar gyfer gwaith ailwampio a 'rhagorol' ar gyfer adeiladau newydd. Mae'r Adran hefyd yn ymrwymedig i leihau gwastraff adeiladu a anfonir i'w dirlenwi ac yn sicrhau bod gan bob prosiect adeilad newydd neu ailwampio sylweddol gymalau'n gofyn am fanylion am ffrydiau gwastraff. Yn 2014-15 cafodd dri adeilad newydd eu cwblhau neu eu cofrestru fel 'rhagorol'.

**Prawfesur polisïau gwledig:** Fel rhan o resymoli parhaus ar ystâd y MoJ, mae contractau rheoli ystâd newydd yn nodi lle mae effeithiau bugeiliol, cefn gwlad a thrafnidiaeth leol yn bwysig i brawfesur polisïau gwledig. Mae cynlluniau trafnidiaeth wedi bod yn agwedd bwysig ar ein strategaeth amgylcheddol, drwy ofynion cynllunio lleol ar gyfer adeiladau newydd. Mae creu llwybrau trafnidiaeth gyhoeddus a negodi amserlenni trafnidiaeth yn un agwedd ar sut y gall cynlluniau cymdeithasol a chymunedol ac ôl-troed carbon fod yn effeithiol wrth brawfesur polisïau gwledig ar draws ystâd y MoJ.

Mae penderfynu lle i leoli adeiladau newydd yn heriol i'r ystâd garchardai a'r ystâd ddi-garchardai fel ei gilydd, p'un ai yng nghyswllt datganiadau polisi cynllunio lleol neu ofynion natur a threftadaeth; a gallai'r rhain i gyd effeithio ar ddiwydiannau twristiaeth a hamdden lleol.

Asesir pob agwedd, gan gynnwys natur, archaeolegol, twristiaeth, hamdden ac arallgyfeirio gwledig, yng nghamau cyntaf y broses gynllunio a dylunio, ar gyfer pob adeilad newydd ar draws ystâd y MoJ fel rhan o'n polisi prawfesur gwledig.

**Cynllun gweithredu bioamrywiaeth**

Mae'r MoJ yn parhau i gefnogi targedau tryloywder y llywodraeth ar gyfer bioamrywiaeth, a hefyd yn gweithio tuag at ganlyniadau Bioamrywiaeth 2020 y DU drwy reoli Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd EM ar raddfa tirwedd gyda rhywogaethau blaenoriaeth mewn golwg; a hefyd yn ymgorffori cynlluniau gweithredu cymunedol a phartneriaeth arweiniol, sy'n ceisio atal colli a'r dirywiad mewn cynefinoedd a rhywogaethau blaenoriaeth.

Mae'r MoJ yn parhau â'i rhaglen o weithredu Cynlluniau Gweithredu Bioamrywiaeth(BAP) lleol ac, i gefnogi hyn, mae wedi drafftio strategaeth a pholisi bioamrywiaeth ar draws ystâd gyfan y MoJ, gan roi sylw penodol i safleoedd dynodedig sensitif fel Llys y Goron Snaresbrook sy'n gorwedd o fewn Safle o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig (SoDdGA) Epping Forest.

Mae Tîm Ecoleg Cynaliadwyedd y MoJ wedi llofnodi a chytuno i Femoranda Dealltwriaeth â'i bartneriaid ar brosiectau rhywogaethau a chynefinoedd cenedlaethol sydd hefyd yn cefnogi canlyniadau Bioamrywiaeth 2020 y DU. Wrth i'r MoJ barhau gyda'i rhaglen BAP leol, mae'r system archwilio BAP fewnol yn herio targedau a gweithredu ac yn ceisio cynnal safon gytunedig gan y diwydiant ym mhob un o'i safleoedd dynodedig.

Wrth i'r MoJ wreiddio'r rhaglenni amgylcheddol pwysig hyn ar draws ystâd Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd EM; yn integredig, bydd gwasanaethau ecosystem yn cael eu cefnogi a'u cynnal a bydd prawfesur gwledig a chymunedol yn cael ei reoli fel rhan annatod o hyn.

**Perfformiad 2014-15**

| Allyriadau nwyon tŷ gwydr | | 2014-15 | 2013-14 | 2012-13 | 2011-12 | 2010-11 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Dangosyddion ân -ariannol (tCO2e) | Sgôp 1 (Uniongyrchol) Allyriadau o safleoedd a thrafnidiaeth eu hunain. | 32,938 | 34,797 | 41,151 | 30,336 | 36,528 |
| | Sgôp 2 (Anuniongyrchol) Ynni a gyflenwir (trydan a gwres) | 65,954 | 59,393 | 60,779 | 60,274 | 66,373 |
| | Sgôp 3 (Anuniongyrchol arall) Teithio ar fusnes a cholledion trawsyrru o ynni a gyflenwir. | 8,558 | 8,430 | 8,131 | 5,152 | 5,554 |
| | **Cyfanswm allyriadau GHG gros** | 107,450 | 102,620 | 110,061 | 95,762 | 108,455 |
| | Trydan: gwyrdd / adnewyddadwy | 16,330 | 14,698 | 15,002 | 15,060 | 16,086 |
| | **Cyfanswm allyriadau GHG net** | 91,120 | 87,923 | 95,059 | 80,702 | 92,369 |
| **An-ariannol (MWh)** | Trydan: Grid, CHP a di-adnewyddadwy | 99,124 | 98,984 | 101,032 | 101,421 | 110,649 |
| | Trydan: Adnewyddadwy | 33,039 | 32,993 | 33,675 | 33,805 | 36,110 |
| | Nwy | 169,388 | 173,686 | 200,730 | 162,768 | 193,177 |
| | Ffynonellau ynni eraill | 4,507 | 5,395 | 6,471 | 1,614 | 8,248 |
| | Cyfanswm ynni | 306,058 | 311,058 | 341,907 | 299,608 | 348,185 |
| **Dangosyddion ariannol** | **Gwariant ar ynni (gan gynnwys CRC) (m)** | £23.62 | £26.15 | £23.76 | £22.16 | £18.61 |
| | **Gwariant ar deithio busnes swyddogol (gan gynnwys GCOF) (m)** | £7.79 | £12.74 | £12.50 | £11.09 | £8.01 |

Y targed nwyon tŷ gwydr yw lleihau allyriadau o 25% o ffigur cychwynnol o 102,722 tCO2e yn 2009-10. Dengys y ffigurau uchod leihad o 11.3% dros y cyfnod hwn yn erbyn y ffigur cychwynnol. Mae allyriadau wedi cynyddu ychydig o'i gymharu â 2013-14 pan welsom leihad o 14.4% yn erbyn ffigur cychwynnol 2009-10. Mae'r defnydd o drydan wedi cynyddu fymryn o'i gymharu â'r flwyddyn flaenorol ond yn parhau gyda lleihad o 17.3% yn y defnydd o drydan yn erbyn ffigur cychwynnol 2009-10 o 119,860 MWh. Dengys y defnydd o nwy leihad o 12% yn erbyn ffigur cychwynnol 2009-10 o 192,293 MWh, a lleihad o 2.5% ar y flwyddyn flaenorol. Cafodd 358 o brosiectau i leihau allyriadau eu gweithredu yn 2014-15 ond bydd llawer ohonynt wedi eu cwblhau erbyn diwedd y cyfnod adrodd. Ni fyddwn yn gweld y manteision felly tan 2015-16. Mae cyflwyno'r system deithio traws-llywodraeth yn parhau i wella ansawdd y data teithio gan gynnwys costau. Perfformiad normal yn erbyn staff cyfwerth ag amser llawn (FTE): 2009-10: 21,116 staff FTE a 102,722 (tCO2e) = 4.86 tCO2e y gweithiwr. 2014-15: 15,864 staff FTE a 91,120 (tCO2e) = 5.74 tCO2e y gweithiwr.

Mae arbedion cost a charbon yn flaenoriaeth gan Wasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd EM. Mae targedau datblygu cynaliadwy a lleihau ynni'n orfodol ar lefel safle, rhanbarth a chorfforaethol. Mae prosiectau sy'n cynnwys rhesymoli'r ystâd, optimeiddio foltedd a bwyleri, uwchraddio goleuadau ac ymgyrchoedd ymwybyddiaeth yn parhau i greu arbedion.

| Math o wastraff (tunelli) | | | 2014-15 | 2013-14 | 2012-13 | 2011-12 | 2010-11 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Dangosyddion anariannol (tunelli) | Gwastraff nad yw'n beryglus | Gwastraff tirlenwi | 2,517 | 3,045 | 3,334 | 20,116 | 20,763 |
| | | I'w adennill (AD a chompostio) | 154 | 9 | 0 | 0 | 0 |
| | | I'w losgi | 5 | 5 | 60 | 0 | 0 |
| | | Gwastraff i'w ailddefnyddio / ailgylchu | 5,913 | 5,613 | 4,979 | 3,564 | 7,396 |
| | | Ynni o wastraff | 963 | 1,388 | 1,136 | 0 | 0 |
| | **Cyfanswm y gwastraff** | | **9,552** | **10,060** | **9,509** | **23,680** | **28,159** |
| Dangosyddion ariannol | **Cyfanswm y costau (£000)** | | **2,645** | **2,090** | **2,332** | **1,806** | **1,787** |

Bydd targed Ymrwymiadau Gwyrddio Llywodraeth y Llywodraeth ar gyfer rheoli gwastraff yn cyflawni lleihad o 25% mewn faint o wastraff a gynhyrchir mewn cymhariaeth â'r ffigur cychwynnol o 30,458 tunnell yn 2009-10, erbyn 2015. Cyfanswm y gwastraff a gynhyrchwyd yn 2014-15 oedd 9,552, sy'n lleihad o 69% ar y ffigur cychwynnol. Ar draws ystâd Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd EM, mae'r perfformiad ar reoli gwastraff yn cael ei sbarduno i gyrraedd y targed hwn a chynlluniau fel gosod gorsafoedd ailgylchu ym mhob safle a chyflwyno ailgylchu gwastraff bwyd yn Llundain, De-Ddwyrain a De-Orllewin Lloegr. Yn 2014-15 cafodd 74% o'r holl wastraff a gynhyrchwyd ei droi ymaith o gael ei dirlenwi at opsiynau eraill fel ailgylchu, compostio ac ynni o wastraff. Mae hyn yn welliant clir mewn perfformiad o'i gymharu â 2009-10 pan oedd ond 24% o'r holl wastraff yn cael ei droi ymaith o dirlenwi. Dylid nodi bod y data uchod yn eithrio 16 o safleoedd Menter Cyllid Preifat (PFI).

Cesglir data manwl ar reoli gwastraff yn uniongyrchol gan gontractwyr Rheoli Cyfleusterau (FM). I gyfrif am fylchau yn yr adrodd, mae tunelli a chostau deunyddiau wedi eu codi.

Mae Tîm Caffael y MoJ yn ymgysylltu â chyflenwyr ar Safonau Prynu'r Llywodraeth (GBS) ar effeithlonrwydd, cynaliadwyedd a lleihau costau. Anogir staff Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd EM i leihau gwastraff drwy gyhoeddiadau mewnol fel 'Sustainability Matters', mentrau i newid ymddygiad ac ymgyrchoedd fel 'Climate Week'.

| Dŵr | | 2014-15 | 2013-14 | 2012-13 | 2011-12 | 2010-11 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Dangosyddion anariannol | Cyfanswm y defnydd o ddŵr (metrau ciwbig-$^{m3}$) | 734,613 | 805,947 | 877,924 | 655,560 | 655,534 |
| Dangosyddion ariannol | Cyfanswm cost y cyflenwad dŵr (m) | £2.24 | £2.34 | £2.36 | £1.97 | £2.24 |


Mae targedau Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd EM wedi'u harwain gan Ymrwymiadau Gwyrddio Llywodraeth y Llywodraeth sy'n gofyn i ni ddefnyddio llai o ddŵr rhwng ffigur cychwynnol 2009-10 a 2014-15. Ni chedwir yr holl ddata ar ddefnyddio dŵr yn ganolog er bod Rheoli Cyfleusterau (TFM) yn parhau i ymgysylltu â chwmnïau dŵr i wella ansawdd y data ac i wella'r maes adrodd hwn ymhellach.

Mae arbedion cost a dŵr yn parhau i fod yn flaenoriaeth gan Wasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd EM. Mae cyfyngiadau o ran ansawdd y data sy'n cael ei adrodd ac felly amcan yw'r defnydd a wneir o ddŵr sy'n seiliedig ar safleoedd lle gwyddom y ffigurau cost a defnydd blynyddol; caiff y ffigurau eu hymgodi yn erbyn manylion cost a gymerir o'r gofrestr brynu. Mae'r ffigurau cost yn cynnwys y dŵr a ddefnyddiwyd a dŵr gwastraff. Mae'r strategaeth ddŵr yn troi o gwmpas monitro a thargedu, darllen mesuryddion yn awtomatig, ymgyrchoedd ymwybyddiaeth, gosod dyfeisiau rheoledig, codi dŵr o dyllau turio, cynaeafu dŵr glaw ar gyfer garddio a rhosynnau cawod awyrog lle bo'n berthnasol.

Mae Caffael y MoJ yn ymgysylltu â chyflenwyr i wella monitro ac adrodd, a chyda'r GBS yng nghyswllt effeithlonrwydd, cynaliadwyedd a lleihau costau. Bydd systemau adrodd dŵr yn cael eu huwchraddio i wella ein monitro'n unol â thargedau a osodwyd gan lywodraeth.

| Papur | 2014-15 | 2013-14 | 2012-13 | 2011-12 | 2010-11 |
|---|---|---|---|---|---|
| Cost (£m) ac eithrio TAW | £1.08 | £1.58 | £1.71 | £1.20 | £0.00 |

Dechreuodd Wasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd EM ddefnyddio contract Cyflenwadau Swyddfa traws-Llywodraeth gorfodol ym mis Hydref 2011. O dan delerau'r contract, dosbarthir data ar Wybodaeth Reoli (MI) gan Wasanaeth Caffael y Llywodraeth. Dengys y ffigwr isod leihad o 31.2% mewn costau o'i gymharu â 2013-14, sydd i'w briodoli'n rhannol i resymoli'r ystâd ac ymgyrchoedd ymwybyddiaeth.



**Natalie Ceeney CBE**
**Prif Weithredwr a Swyddog Cyfrifyddu**
8 Mehefin 2015

# 4. Adroddiad y Swyddog Cyfrifyddu

## Ein staff

Mae ein staff wrth galon ein llwyddiant. Gwyddom fod y bobl sy’n defnyddio'r llysoedd a'r tribiwnlysoedd yn ennill argraff o’n gwasanaeth yn ôl sut y mae staff yn eu trin. Gwyddom mai ein staff sy’n aml yn gwneud y gwahaniaeth i brofiad tyst neu ddioddefwr. Mae ein system yn dibynnu bob dydd ar staff sy’n mynd y filltir ychwanegol i ddatrys problemau, delio â materion hynod sensitif a chadw’r gwasanaeth i redeg yn dda’n gyffredinol.

Gwyddom hefyd y byddwn yn newid yn sylweddol dros y blynyddoedd nesaf. Bydd awtomeiddio llawer o’n prosesau a digideiddio ein systemau’n golygu y bydd angen gweithlu llai arnom yn y dyfodol. Wrth i dechnoleg ddigidol ganiatáu i ni weithio drwy fideo ac ar-lein, mae’n debyg y bydd angen llawer llai o adeiladau arnom ac felly llai o staff. Bydd rheoli’r newid a chadw gweithlu ymroddedig sy’n perfformio’n dda yn her, ond mae’n hanfodol ein bod yn gwneud hyn.

Nid yw newid yn cychwyn yn y dyfodol. Cychwynnodd eisoes eleni, gyda newid i lawer o’n prosesau, fel bod angen i staff ar draws Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd EM addasu cryn dipyn. Yn gadarnhaol, dangosodd ein harolwg ymgysylltu staff blynyddol (Hydref 2014) gynnydd o 1% yn ein sgôr mynegai ymgysylltu cyffredinol i 53%. Er ein bod yn cydnabod bod lle i wella, rydym yn falch bod y lefelau ymgysylltu wedi codi, ac nid wedi gostwng, dros y cyfnod hwn.

Dros y flwyddyn rydym wedi parhau i ganolbwyntio ar greu diwylliant o berfformio’n dda, gan wreiddio’r system rheoli perfformiad newydd ar draws y gwasanaeth sifil. Mae hyn yn rhoi ffocws ar ganlyniadau ac ymddygiad ac yn rhoi’r sgiliau a’r adnoddau i reolwyr i herio perfformiad gwael yn effeithiol.

Rydym hefyd wedi parhau i wreiddio rheoli talent a chynllunio olyniaeth ar draws y busnes, gan roi’r adnoddau a’r cyfle i unigolion talentog ac uchelgeisiol ddod yn eu blaenau a chael eu hadnabod a’u harfogi i gyrraedd swyddi uwch reolwyr. Rhedodd ein ‘Cynllun Arweinwyr y Dyfodol’ am y drydedd flwyddyn a gwelsom gyfranogwyr yn cymryd rhan mewn amrywiaeth o brosiectau sy’n cyfuno creadigrwydd a gwybodaeth fusnes er mwyn gwella ein gwasanaeth yn barhaus.

Yn Ebrill 2014 fe wnaethom ddatblygu a lansio strategaeth a chynllun gallu gynhwysfawr ynghyd â nifer o gamau gweithredu ac adnoddau cymeradwy, fel pecyn dysgu Craffter Busnes i godi ymwybyddiaeth fasnachol. Mae hyn i sicrhau y defnyddiwn ein hadnoddau’n effeithiol ac y cynigiwn gynhyrchion dysgu sy’n cwrdd ag amcanion sefydliadol. Dangosodd adolygiad o lefelau sgiliau yn Hydref 2014, ac arolwg pỳls o’r staff, fod sgiliau wedi gwella yn erbyn yr holl feysydd gallu blaenoriaeth.

Yn unol â’r strategaeth hon, fe wnaethom ddatblygu a hyrwyddo cyfres o gymwysterau, llawer ohonynt ar y cyd â Phroffesiwn Darparu Gweithredol y gwasanaeth sifil, sy’n cael eu cydnabod yn allanol ac sy’n drosglwyddadwy ar draws y gwasanaeth sifil. Mae’r rhain yn cynnwys cymwysterau busnes penodol sy’n canolbwyntio ar sgiliau busnes gweithredol a gwasanaeth cwsmer da. Ar hyn o bryd mae 1,057 o staff yn cyflawni un o'r cymwysterau hyn a chymrodd 705 ran mewn rhaglen ddatblygu yn 2014-15.

Mae’r holl ddysgu sgiliau busnes wyneb yn wyneb yn cael ei ddarparu drwy rwydwaith o 1,078 o Hyfforddwyr a Thiwtoriaid Sgiliau Busnes achrededig. Mae dros 2,500 diwrnod o ddysgu sgiliau busnes wedi cael eu darparu gan yr adnodd hwn yn 2014-15. Mae trosi dysgu a chynhyrchion sgiliau busnes yn e-ddysgu, lle bo hynny’n briodol, wedi parhau drwy 2014-15 gyda 40% o’n dysgu sgiliau busnes bellach ar gael yn electronig. Manteisiodd staff ar dros 6,000 o gyfleoedd dysgu a hyfforddiant yn 2014-15.

Mae’r gwaith hefyd wedi parhau ar gefnogi a galluogi rheolwyr i ddelio ag absenoldeb salwch a lles staff. Ar ôl lleihau am ddwy flynedd, mae'r nifer gyfartalog o ddiwrnodau gwaith a gollir wedi

gwastatáu yn ail hanner y flwyddyn, sef 8.7 diwrnod y person (gan gynnwys staff yn gadael): lleihad o 9.21 diwrnod ar ddiwedd 2012-13. Rydym yn dal i deimlo, fodd bynnag, bod y lefelau hyn yn rhy uchel ac yn ystyried sut orau i leihau'r lefelau absenoldeb hyn ymhellach.

Wrth i ni edrych i'r dyfodol, drwy gefnogi rhaglenni newid busnes lleol a chenedlaethol a chynllunio gweithlu cryf, gwelsom leihad o 800 yn nifer y swyddi cyfwerth â llawn amser yn y flwyddyn ariannol. Rydym wedi rhagori ar arbedion yr Adolygiad o Wariant a osodwyd yn 2010 drwy gynllunio adnoddau'n drylwyr yng ngoleuni cyfyngiadau ar gyllideb a newidiadau llwyth gwaith. Felly, llwyddwyd i gyflawni'r lleihad o 3,744 o swyddi cyfwerth ag amser llawn yng nghyfnod Adolygiad o Wariant 2010-15 ac i leihau'r bil cyflogau blynyddol o £131 miliwn ym Mawrth 2015.

Mae gwybodaeth am gydraddoldeb ac amrywiaeth ar dudalen 24.

## Strwythur uwch reoli

Pan grëwyd Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd EM yn 2011, crëwyd strwythur uwch reoli'n canolbwyntio ar gwrdd â sialensau'r cyfnod 2011-2015 - gyda ffocws arbennig ar uno'r gwasanaeth tribiwnlysoedd a'r gwasanaeth llysoedd yn un corff. Mae'r strwythur rheoli hwn wedi gwasanaethu'r sefydliad yn dda hyd yma. Fodd bynnag, mae'r sialensau i ddod yn wahanol.

Ar ôl ymuno â Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd EM yn Ionawr, dechreuais adolygu'r strwythur uwch reoli i sicrhau ei fod yn barod am yr her i ddod – un gyda ffocws cryfach ar ddatblygu a newid gwasanaeth, ar fod yn gwsmer-ganolog, ac ar gael model llysoedd a thribiwnlysoedd cydgysylltiedig - o ystyried y llwyddiant gyda chyfuno'r awdurdodaethau.

Cyhoeddwyd y strwythur uwch reoli newydd ym mis Mawrth 2015. O'r 1 Ebrill 2015 ymlaen, roedd y strwythur ar ganol proses o bontio gyda rhai aelodau o'r tîm yn symud i rolau newydd a phobl eraill yn ymuno â'r sefydliad. Y strwythur uwch reoli ar gyfer Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd EM yn y dyfodol fydd:

Cyfarwyddwr Datblygu Gwasanaethau (yn cyfuno'r awdurdodaethau troseddu a sifil, teulu a thribiwnlysoedd) – swydd a lenwyd gan Kevin Sadler o'r 30 Mawrth ymlaen.

Cyfarwyddwr Gweithredol (rôl newydd i oruchwylio'r holl ddarpariaeth weithredol) – swydd a lenwyd gan Guy Tompkins o ganol Ebrill ymlaen.


Cyfarwyddwr Rhaglen – Trawsnewid (i arwain ein rhaglen ddiwygio) – swydd a lenwyd gan Julie Nerney o'r 30 Mawrth ymlaen.

Cyfarwyddwr Newid Digidol (i arwain y gwaith o ddatblygu ein seilwaith digidol yn y dyfodol) - Kevin Gallagher fydd yn ymuno ym mis Mehefin.

Cyfarwyddwr Cyllid – swydd i'w llenwi gan Lynne Hamilton o'r 13 Ebrill ymlaen.

Cyfarwyddwr Adnoddau Dynol – yn cael ei recriwtio'n allanol ar hyn o bryd.

Cyfarwyddwr Ymgysylltu Cwsmeriaid – yn cael ei recriwtio'n allanol ar hyn o bryd.



**Natalie Ceeney CBE**
**Prif Weithredwr a Swyddog Cyfrifyddu**
8 Mehefin 2015

# 5. Adroddiad taliadau cydnabyddiaeth

Mae'r tablau yn yr adroddiad taliadau hwn wedi cael eu harchwilio a chyfeirir atynt yn Nhystysgrif ac Adroddiad Rheolwr ac Archwilydd Cyffredinol Tŷ'r Cyffredin.

## Adroddiad taliadau aelodau'r Bwrdd

Paratowyd yr Adroddiad Taliadau Cydnabyddiaeth yn unol â gofynion Llawlyfr Adroddiadau Ariannol y Llywodraeth (FReM) a gyhoeddir gan Drysorlys EM.

Y Prif Weinidog sy'n gosod allan y polisi taliadau ar gyfer uwch weision sifil ar ôl derbyn cyngor annibynnol gan y Corff Adolygu Cyflogau Uwch. Pennwyd cyflogau aelodau Bwrdd Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd EM yn dilyn trafodaethau rhwng Ysgrifennydd Parhaol y MoJ a'i Chyfarwyddwyr Cyffredinol yn unol â rheolau Cod Rheoli'r Gwasanaeth Sifil.

Nid oes gan Wasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd EM Bwyllgor Taliadau Cydnabyddiaeth. Ymdrinnir â phrif swyddogaethau'r Pwyllgor hwn drwy Bwyllgor Gweithlu'r MoJ.

Mae'r rhannau isod yn rhoi manylion am daliadau a phensiynau aelodau Bwrdd Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd EM a wasanaethodd yn 2014-15.

**Tabl 1 – Taliadau cydnabyddiaeth i aelodau Bwrdd Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd EM rhwng 1 Ebrill 2014 a'r 31 Mawrth 2015**

| | 2014-15 | | | | | 2013-14 | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | Cyfanswm cyflogau a ffioedd | Yr holl fuddion trethadwy (i'r £100 agosaf) | Bonysau a dalwyd | Buddion pensiwn (i'r £1000 agosaf) | Cyfanswm | Cyfanswm cyflogau a ffioedd | Yr holl fuddion trethadwy (i'r £100 agosaf) | Bonysau a dalwyd | Buddion pensiwn (i'r £1000 agosaf) | Cyfanswm |
| | £000 | £000 | £000 | £000 | £000 | £000 | £000 | £000 | £000 | £000 |
| Robert Ayling, Cadeirydd Annibynnol | 15 – 20 | Nil | Nil | Nil | 15 – 20 | 15 – 20 | Nil | Nil | Nil | 15 – 20 |
| Peter Handcock, Prif Weithredwr (ymddeol 31 Rhagfyr 2014) | 115 – 120 (145 – 150 FYE)[5] | 1.2 | Nil | N/A[4] | 115 – 120 | 145 – 150 | 1.8 | Nil | N/A4 | 145 – 150 |
| Natalie Ceeney, Prif Weithredwr (penodwyd 5 Ionawr 2015) | 40 – 45 (175 – 180 FYE)[5] | Nil | Nil | 8 | 50 – 55 | Nil | Nil | Nil | Nil | Nil |
| Steve Gillespie, Cyfarwyddwr, Cyllid a Llywodraethu | 90 – 95 | Nil | Nil | 53 | 145 – 150 | 90 – 95 | Nil | Nil | 54 | 140 – 145 |
| Guy Tompkins, Cyfarwyddwr Troseddu | 85 – 90 | 15.9 | Nil | 19 | 115 – 120 | 80 – 85 | 12.3 | 5 – 10 | 70 | 175 – 180 |

| | 2014-15 | | | | | 2013-14 | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | Cyfanswm cyflogau a ffioedd | Yr holl fuddion trethadwy (i'r £100 agosaf) | Bonysau a dalwyd (i'r £1000 agosaf) | Buddion pensiwn | Cyfanswm | Cyfanswm cyflogau a ffioedd | Yr holl fuddion trethadwy (i'r £100 agosaf) | Bonysau a dalwyd (i'r £1000 agosaf) | Buddion pensiwn | Cyfanswm |
| | £000 | £000 | £000 | £000 | £000 | £000 | £000 | £000 | £000 | £000 |
| Kevin Sadler, Cyfarwyddwr Sifil, Teulu a Thribiwnlysoedd | 95 – 100 | Nil | 10 – 15 | 18 | 130 – 135 | 95 – 100 | Nil | 10 – 15 | 5 | 115 – 120 |
| Francis Dobbyn, Cyfarwyddwr Anweithredol (tan 31 Mawrth 2015) | 10 – 15 | 3.6[3] | Nil | Nil | 15 – 20 | 15 – 20[2] | 4.2[3] | Nil | Nil | 20 – 25 |
| Rachael Osborne (penodwyd 1 Awst 2014), Cyfarwyddwr Anweithredol | 5 – 10 (10 – 15 FYE)[5] | Nil | Nil | Nil | 5 – 10 | Nil | Nil | Nil | Nil | Nil |
| Ian Playford, (penodwyd 1 Awst 2014) Cyfarwyddwr Anweithredol | 5 – 10 (10 – 15 FYE)[5] | 0.6[3] | Nil | Nil | 5 – 10 | Nil | Nil | Nil | Nil | Nil |
| | 0 – 5 (10 – 15 FYE)[5] | 0.1[3] | Nil | Nil | 5 – 10 | Nil | Nil | Nil | Nil | Nil |
| Yr Arglwydd Ustus Sullivan, Uwch Lywydd y Tribiwnlysoedd | Nil[1] | Nil[1] | Nil[1] | Nil[1] | Nil[1] | Nil[1] | Nil[1] | Nil[1] | Nil[1] | Nil[1] |
| Yr Arglwydd Ustus Gross, Uwch Farnwr Llywyddol | Nil[1] | Nil[1] | Nil[1] | Nil[1] | Nil[1] | Nil[1] | Nil[1] | Nil[1] | Nil[1] | Nil[1] |
| Y Barnwr Rhanbarth Michael Walker, Cynrychiolydd Barnwrol | Nil[1] | Nil[1] | Nil[1] | Nil[1] | Nil[1] | Nil[1] | Nil[1] | Nil[1] | Nil[1] | Nil[1] |

[1] Mae aelodau barnwrol yn cael eu talu fel barnwyr ond nid ydynt yn derbyn unrhyw daliadau ychwanegol fel cyfarwyddwyr Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd EM.
[2] Yn cynnwys taliadau am waith ychwanegol a gwblhawyd yn 2012-13 a gymeradwywyd ac a dalwyd yn 2013-14.
[3] Yn cynnwys ad-daliadau am gostau teithio i gyfarfodydd busnes angenrheidiol.
[4] Dewisodd Peter Handcock beidio â chael ei gynnwys o dan drefniadau pensiwn y gwasanaeth sifil am y flwyddyn adrodd a'r flwyddyn flaenorol.
[5] Cyfwerth ag amser llawn

## Cyflog

Mae'r cyflog yn cynnwys symiau pensiynadwy a di-bensiynadwy ac yn cynnwys, ond efallai heb fod wedi'i gyfyngu i: gyflogau gros; goramser; hawliau a gadwyd i dderbyn lwfansau Llundain neu bwysoliad Llundain; lwfansau recriwtio a chadw staff; lwfansau swyddfeydd preifat; ac unrhyw lwfansau eraill sy'n agored i'w trethu yn y DU. Nid yw'r ffigurau a ddangosir yn cynnwys symiau sy'n ad-daliad o dreuliau a achoswyd yn uniongyrchol wrth gyflawni dyletswyddau'r unigolyn. Mae'r adroddiad hwn yn seiliedig ar daliadau cronnus a wnaed gan yr Asiantaeth ac a gofnodir felly yn y cyfrifon hyn.

**Bonysau**

Mae bonysau'n seiliedig ar lefelau perfformiad ac yn cael eu talu fel rhan o'r broses arfarnu. Mae bonysau'n ymwneud â pherfformiad yn y flwyddyn pryd y daethant yn daladwy i'r unigolyn. Mae'r bonysau a adroddir yn 2014-15 yn ymwneud â pherfformiad yn 2013-14 ac mae'r bonysau cymharol a adroddwyd yn 2013-14 yn ymwneud â pherfformiad yn 2012-13.

**Buddion mewn nwyddau**

Mae gwerth ariannol y buddion mewn nwyddau yn cynnwys unrhyw fuddion a ddarperir gan y cyflogwr ac sy'n cael eu trin gan Gyllid a Thollau EM fel enillion trethadwy.

**Lluosrifau cyflog**

Mae'n ofynnol i gyrff adrodd ddatgelu'r berthynas rhwng tâl y cyfarwyddwr sy'n cael ei dalu fwyaf yn eu sefydliad a'r tâl cyfartalog neu ganolrifol yng ngweithlu'r sefydliad.

| | 2014-15 | 2013-14 |
|---|---|---|
| Band tâl y cyfarwyddwr sy'n cael ei dalu fwyaf (£'000) | 175 – 180 | 145 – 150 |
| Cyfanswm tâl canolrifol (£) | 20,050 | 20,043 |
| Cymhareb | 8.9:1 | 7.4:1 |

Mae'r newid mewn cymhareb oherwydd bod y cyfarwyddwr sy'n cael ei dalu fwyaf wedi newid yn dilyn penodi'r Prif Weithredwr newydd. Roedd y taliadau'n amrywio rhwng £10,000-15,000 a £175,000-£180,000 (2013-14: £5,000-10,000 a £145,000-£150,000).

Yn 2014-15, derbyniodd ddau weithiwr dâl oedd yn fwy na thâl y cyfarwyddwr oedd yn cael ei dalu fwyaf (2013-14: Nil).

Mae'r cyfanswm tâl yn cynnwys cyflog, tâl perfformiad ar wahân, lwfansau buddion mewn nwyddau yn ogystal â thaliadau diswyddo. Nid yw'n cynnwys cyfraniadau pensiwn y cyflogwr a gwerth trosglwyddo cyfwerth ag arian parod y pensiynau.

**Contractau gwasanaeth**

O dan Ddeddf Diwygio a Llywodraethu Cyfansoddiadol 2010, mae'n ofynnol i benodiadau gwasanaeth sifil gael eu gwneud ar sail cystâdleuaeth deg ac agored. Mae'r Egwyddorion Recriwtio a gyhoeddir gan Gomisiwn y Gwasanaeth Sifil yn nodi o dan ba amgylchiadau y gellir penodi fel arall.

Mae'r swyddogion yn yr adroddiad hwn yn dal penodiadau penagored, ac eithrio'r Cyfarwyddwyr Anweithredol a benodir am dymor o dair blynedd. Byddai terfynu'n fuan, ac eithrio ar gyfer camymddwyn, yn golygu y byddai'r unigolyn yn derbyn iawndal fel y nodir yng Nghynllun Iawndal y Gwasanaeth Sifil.

Am fwy o wybodaeth am waith Comisiwn y Gwasanaeth Sifil ewch i:
www.civilservicecommission.org.uk

## Tabl 3 Contractau aelodau Bwrdd Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd EM

| Enw | Dyddiad cychwyn y contract | Cyfnod sy'n weddill | Cyfnod o rybudd |
|---|---|---|---|
| Robert Ayling | 1 Ebrill 2011 | 3 mis | 1 mis |
| Peter Handcock[1] | 4 Ionawr 1971 | Hyd at ymddeol | 3 mis |
| Natalie Ceeney | 5 Ionawr 2015 | Hyd at ymddeol | 3 mis |
| Steve Gillespie | 22 Tachwedd 1976 | Hyd at ymddeol | 3 mis |
| Guy Tompkins | 7 Tachwedd 2005 | Hyd at ymddeol | 3 mis |
| Kevin Sadler | 10 Medi 1984 | Hyd at ymddeol | 3 mis |
| Francis Dobbyn | 1 Ebrill 2011[3] | Nil | 1 mis |
| Rachael Osborne | 1 Awst 2014 | 2 flynedd a 4 mis | 1 mis |
| Ian Playford | 1 Awst 2014 | 2 flynedd a 4 mis | 1 mis |
| Victoria Cochrane | 1 Tachwedd 2014 | 2 flynedd a 7 mis | 1 mis |
| Yr Arglwydd Ustus Sullivan[2] | N/A | N/A | N/A |
| Yr Arglwydd Ustus Gross[2] | N/A | N/A | N/A |
| Y Barnwr Rhanbarth Michael Walker[2] | N/A | N/A | N/A |

Nodiadau:
[1] Cafodd y contract ei ymestyn o'r 1 Awst 2014 hyd at ymddeol ar 31 Rhagfyr 2014.
[2] Nid yw aelodau barnwrol yn gweithredu o dan gontract.
[3] Cafodd y contract ei ymestyn o'r 1 Hydref 2014 ymlaen.

## Buddion pensiwn

### Tabl 4 – Buddion pensiwn aelodau Bwrdd Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd EM a gwerthoedd trosglwyddo cyfwerth ag arian parod (CETV) y buddion hynny yn ystod ac ar ddiwedd y flwyddyn ariannol

| Enw | Pensiwn a gronnwyd erbyn cyrraedd oed pensiwn ar 31/3/15 oed a chyfandaliad cysylltiedig £'000 | Gwir gynnydd mewn pensiwn a chyfandaliad cysylltiedig wedi cyrraedd oed pensiwn £'000 | CETV ar 31/03/15 £'000 | CETV ar 31/03/14 £'000 | Gwir gynnydd mewn CETV £'000 |
|---|---|---|---|---|---|
| Robert Ayling **Cadeirydd Annibynnol** | N/A | N/A | N/A | N/A | N/A |
| Peter Handcock **Prif Weithredwr** | N/A[3] | N/A[3] | N/A[3] | N/A[3] | N/A[3] |
| Natalie Ceeney **Prif Weithredwr** | 0-5 a chyfandaliad o 0 | 0-2.5 a chyfandaliad o 0 | 7 | – | 3.2 |
| Steve Gillespie **Cyfarwyddwr Cyllid a Llywodraethu** | 45-50 a chyfandaliad o 135-140 | 2-5.5 a chyfandaliad o 7.5-10 | 925 | 836 | 47 |
| Guy Tompkins **Cyfarwyddwr Troseddu** | 30-35 a chyfandaliad o 100-104 | 0-2.5 a chyfandaliad o 2.5-5 | 629 | 586 | 14 |

| Enw | Pensiwn a gronnwyd erbyn cyrraedd oed pensiwn ar 31/3/15 oed a chyfandaliad cysylltiedig £'000 | Gwir gynnydd mewn pensiwn a chyfandaliad cysylltiedig wedi cyrraedd oed pensiwn £'000 | CETV ar 31/03/15 £'000 | CETV ar 31/03/14 £'000 | Gwir gynnydd mewn CETV £'000 |
|---|---|---|---|---|---|
| Kevin Sadler **Cyfarwyddwr Sifil, Teulu a Thribiwnlysoedd** | 35-40 a chyfandaliad o 110-115 | 0-2.5 a chyfandaliad o 2.5-5 | 720 | 671 | 13 |
| Francis Dobbyn | N/A[1] | N/A[1] | N/A[1] | N/A[1] | N/A[1] |
| Rachael Osborne | N/A[1] | N/A[1] | N/A[1] | N/A[1] | N/A[1] |
| Ian Playford | N/A[1] | N/A[1] | N/A[1] | N/A[1] | N/A[1] |
| Victoria Cochrane | N/A[1] | N/A[1] | N/A[1] | N/A[1] | N/A[1] |
| Yr Arglwydd Ustus Sullivan **Uwch Lywydd y Tribiwnlysoedd** | N/A[2] | N/A[2] | N/A[2] | N/A[2] | N/A[2] |
| Yr Arglwydd Ustus Gross **Uwch Farnwr Llywyddol** | N/A[2] | N/A[2] | N/A[2] | N/A[2] | N/A[2] |
| Y Barnwr Rhanbarth Michael Walker, **Cynrychiolydd Barnwrol** | N/A[2] | N/A[2] | N/A[2] | N/A[2] | N/A[2] |

Nodiadau:
[1] Ni wneir unrhyw gyfraniadau pensiwn ar ran Aelodau Anweithredol o Fwrdd Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd EM.
[2] Mae aelodau barnwrol yn cael eu talu fel barnwyr ac ni wnaethant dderbyn unrhyw daliadau pensiwn ychwanegol fel cyfarwyddwyr Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd EM.
[3] Dewisodd Peter Handcock beidio â chael ei gynnwys o dan drefniadau pensiwn y gwasanaeth sifil am y flwyddyn adrodd.

Darperir buddion pensiwn drwy drefniadau Prif Gynllun Pensiwn y Gwasanaeth Sifil. O'r 30 Gorffennaf 2007 ymlaen, gall gweision sifil fod mewn un o bedwar cynllun buddion diffiniedig; naill ai cynllun 'cyflog terfynol' (**clasurol, premiwm** neu **glasurol a mwy**); neu gynllun 'gyrfa gyfan' (**nuvos**). Nid yw'r trefniadau statudol hyn yn cael eu hariannu, gyda chost y buddion yn cael ei chwrdd gan gyllid a bleidleisir arno gan y Senedd bob blwyddyn. Mae pensiynau sy'n daladwy o dan **nuvos, clasurol, premiwm** a **chlasurol a mwy** yn cael eu cynyddu'n flynyddol yn unol â'r ddeddfwriaeth ar Gynyddu Pensiynau. Gall aelodau sy'n ymuno o fis Hydref 2002 ymlaen naill ai ddewis y trefniant buddion diffiniedig priodol neu bensiwn cyfranddeiliaid 'prynu arian' gyda chyfraniad sylweddol gan y cyflogwr (cyfrif pensiwn **partneriaeth**).

Mae cyfraniadau gweithwyr yn gysylltiedig â'u cyflog ac yn amrywio rhwng 1.5% a 6.85% ar gyfer y cynllun **clasurol** a rhwng 3.5% a 6.85% ar gyfer **premiwm, clasurol a mwy** a **nuvos.** Daw'r cynnydd yng nghyfraniadau'r staff i rym o'r 1 Ebrill 2013 ymlaen. Mae buddion yn y cynllun **clasurol** yn cronni ar gyfradd o 1/80fed o'r enillion pensiynadwy terfynol am bob blwyddyn o wasanaeth. Yn ogystal, telir cyfandaliad cyfwerth â phensiwn tair blynedd pan fydd y person yn ymddeol. Ar gyfer y cynllun **premiwm**, mae buddion yn cronni ar gyfradd o 1/60fed o'r enillion pensiynadwy terfynol am bob blwyddyn o wasanaeth. Yn wahanol i'r un **clasurol**, ni thelir cyfandaliad yn awtomatig. Yn ei hanfod, cynllun hybrid yw **clasurol a mwy**, gyda'r buddion am wasanaeth cyn 1 Hydref 2002 yn cael eu cyfrifo'n fras fel gyda'r cynllun **clasurol** a'r buddion am wasanaeth o fis Hydref 2002 ymlaen yn cael eu cyfrifo fel gyda'r cynllun **premiwm**. Gyda'r cynllun **nuvos**, mae aelod yn cronni ei bensiwn ar sail ei enillion pensiynadwy dros gyfnod ei aelodaeth o'r cynllun. Ar ddiwedd blwyddyn y cynllun (31 Mawrth), mae cyfrif pensiwn yr aelod yn cael ei gredydu gyda 2.3% o'i enillion pensiynadwy yn y flwyddyn honno, a chyfradd y pensiwn a gronnwyd yn cael ei chodi'n unol â'r ddeddfwriaeth ar Gynyddu Pensiynau. Ym mhob achos gall aelodau ddewis ildio (cymudo) eu pensiwn am gyfandaliad hyd at y terfynau a bennir gan Ddeddf Gyllid 2004.

Y pensiwn a gronnwyd a ddyfynnir yw'r pensiwn y mae gan yr aelod hawl i'w dderbyn ar ôl cyrraedd oed ymddeol, neu'n syth ar ôl iddynt beidio â bod yn aelod gweithredol o'r cynllun os ydynt eisoes wedi cyrraedd neu os ydynt dros oed ymddeol. Yr oed pensiwn yw 60 ar gyfer aelodau o'r cynlluniau **clasurol, premiwm** a **chlasurol a mwy**, a 65 ar gyfer aelodau o **nuvos**.

Mae mwy o fanylion am drefniadau pensiwn y Gwasanaeth Sifil ar gael ar y wefan yn www.civilservicepensionscheme.org.uk


Cyflwynir trefniadau pensiwn Gyrfa Gyfartalog newydd o'r 1 Ebrill 2015 ymlaen a bydd y rhan fwyaf o aelodau'r cynlluniau clasurol, premiwm, clasurol a mwy a nuvos yn ymuno â'r cynllun newydd. Mae mwy o fanylion am y cynllun newydd hwn ar gael yn http://www.civilservicepensionscheme.org.uk/members/the-new-pension-scheme-alpha/

**Gwerthoedd Trosglwyddo Cyfwerth ag Arian Parod**

Mae Gwerth Trosglwyddo Cyfwerth ag Arian Parod (CETV) yn golygu gwerth cyfalaf, wedi'i asesu gan actiwari, y buddion yn y cynllun pensiwn a gronnwyd gan aelod ar unrhyw adeg. Mae'r buddion a brisiwyd yn cyfateb i'r buddion a gronnwyd gan yr aelod ac unrhyw bensiwn wrth gefn i bartner sy'n daladwy o'r cynllun. Taliad a wneir gan gynllun pensiwn yw CETV, neu drefniant i sicrhau buddion pensiwn mewn cynllun pensiwn arall, neu drefniant lle mae'r aelod yn gadael cynllun ac yn dewis trosglwyddo'r buddion a gronnwyd yn ei gynllun blaenorol. Mae'r ffigurau pensiwn a ddangosir yn ymwneud â'r buddion a gronnwyd gan yr unigolyn o ganlyniad i'w aelodaeth gyfan o'r cynllun pensiwn, nid dim ond ei wasanaeth mewn capasiti uwch, lle mae datgelu'n berthnasol. Cyfrifir gwerthoedd CETV o dan Reoliadau Cynlluniau Pensiwn Galwedigaethol (Gwerthoedd Trosglwyddo) (Diwygio) 2008 ac nid yw'r rhain yn ystyried unrhyw leihad gwirioneddol na phosibl mewn buddion o ganlyniad i'r Dreth Lwfans Oes a allai fod yn daladwy pan godir y buddion pensiwn.

**Y gwir gynnydd yng ngwerth gwerthoedd CETV**

Dyma'r elfen o'r cynnydd yn y pensiwn a gronnwyd sy'n cael ei chyllido gan y Trysorlys. Mae'n eithrio cynnydd oherwydd chwyddiant a chyfraniadau a dalwyd gan y gweithwyr (gan gynnwys gwerth unrhyw fuddion a drosglwyddwyd o gynllun neu drefniant pensiwn arall). Mae'n cael ei gyfrifo'n defnyddio ffactorau prisio'r farchnad gyffredin ar gyfer dechrau a diwedd y cyfnod.



**Natalie Ceeney CBE**
**Prif Weithredwr a Swyddog Cyfrifyddu**
8 Mehefin 2015

# 6. Datganiad o Gyfrifoldebau'r Swyddog Cyfrifyddu

O dan adran 7(2) o Ddeddf Adnoddau a Chyfrifon y Llywodraeth 2000, cyfarwyddodd Drysorlys EM fod Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd EM yn paratoi, am bob blwyddyn ariannol, datganiad cyfrifon (y Cyfrifon) ar ffurf ac ar y sail a osodir allan yn y Cyfarwyddyd Cyfrifon a gyhoeddwyd gan Drysorlys EM ar 18 Rhagfyr 2014. Paratoir y Cyfrifon ar sail gronnus a rhaid iddynt roi darlun gwir a theg o gyflwr busnes yr Asiantaeth ac o'i halldro adnoddau net, sut y defnyddiodd ei hadnoddau, unrhyw newid mewn ecwiti trethdalwyr a'r llifau arian am y flwyddyn ariannol.

Wrth baratoi'r cyfrifon, rhaid i Swyddog Cyfrifyddu Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd EM gydymffurfio â gofynion Llawlyfr Adroddiadau Ariannol y Llywodraeth ac yn enwedig:

- rhaid talu sylw i'r Cyfarwyddyd Cyfrifon a gyhoeddir gan Drysorlys EM, gan gynnwys y gofynion cyfrifyddu a datgan perthnasol, a chymhwyso polisïau cyfrifyddu addas gyda chysondeb
- gwneud dyfarniadau ac amcangyfrifon rhesymol
- nodi a yw'r safonau cyfrifyddu perthnasol a nodir yn Llawlyfr Adroddiadau Ariannol y Llywodraeth wedi cael eu dilyn a'u datgelu ac egluro unrhyw wyriadau o bwys yn y Cyfrifon, a
- paratoi'r Cyfrifon ar sail busnes hyfyw.

Mae prif Swyddog Cyfrifyddu'r MoJ wedi dynodi Prif Weithredwr Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd EM fel Swyddog Cyfrifyddu Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd EM. Mae cyfrifoldebau Swyddog Cyfrifyddu, gan gynnwys y cyfrifoldeb dros briodoldeb a rheoleidd-dra'r arian cyhoeddus y mae'r Swyddog Cyfrifyddu'n atebol amdano, am gadw cofnodion priodol, am ddiogelu asedau Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd EM ac am baratoi Cyfrifon Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd EM, wedi eu nodi yn y Memorandwm ar gyfer Swyddogion Cyfrifyddu a gynhyrchir gan Drysorlys EM ac a gyhoeddir yn Managing Public Money.

# 7. Datganiad llywodraethu blynyddol

## 1 Rhagarweiniad

1.1 Darperir y Datganiad Llywodraethu hwn yn fy rôl fel Swyddog Cyfrifyddu ar gyfer Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd EM, rôl a gymerais fel rhan o fy swydd fel Prif Weithredwr ar 5 Ionawr 2015. Roedd hyn yn dilyn ymddeoliad y Prif Weithredwr a'r Swyddog Cyfrifyddu blaenorol, Peter Handcock CBE, ar 31 Rhagfyr 2014. Gyda'r trefniadau pontio yn eu lle ac ar ôl cwblhau proses drosglwyddo fanwl a ffurfiol, rwyf yn ffyddiog bod pob sicrwydd a roddir yn y datganiad hwn yn eu lle cyn y dyddiad hwn.

1.2 Mae Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd EM yn un o asiantaethau'r Weinyddiaeth Cyfiawnder (MoJ). Ein prif nod yw rhedeg system llysoedd a thribiwnlysoedd effeithiol ac effeithlon, trwy'r hon y cynhelir rheol y gyfraith ac sy'n rhoi mynediad at gyfiawnder i bawb.

1.3 Sefydlodd y Prif Weithredwr a'r Swyddog Cyfrifyddu blaenorol fframwaith llywodraethu a strwythur rheoli ar gyfer y sefydliad, i helpu i reoli ein prif risgiau. Gyda'r Uwch Dîm Rheoli, rwyf wedi adolygu'r strwythur uwch reoli ac mae gwaith ar y gweill i fireinio'r strwythur llywodraethu (gweler isod) drwy gydol 2015-16. Rwyf yn fodlon bod gennyf y systemau a'r prosesau angenrheidiol yn eu lle i gynnal cyfundrefn effeithiol o reolaeth fewnol i ategu'r gwaith o gyflawni polisi, nodau ac amcanion gan hefyd ddiogelu arian ac asedau cyhoeddus yr wyf yn bersonol gyfrifol amdanynt.

1.4 Mae Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd EM yn gweithredu'n unol â'n Dogfen Fframwaith a gyhoeddwyd, sy'n gosod allan y sail ar gyfer partneriaeth weithredol rhwng yr Arglwydd Ganghellor (Ysgrifennydd Gwladol dros Gyfiawnder) a'r Arglwydd Brif Ustus. Cafodd y ddogfen fframwaith ei diwygio a'i rhoi gerbron y Senedd ym mis Gorffennaf 2014 ar ôl recriwtio tri aelod-gyfarwyddwr anweithredol newydd i'r Bwrdd.

1.5 Fel Prif Weithredwr fi sy'n gyfrifol am weithrediadau a gweinyddiaeth yr asiantaeth o ddydd i ddydd ac am arwain ei staff. Fel Prif Weithredwr a Swyddog Cyfrifyddu rwyf yn atebol i Ysgrifennydd Parhaol y MoJ a'r Prif Swyddog Cyfrifyddu ac, yn y pen draw, i'r Senedd.

1.6 Yn y flwyddyn adrodd bresennol, mae Bwrdd Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd EM (y Bwrdd), y Prif Weithredwr blaenorol a finnau wedi goruchwylio a monitro ein perfformiad yn erbyn amcanion strategol allweddol. Mae hyn wedi digwydd wrth i uwch reolwyr ar bob lefel ar draws y strwythur presennol ddiweddaru'r Bwrdd yn rheolaidd bob tro y maent yn cyfarfod. Mae adroddiad ar ein perfformiad ar dudalen 8. Yn ogystal, mae'r Bwrdd wedi cael ei ddiweddaru'n rheolaidd ar raglenni newid allweddol drwy gydol y flwyddyn, ac yn enwedig ar y Rhaglen Ddiwygio. Rhoddir mwy o fanylion am y rhaglen hon, fydd yn trawsnewid yn sylfaenol y ffordd y darparwn ein busnes yn y dyfodol, ar dudalen 20.

1.7 Mae gweddill y datganiad hwn yn nodi ein bod wedi llwyddo i reoli nifer o risgiau a materion rheolaeth sylweddol eleni ac mae'r fframwaith rheolaeth sydd yn ei le wedi hwyluso cyflawni hyn yn effeithiol.

## 2 Fframwaith llywodraethu a strwythur rheoli

2.1 Nodir isod agweddau pwysig ar y fframwaith a'r strwythur rheoli. I sicrhau eu bod yn parhau i fod yn effeithiol, cafodd adolygiadau hunanasesu eu cyflawni yn Ebrill a Mai 2015.

2.2 **Bwrdd Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd EM** – mae'r Bwrdd yn chwarae rôl hanfodol mewn llunio a chyfarwyddo'r sefydliad gan sicrhau y gallwn ddarparu gwasanaethau cost-effeithiol o ansawdd uchel i ddefnyddwyr y llysoedd a'r tribiwnlysoedd. Mae'n rhoi arweinyddiaeth ar y cyfeiriad strategol ar gyfer y sefydliad gyda chyflawni'r nodau a'r amcanion a gytunwyd gan yr Arglwydd Ganghellor a'r Arglwydd Brif Ustus. Y Bwrdd sy'n gyffredinol gyfrifol am Lywodraethu Corfforaethol yng Ngwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd EM.

2.3 Mae'r Bwrdd yn gweithredu o fewn paramedrau'r Ddogfen Fframwaith a'r Cylch Gorchwyl a gytunwyd arno. Cyhoeddir y ddwy ddogfen hon ar fewnrwyd y sefydliad. Mae'r Ddogfen Fframwaith hefyd ar gael ar y wefan GOV.UK.

2.4 Cafodd werthusiad annibynnol o effeithiolrwydd y Bwrdd ei gyflawni gan Bennaeth Archwilio Mewnol a Sicrwydd y MoJ yn Ebrill 2014 a'r canlyniadau cryno eu cyflwyno i'r Bwrdd. Cytunwyd y dylai gwaith gwelliannau yn 2014-15 ganolbwyntio ar annog perthynas effeithiol barhaus â'r MoJ, a sefydlu fframwaith cliriach ar gyfer dirprwyo gan y Bwrdd, sydd eisoes ar y gweill.

2.5 Mae perthynas weithio well a mwy effeithiol gyda'r MoJ wedi datblygu dros y cyfnod hwn. Gwahoddwyd cydweithwyr o'r MoJ i fynychu'r Bwrdd ar gyfer eitemau penodol ar yr agenda gan ddiweddaru'r Bwrdd ar feysydd o ddiddordeb neu bryder. Mae'r trafodaethau hyn wedi bod yn bwrpasol a phenodol gyda phenderfyniadau a gweithredu clir yn dod ohonynt. Cytunodd y Bwrdd ar fframwaith diwygiedig ar gyfer dirprwyo awdurdod yn ei gyfarfod ym mis Ebrill, gan nodi materion a gedwir yn ôl i'r Bwrdd, y Prif Weithredwr a'r Weithrediaeth. Yn fuan yn 2015-16, bydd trefniadau dirprwyo mewnol a rhai'r Weithrediaeth yn cael eu hadolygu a'i diwygio i sicrhau eu bod yn gyson â phenderfyniad y Bwrdd.

2.6 Bydd y Bwrdd yn cyflawni ei adolygiad blynyddol o effeithiolrwydd ym mis Mai a bydd cynllun i weithredu'r gwaith gwelliannau'n cael ei roi ar waith yn 2015-16.

2.7 Yn 2014-15 roedd gan y Bwrdd dri is-bwyllgor ffurfiol: Y Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg; yr Is-bwyllgor Newid a Moderneiddio; a'r Pwyllgor Iechyd a Diogelwch, rhoddir manylion am y tri isod. Ar ôl cymeradwyo Dirprwyo Awdurdod, cytunwyd y byddai'r strwythur yn cael ei ddiwygio o fis Mai 2015 ymlaen. Bydd gan y Bwrdd dri Is-bwyllgor o hyd, i gynnwys y Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg, ond bydd yr Is-bwyllgor Newid a Moderneiddio'n cael ei ail-enwi'n Fwrdd Newid Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd EM, a bydd Bwrdd Rhaglen Ddiwygio Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd EM yn awr yn fwrdd penodol. Rydym yn adolygu'r strwythurau llywodraethu sydd eu hangen arnom ar lefel weithrediaeth i sicrhau trefniadau llywodraethu cryf ac effeithiol ar draws ein holl weithgareddau, a bydd y trefniadau Iechyd a Diogelwch a Seciwriti'n allweddol i hynny.

2.8 **Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg** – corff cynghori yw'r Pwyllgor hwn sy'n fy nghefnogi i fel Prif Weithredwr yn fy rôl fel Swyddog Cyfrifyddu, ac yn cefnogi'r Bwrdd gyda'i gyfrifoldebau dros reoli risg, rheolaeth a llywodraethu. Mae'r Pwyllgor yn adolygu pa mor gynhwysfawr yw'r sicrwydd a roddir gan yr archwilwyr mewnol ac allanol, rheolwyr gweithredol a ffynonellau eraill, ac yn adolygu pa mor ddibynadwy a chywir yw'r sicrwydd hwn. Mae Cadeirydd y Pwyllgor yn cyflwyno adroddiad sy'n tynnu sylw at faterion ac yn eu dyrchafu i'r Bwrdd ar ôl pob cyfarfod chwarterol.

2.9 Ym mis Mai 2014, hwylusodd Bennaeth Archwilio Mewnol a Sicrwydd y MoJ drafodaeth ag aelodau'r Pwyllgor ar ei adolygiad blynyddol o effeithiolrwydd y trefniadau hunan-asesu, a

chafodd nifer o gamau allweddol eu nodi ar gyfer gwelliannau pellach yn 2014-15, gan gynnwys:

- rhannu portffolio newid Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd EM, a'r rhaglenni newid allweddol gan yr MoJ sy'n berthnasol i'r Asiantaeth, gyda'r Pwyllgor.
- datblygu a rhannu'r rhaglen gynefino a'r trefniadau ar gyfer yr aelodau anweithredol newydd, gyda'r Pwyllgor; a
- dylai adroddiadau archwilio yn y dyfodol fod yn fwy eglur ynghylch unrhyw waith a wneir ar y cyd rhwng yr archwilwyr mewnol ac allanol.

2.10 Mae'r camau hyn wedi cael sylw yn ystod y flwyddyn hon a bu'r Swyddfa Archwilio Genedlaethol yn hwyluso'r adolygiad blynyddol o effeithiolrwydd yn Ebrill 2015. Bydd gwaith gwelliannau sydd angen ei wneud yn sail ar gyfer cynllun gweithredu fydd i'w roi ar waith yn 2015-16.

2.11 **Is-bwyllgor Newid a Moderneiddio** – mae gan y Pwyllgor gyfrifoldeb cyffredinol i ddatblygu a hyrwyddo newid er mwyn cyflawni amcanion strategol y sefydliad ar ran y Bwrdd ac i gefnogi'r Bwrdd i ddarparu strategaeth, polisïau a gwasanaethau'r Bwrdd.

2.12 Yn Ebrill 2014, gwahoddwyd aelodau'r Bwrdd i drafod effeithiolrwydd y Pwyllgor ac i adnabod unrhyw gamau y gellid eu cymryd i wneud gwelliannau pellach. Cafodd waith gwelliannau ei ymgorffori mewn cynllun gweithredu i'w roi ar waith yn 2014-15.

2.13 Cafodd y cynnydd ei fonitro drwy roi diweddariad rheolaidd ar y pwyntiau gweithredu. Fodd bynnag, oherwydd adolygu'r portffolio a'r cymorth ar gyfer y portffolio, penderfynwyd gohirio gweithredu'r holl welliannau tan 2015-16. Roedd hyn er mwyn gallu cyflwyno strwythur llywodraethu a chymorth priodol a gwell a bydd yn ganolog i adolygu'r strwythurau llywodraethu presennol.

2.14 **Pwyllgor Iechyd a Diogelwch** – mae'r Pwyllgor yn gorff cynghori sy'n cefnogi'r Prif Weithredwr fel y Swyddog Cyfrifyddu a hefyd y Bwrdd yn eu cyfrifoldebau i reoli risg a sefydlu rheolaeth effeithiol dros iechyd a diogelwch. Mae'r Pwyllgor yn hybu iechyd a diogelwch ar draws y sefydliad ac yn sicrhau ein bod yn cwrdd â safonau cytunedig, gan gynnwys rhwymedigaethau cyfreithiol.

2.15 Cafodd adolygiad blynyddol o effeithiolrwydd ei gyflawni yn Chwefror 2014 ac roedd pawb a fynychodd yn fodlon â gweithrediad y Pwyllgor. Yr unig bwynt gwella a gafodd ei adnabod oedd y dylid rhannu'r holl Gynlluniau Darparu ac mae'r dogfennau hyn bellach yn cael eu cylchredeg gyda phapurau pob cyfarfod, ac yn cael eu trafod fel bo angen.

2.16 Rhoddir manylion llawn aelodaeth a chofnodion presenoldeb y Bwrdd a'i Is-bwyllgorau yn yr atodlen yn yr Atodiad.

2.17 Yn ogystal â strwythur llywodraethu ffurfiol, mae gan Wasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd EM strwythur rheoli gweithredol yn ei le i gefnogi'r busnes gweithredol o ddydd i ddydd. O ystyried y rhaglen newid a diwygio sylfaenol y mae'r sefydliad yn cychwyn arni, mae'r Uwch Dîm Rheoli wedi cael ei ailstrwythuro i ddarparu'r adnodd a'r arweinyddiaeth briodol wrth i ni symud ymlaen i'r flwyddyn newydd. Gweithredir yr ailstrwythuro'n ffurfiol yn fuan yn 2015-16.

**Llywodraethu Corfforaethol yn Adrannau'r Llywodraeth Ganolog – Cod Ymarfer Da**

2.18 Mae'r cod hwn yn uniongyrchol berthnasol i'r MoJ, fodd bynnag mae Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd EM wedi mabwysiadu egwyddorion allweddol ynddo fel ymarfer gorau. Mae adolygiad eleni wedi cadarnhau ein bod yn parhau i gydymffurfio â'r gofynion pwysicaf ac eithrio'r Pwyllgor Enwebiadau fel yr adroddwyd mewn blynyddoedd blaenorol. Darperir swyddogaethau allweddol y Pwyllgor hwn drwy Bwyllgor Gweithlu'r MoJ a Bwrdd Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd EM.

## 3 Rheoli risg

3.1 Mae systemau rheoli risg yn eu lle i adnabod, asesu a blaenoriaethu risg yn effeithlon ac effeithiol ac i sicrhau y rheolir risg i lefel dderbyniol.

3.2 Mae fframwaith risg a rheoli yn ei lle i nodi, monitro, rheoli ac adrodd ar y risgiau neu'r bygythiadau i gyflawni amcanion yr Asiantaeth. Mae'r polisi risg yn cwmpasu'r lefel ranbarthol, gorfforaethol a'r gyfarwyddiaeth ganolog ac yn golygu y gellir rheoli risg ar lefel briodol, gan ddyrchafu lle bo angen.

3.3 Mae fy uwch dîm rheoli a Bwrdd Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd EM wedi neilltuo cryn amser i reoli risg a sicrhau perfformiad, i ddarparu busnes beunyddiol a'r portffolio newid. Tynnaf sylw yma at y pedwar maes a dderbyniodd fwyaf o sylw dros y cyfnod hwn.

- Dibynnwn yn drwm ar ddarparu gwasanaethau corfforaethol hanfodol ac effeithiol gan y MoJ ganolog a chan fusnes drwy gyflenwyr dan gontract. Mae gweithio'n effeithiol ar y cyd â chydweithwyr yn yr adran wedi ysgogi gwasanaethau TGCh byw gwell ac yn helpu i lunio'r ddarpariaeth yn y dyfodol drwy fodelau contract newydd. Mae gwella ein gallu i reoli contractau a'n cysylltiadau â chyflenwyr allanol wedi bod yn flaenoriaeth ynghyd â mesurau a gafodd sylw fel rhan o raglen welliannau adrannol gyffredinol.
- Rydym wedi rheoli'r sefyllfa ariannol anodd drwy Fwrdd Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd EM, yn defnyddio amrywiaeth o adnoddau adrodd, a hefyd i dracio gwariant ac adnabod unrhyw bwysau newydd fel y gallwn sicrhau bod blaenoriaethau gweithredol a newid yn cael eu darparu o fewn ein cyllideb.
- Rydym wedi parhau i weithredu fframwaith cynhwysfawr o bolisïau a mesurau rheolaeth i sicrhau diogelwch ac i warchod ein staff, barnwriaeth a'n defnyddwyr.
- Mae'r sefydliad wedi cychwyn ar raglen Ddiwygio helaeth fydd yn trawsnewid ein gwasanaethau'n sylfaenol gyda buddsoddiad ariannol sylweddol. Mae mwy o wybodaeth yn yr Adroddiad Blynyddol ar dudalen 20. Mae Bwrdd y Rhaglen Ddiwygio sy'n adrodd i Fwrdd Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd EM yn gyfrifol am sicrhau y rheolir unrhyw risg sy'n gysylltiedig â'r rhaglen hon.

*Materion rheolaeth sylweddol*

3.4 Mae nifer fach o'r materion mwyaf sylweddol a wynebodd yr Asiantaeth dros y cyfnod hwn yn haeddu cael eu datgelu ymhellach, yn amodol ar gyfyngiadau sy'n angenrheidiol i warchod ymchwiliadau presennol. Maent yn cynnwys:

3.5 **Costau ynadon** – Daeth archwiliad mewnol o hyd i wendidau rheolaeth yn ein systemau ar gyfer prosesu costau ynadon, a allai arwain at anghysondebau a gwallau wrth brosesu hawliadau. Mae'r tîm rheoli wedi cytuno i'r holl argymhellion ar wella'r mesurau rheoli ac mae camau i ateb y sefyllfa wrthi'n cael eu gweithredu, gan gynnwys pontio i ddull canolog newydd.

3.6 **Diogelu data** – er gwaethaf fframwaith o fesurau rheoli, wynebodd Wasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd EM nifer o ddigwyddiadau colli data yn ystod y flwyddyn. Er bod y nifer yn fach o'i gymharu â chyfanswm y trafodion a broseswn, rydym yn delio â gwybodaeth bersonol hynod sensitif ar ran y bobl sy'n cymryd rhan mewn gwrandawiadau a chymerwn ein cyfrifoldeb i sicrhau y diogelir y wybodaeth hon o ddifrif.

3.7 **Colli data** – Yn ddiarwybod roedd llys wedi datgelu, i atebydd gyda hanes o drais yn y cartref, cyfeiriad y deisebydd mewn deiseb dros achos dirymedd, a barnwr wedi gorchymyn na ddylid datgelu'r wybodaeth i'r atebydd. Gwnaethom weithredu ar unwaith i symud y deisebydd i le diogel ac ni chafwyd unrhyw broblemau gyda'i chyn ŵr. Mae'r Cyfarwyddwr Darparu Rhanbarthol ac uwch staff y llys wedi ymddiheuro, y naill yn ysgrifenedig a'r llall yn bersonol.

3.8 Ein polisi yw hunangyfeirio pob digwyddiad data sylweddol i Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth (ICO) ac rydym yn parhau i weithio'n agos â'r ICO ac asiantaethau eraill i wella ein systemau ymhellach ac i ddysgu gwersi. Ni arhoswn i'r Adroddiad Blynyddol ddatgelu digwyddiadau sylweddol, yn hytrach byddwn bob tro'n eu hadrodd yn dilyn cwblhau ymchwiliadau a gyflawnir gan yr ICO yn ystod y flwyddyn.

3.9 **Archwiliadau'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (DBS) ar gyfer staff allweddol** – o ganlyniad i broblem gyda gweithredu system Adnoddau Dynol newydd, methwyd ag atgoffa rheolwyr i adnewyddu archwiliadau DBS ar gyfer eu staff pan ddaethant i ben. Cymerwyd camau brys i gywiro'r gwendid hwn a sicrhau bod yr holl staff yn parhau i dderbyn archwiliadau fetio diogelwch, fel bo angen ar gyfer eu rôl, yn unol â pholisi Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd EM.

*Diweddariad ar faterion rheolaeth a adroddwyd yn 2013-14*

3.10 **Gwaith beilïaid sifil** – yn dilyn adolygu'r strwythur rheolaeth a sefydliadol sy'n llywodraethu gwaith ein beilïaid sifil, mae gwaith mewn llaw i weithredu argymhellion sy'n cynnwys mesurau rheolaeth newydd drwy'r dull Rheolaethau Gweithredu Safonol (SOC). Mae'r heddlu wrthi'n cynnal ymchwiliad ar wahân i anghysondebau a gafodd eu hadnabod wrth ymdrin ag achos yn y Llysoedd Cyfiawnder Brenhinol.

3.11 **Prosesu euogfarnau moduro** - fel yr adroddwyd yn flaenorol, mae'r heddlu'n parhau i ymchwilio i ganlyniadau euogfarnau moduro mewn nifer o'n llysoedd ynadon a daethpwyd â chyhuddiadau yn erbyn staff ac aelodau o'r cyhoedd. Mae mesurau rheolaeth wedi cael eu gwella, cryfhawyd y timau rheoli yn y llysoedd dan sylw a rhoddwyd cymorth ychwanegol i sicrhau y cydymffurfir â rheolaethau gorfodol. Ar wahân, comisiynwyd gwaith gan gydweithwyr polisi yn y MoJ i newid y broses gyfreithiol ar gyfer gwneud datganiadau statudol, er mwyn lleihau'r risg o gamddefnyddio'r system.

3.12 **System orfodaeth PentiP** – mae problemau blaenorol yn sgîl gweithredu system cosbau penodedig PentiP y Swyddfa Gartref wedi cael eu datrys yn llwyr. Mae problemau technegol oedd yn effeithio ar ddibynadwyedd y system wedi cael eu datrys a rhai newidiadau swyddogaeth wedi'u gwneud. O ganlyniad mae'r system yn gwbl weithredol ac yn darparu'r manteision oedd mewn golwg.

3.13 Mae'r gwaith cysoni ariannol oedd wedi hel oherwydd y problemau gyda'r system, ac a effeithiodd ar farn C&AG am Ddatganiad Ymddiriedolaeth Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd EM yn 2012-13 bellach wedi'i glirio'n llwyr fel bod C&AG wedi gallu rhoi barn archwilio gwbl ddiamod am Ddatganiad Ymddiriedolaeth Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd EM yn 2013-14, a roddwyd gerbron y Senedd yn Rhagfyr 2014.

3.14 **Adolygu contractau prydles hirdymor** – comisiynodd Wasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd EM yr Archwilwyr Mewnol i ymchwilio i amgylchiadau nifer o drafodion eiddo hanesyddol gan ei ragflaenydd, oedd yn ymddangos i fod yn cynnig gwerth gwael am arian. Cafodd yr adolygiad ei gyflawni gyda chymorth allanol.

Mae Bwrdd a Phwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd EM wedi ystyried y canfyddiadau sy'n nodi nad oes cyfiawnhad dros ymchwilio ymhellach i'r trafodion penodol ac y dylai'r mesurau rheolaeth sydd ar waith yng Ngwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd EM atal hyn rhag digwydd eto. Mae'r addasiadau cyfrifyddu priodol wedi cael eu gwneud yng nghyfrifon statudol Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd EM. Mae

gwaith ychwanegol ar y gweill i roi sicrwydd pellach i'r Bwrdd bod y trefniadau llywodraethu presennol yn ddigonol i sicrhau'r penderfyniadau gorau wrth gyflawni trafodion ystâd yn y dyfodol.

3.15 **Contract am wasanaethau cyfieithwyr** - lleisiwyd pryderon yn flaenorol bod gwasanaethau cyfieithwyr a ddarperir drwy gontract â chwmni Capita ALS wedi bod yn tanberfformio. Ar 27 Ionawr 2014 ymddangosodd Brif Weithredwr Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd EM a Chyfarwyddwr Cyffredinol Cyllid, Sicrwydd a Masnachol yr Adran o flaen y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus i roi tystiolaeth bellach yn dilyn adroddiad gan y Swyddfa Archwilio Genedlaethol (NAO) ar y cynnydd a wnaed ers adroddiad y llynedd. Ers gweithredu pecyn contract diwygiedig, mae perfformiad wedi gwella. Yn ogystal, mae gwariant ar gyfieithwyr y tu allan i'r contract wedi parhau i leihau'n sylweddol.

*Rheoli risg yn ymwneud â thwyll ac afreoleidd-dra*

3.12 Ar y cyfan mae gwerth a nifer y digwyddiadau o dwyll sydd wedi eu nodi yng Ngwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd EM yn isel o gofio natur a maint y corff a nifer y trafodion dyddiol. Fodd bynnag gwelsom gynnydd o un flwyddyn i'r llall yn nifer yr achosion o dwyll a adroddir i ni. Un ffactor sydd i bob golwg yn cyfrannu at y cynnydd hwn yw'r sesiynau ymwybyddiaeth o dwyll a ddarparwyd gan ein Tîm Ymchwiliadau ac a arweiniodd at fwy o adrodd ac adrodd gwell.

3.13 Gweithredwn bolisi o ddim goddef twyll ac afreoleidd-dra o gwbl ac mae'r Tîm Ymchwiliadau'n gweithio'n agos â'r Gyfarwyddiaeth Gyllid a Llywodraethu i leihau'n fwy fyth pob agwedd ar dwyll ac afreoleidd-dra. I wneud hyn mae'r canlynol yn eu lle gennym:

- fframwaith rheolaeth effeithiol sy'n cynnwys mesurau i reoli'r risg o dwyll a ddyfeisiwyd i atal, canfod a rhwystro gweithgareddau twyll
- strategaeth gwrth-dwyll weithredol sy'n cynnwys cynllun ymateb i dwyll, polisi chwythu'r chwiban a phroses drylwyr o reoli ac ymchwilio i ddigwyddiadau o dwyll sy'n canolbwyntio ar adennill colledion ariannol
- cynrychiolaeth ar Grŵp Gwrth-Dwyll trawsadrannol yr MoJ
- tîm o swyddogion arbenigol sy'n gweithio'n unswydd ar reoli ac ymchwilio i ddigwyddiadau o dwyll ac afreoleidd-dra
- pecyn hyfforddiant gorfodol traws-llywodraeth ac asesiad y mae'n rhaid i'r holl staff a rheolwyr ei gyflawni, a
- un pwynt cyswllt yn Heddlu Dinas Llundain yn "Action Fraud" i sicrhau bod yr holl ymchwiliadau a gyfeiriwyd atynt yn rhedeg yn llyfn ynghyd ag un pwynt cyswllt mewn Cyrff Hyd Braich a sefydliadau ac asiantaethau eraill y Llywodraeth i hwyluso rhannu gwybodaeth a chudd-wybodaeth.

*Rheoli risg yn ymwneud ag iechyd, diogelwch tân a seciwriti*

3.14 Rydym yn ymrwymedig i sicrhau diogelwch a seciwriti ein holl ddefnyddwyr, staff a rhai sy'n dal swyddi barnwrol a hefyd i warchod ein hadeiladau a'n cyfarpar rhag bygythiadau amgylcheddol a chan bobl sy'n cyflwyno risg i'n gweithrediadau. Mae'r system reoli'n seiliedig ar fframwaith wedi'i argymell gan yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch (HSG 65) a Fframwaith Polisi Diogelwch y Llywodraeth.

3.15 Mae gennym Dîm Seciwriti a Diogelwch canolog sy'n cefnogi rhwydwaith o dimau rhanbarthol i ddarparu cyngor proffesiynol i staff, rheolwyr a rhai sy'n dal swyddi barnwrol ar sut i reoli risgiau'n ymwneud â seciwriti, iechyd a diogelwch a thân yn effeithiol ar draws y sefydliad. Darperir hyfforddiant a chyfarwyddyd Seciwriti a Diogelwch i staff lleol i'w helpu i gyflawni eu cyfrifoldebau.

3.16 Mae'n ofynnol i'r llysoedd a'r tribiwnlysoedd gyflawni archwiliadau seciwriti a diogelwch rheolaidd a dyrchafu materion a risgiau sylweddol i'r Cyfarwyddwyr Darparu. Mae

perfformiad yn cael ei adolygu'n rheolaidd ar lefel ranbarthol a chenedlaethol, gan gynnwys rhoi diweddariad pob chwe mis i Fwrdd a Phwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd EM.

3.17 Drwy gydol y flwyddyn hon gwnaed cynnydd gydag ateb gwendidau a nodwyd yn flaenorol, gan gynnwys:

- ymgysylltu â'r farnwriaeth i weithredu cynllun Gweithredu Seciwriti Barnwrol
- gweithredu gofynion Gorchymyn Diogelu Tribiwnlysoedd 2014 sy'n rhoi'r un pwerau i Swyddogion Diogelwch Tribiwnlysoedd ag a roddir i Swyddogion Diogelwch Llys, a
- gwella seciwriti ystafelloedd gwrandawiad y llys i sicrhau bod safonau'n cael eu cymhwyso'n gyson ar draws yr ystâd.

*Rheoli'r risg i barhad busnes*

3.18 Mae cynlluniau Parhad Busnes yn eu lle ar gyfer holl safleoedd a lleoliadau Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd EM. Mae gennym drefniadau parhad busnes yn eu lle ar gyfer Canolfan Hawliadau Arian y Llys Sirol a Chanolfannau Busnes Cenedlaethol eraill sy'n lliniaru'n effeithiol unrhyw risg o golli busnes posibl yn y dyfodol. Bydd trefniadau yn y Canolfannau Busnes Cenedlaethol yn cael eu hadolygu yn 2015-16 oherwydd newidiadau o fewn ein hystâd.

3.19 Cafodd effeithiolrwydd ein cynlluniau parhad busnes ac adfer o drychineb ei brofi'n ddiweddar yn dilyn tân ceblau tanddaearol yn Kingsway, Canol Llundain, a arweiniodd at doriadau trydan yn yr ardal, colli TG ac aflonyddwch i'r rhwydwaith TG a systemau ffôn ar draws ystâd ehangach y MoJ. Bu'n rhaid gwagu adeiladau gan gynnwys y Llysoedd Cyfiawnder Brenhinol a Victory House a symud deunydd hynod sensitif yn sydyn i leoliadau diogel eraill.

3.20 Drwy'r broses sicrwydd chwe misol, gellir monitro cynnydd gyda chydymffurfio â gofynion y cynlluniau. Llwyddodd nifer o safleoedd i ddelio â digwyddiadau parhad busnes yn ystod y flwyddyn.

*Rheoli risgiau gwybodaeth*

3.21 Rydym yn ymrwymedig i sicrhau bod data cyhoeddus yn cael ei ddiogelu'n briodol ac yn gweithio'n barhaus i sicrhau y cyflawnwn ein rhwymedigaethau i'r cyhoedd.

3.22 Mae mesurau rheolaeth allweddol sydd yn eu lle i gyflawni ein cyfrifoldebau sicrhau gwybodaeth yn cynnwys:

- Mae'r Uwch Berchennog Risg Gwybodaeth yn arwain a chyfarwyddo sicrhau gwybodaeth i sicrhau y cydymffurfiwn â safonau gorfodol y llywodraeth yn unol â'r Fframwaith Polisi Diogelwch, wedi'i gefnogi gan dîm sicrhau gwybodaeth ymroddedig ac arbenigol.
- Mae gan y Grŵp Sicrhau Gwybodaeth uwch reolwyr a benodir o swyddi strategol allweddol o fewn y sefydliad. Mae'r grŵp yn rhoi sicrwydd ac yn sicrhau bod ein System Rheoli Diogelu Gwybodaeth yn cefnogi gweithredu effeithiol ac yn cydymffurfio â gofynion cyfreithiol a gofynion Llywodraeth EM.
- Mae Pennaeth Sicrhau Gwybodaeth Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd EM yn eistedd ar nifer o fyrddau a phwyllgorau pwysig sy'n dylanwadu ar drefniadau Sicrhau Gwybodaeth yn y sefydliad.
- Mae hyfforddiant gloywi blynyddol gorfodol yn ei le i'r holl staff a darperir sesiynau ymwybyddiaeth i bob rhanbarth pob blwyddyn. Mae hyn yn cael ei wirio ar bob lefel yn y sefydliad. Yn ogystal, mae Perchnogion Asedau Gwybodaeth Enwebedig yn cwblhau hyfforddiant gorfodol wedi'i dargedu yng nghyswllt eu rolau.
- Pob blwyddyn mae Perchenogion Asedau Gwybodaeth yn adolygu ac asesu eu hasedau gwybodaeth gyda chymorth gan y tîm canolog.

- Adolygiad cynhwysfawr a pharhaus o'r Gofrestr Asedau Gwybodaeth.
- Cytundebau Rhannu Data â'n cyflenwyr, adrannau eraill y llywodraeth a chyrff ymchwil i rannu gwybodaeth bersonol sydd wedi'i hymddiried ynom.
- Adolygiadau parhaus o gydymffurfio yn y llysoedd a'r tribiwnlysoedd i adolygu pa mor effeithiol yw polisïau, canllawiau, gweithdrefnau a phrosesau.
- Gweithdrefnau effeithiol ar gyfer delio â digwyddiadau data sy'n sicrhau bod colledion yn cael eu hadrodd, eu dyrchafu'n brydlon ac yn derbyn sylw ar y lefel briodol yn y sefydliad.
- Mae cysylltiadau gweithio cryf ar draws y MoJ a Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd EM yn sicrhau cyfranogi'n briodol a chymesur ym mhob prosiect a rhaglen newid sy'n effeithio ar ein data.

## 4 Goruchwylio a sicrwydd

4.1 Fel Swyddog Cyfrifyddu, rwyf yn gyfrifol am adolygu pa mor effeithiol yw'r system rheolaeth fewnol. Mae fy adolygiad o effeithiolrwydd y system rheolaeth fewnol wedi'i oleuo gan waith fy rheolwyr gweithredol. Nhw sy'n gyfrifol am ddatblygu, cynnal ac adrodd ar y fframwaith rheolaeth fewnol, ynghyd ag arsylwadau ac argymhellion a wneir gan archwilwyr mewnol ac allanol yn eu llythyrau rheoli ac adroddiadau eraill.

4.2 Mae gan y sefydliad brosesau rheoli yn eu lle i roi sicrwydd ynghylch risgiau ariannol a gweithredol i uwch reolwyr gweithredol. Mae'r prosesau hyn yn cael eu gwella a'u hadolygu'n barhaus i sicrhau eu bod yn aros yn gyfredol, effeithiol a pherthnasol. Disgrifir y prosesau hyn isod.

**4.3 Offeryn hunanasesu Rheolaethau Gweithredu Safonol (SOC)** - offeryn sicrwydd yw'r SOC a ddyfeisiwyd i adrodd ar lefelau cydymffurfio gyda rheolaethau gorfodol a ddisgrifir mewn Gweithdrefnau Gweithredu Safonol (SOP) sydd yn eu lle ar lefel weithredol. Fel yr adroddwyd y llynedd, datblygwyd templed SOP newydd ei ddyfeisio i wella ansawdd y gwasanaeth i'n cwsmeriaid drwy sicrhau bod rheolaethau allweddol priodol yn rhan annatod o'r Gweithdrefnau SOP.

4.4 I wella cysondeb wrth brofi, casglu ac adrodd tystiolaeth, dosbarthir taflenni archwilio rheolaethau allweddol i staff. Mae'r adroddiadau ar lefel y sicrwydd yna'n cael eu casglu drwy gwymplen safonol o fewn yr offeryn SOC.

4.5 I ddarparu sicrwydd cyfredol seiliedig ar risg, cofnodir ar y SOC drwy gymhwyso meini prawf risg ac mae'n cael ei adolygu a'i ddiweddaru'n chwarterol. Mae'r adroddiadau chwarterol hyn yn fodd i wreiddio'r Gweithdrefnau SOP newydd ac i wella ansawdd a chysondeb y sicrwydd ar gyfer y sefydliad. Mae hwn yn ddarn mawr o waith ym mhob un o'r prif awdurdodaethau ar draws Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd EM. Gwnaed llawer iawn o gynnydd eleni, yn enwedig ar draws yr awdurdodaethau troseddu, sifil a theulu. Mae gwaith eto i'w orffen ar draws nifer o dribiwnlysoedd a bydd hyn yn parhau i'r flwyddyn adrodd newydd.

**4.6 Datganiadau Cyfarwyddwyr Chwarterol a Llywodraethu Blynyddol** - mae'r holl Gyfarwyddwyr (Darparu) Canolog a Rhanbarthol yn cyflwyno datganiadau chwarterol, gan gynnwys materion rheolaeth a godwyd gan dimau rheoli rhanbarthol a chyfarwyddiaeth ac a ddyrchafwyd ac a adolygwyd gan uwch reolwyr. Mae'r datganiadau hyn yn cynnwys adrodd ar ffynonellau rheolaeth fewnol sydd, yn ei dro, yn rhoi sicrwydd bod rheolwyr yn cydymffurfio â pholisïau gweithredol, gweithdrefnau a rheolaethau allweddol sefydledig. Adroddir ar faterion sy'n codi o'r datganiadau hyn i'r Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg pob chwarter.

4.7 Yn ogystal, yr wyf i a'r Bwrdd yn ennill sicrwydd drwy'r canlynol.

- Adroddiadau diweddar a chynhwysfawr ar berfformiad a chyllid ym mhob cyfarfod Bwrdd gan yr Uwch Dîm Rheoli.
- Gweithdrefnau ariannol a gweinyddol sy'n cynnwys dirprwyo awdurdod ariannol a gwahanu dyletswyddau gyda phrosesau ariannol allweddol.

- Mae'r MoJ yn darparu nifer o wasanaethau i'r Asiantaeth, i wella gwerth am arian ac i gefnogi datblygu gwasanaethau corfforaethol proffesiynol a chyson. Ym meysydd adnoddau dynol, technoleg gwybodaeth, gwasanaethau caffael a rheoli ystâdau, mae Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd EM yn cael sicrwydd o ddigonolrwydd ac effeithiolrwydd gan y MoJ.
- Mae'r Bwrdd yn cael ei ddiweddaru ar broffil risg ac effeithiolrwydd y systemau rheolaeth fewnol drwy dderbyn cofnodion y Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg, drwy adolygu adroddiadau perfformiad Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd EM a thrwy adborth uniongyrchol gan Gadeirydd y Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg. Darperir y gofrestr risg i'r Bwrdd bob chwe mis ac, yn y dyfodol, bydd crynodeb risg yn cael ei roi i bob cyfarfod o'r Bwrdd yn fisol.
- Mae'r Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg yn goruchwylio digonolrwydd ac effeithiolrwydd y prosesau rheoli risg a'r system rheolaeth fewnol ar gyfer y sefydliad. Mae'r Pwyllgor yn adolygu'r gofrestr risg gorfforaethol yn rheolaidd, a'r gwaith o gynhyrchu Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon yr Asiantaeth. Mae gan Gadeirydd y Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg fynediad rhydd a chyfrinachol at Gadeirydd Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg y MoJ, yr Is-adran Archwilio a Sicrhau Mewnol ac at yr archwilwyr allanol fel bo angen.
- Adroddiad Gwerth am Arian ac adroddiadau eraill a gynhyrchir gan y Swyddfa Archwilio Genedlaethol (NAO). Roedd yr adroddiad ar Orchmynion Atafaelu 738 17 Rhagfyr 2013 yn canolbwyntio ar arweinyddiaeth a llywodraethu gorchmynion atafaelu ac effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd y broses. Yn dilyn argymhellion a wnaed gan y NAO a'r Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus, aeth y Bwrdd Cyllid Troseddol (CFB) sy'n Fwrdd gan y Swyddfa Gartref wedi'i gadeirio gan Weinidogion gydag aelodaeth o'r MoJ a Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd EM, ati i ddatblygu cynllun gwella wedi'i gytuno gan bob asiantaeth a sefydliad oedd yn aelod, gan gynnwys Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd EM. Ar hyn o bryd mae'r cynllun yn cynnwys cymysgedd o amcanion tymor canolig a hirach i wella effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd gwaith atafaelu. Mae'r Bwrdd Cyllid Troseddol, sy'n cwrdd pob chwarter, yn tracio cynnydd y cynllun i sicrhau bod asiantaethau'n cwrdd â'u hymrwymiadau a bod cerrig milltir yn cael eu cyrraedd. Mae effaith y cynnydd gyda'r amcanion tymor canolig yn dechrau cael ei gweld (fel yr ymdrech amlasiantaethol gydgysylltiedig ar orfodi gorchmynion atafaelu heb eu talu), ac mae'r cynnydd gyda'r amcanion mwy hirdymor yn gyson.


4.8 Daw un o brif ffynonellau sicrwydd annibynnol yr Asiantaeth o weithgareddau ei gwasanaeth archwilio mewnol a ddarperir gan Archwilio a Sicrhau Mewnol y MoJ, sy'n cwrdd â Safonau Archwilio Mewnol y Sector Cyhoeddus. Mae'r rhaglen archwilio mewnol wedi'i chysylltu'n agos i'r risgiau allweddol i'r asiantaeth ac mae trefniadau yn eu lle i sicrhau bod y Swyddog Cyfrifyddu'n dod i wybod am unrhyw fater pwysig sy'n awgrymu nad yw risgiau allweddol yn cael eu rheoli'n effeithiol.

4.9 Mae'r Pennaeth Archwilio Mewnol yn rhoi barn flynyddol o Sicrwydd Cymedrol am ddigonolrwydd ac effeithiolrwydd y system lywodraethu, rheolaeth a rheoli risg. Er y barnwyd y rhan fwyaf o'r adroddiadau archwilio fel rhai 'cymedrol' neu 'sylweddol', nododd yr Archwilwyr Mewnol thema gyson o ddiffyg cydymffurfio â rheolaethau system.

## 5 Casgliad

5.1 Rwyf yn fodlon bod gennym drefniadau llywodraethu, rheoli risg a sicrwydd effeithiol yn eu lle fel y disgrifiwyd hwynt ar ddechrau'r datganiad hwn. Mae'r trefniadau'n cael eu hadolygu'n barhaus wrth i'r sefydliad barhau i esblygu a bydd newidiadau pellach yn y flwyddyn i ddod.

5.2 Lle nodir materion rheolaeth sylweddol yn y datganiad hwn, rwyf yn fodlon eu bod yn cael eu hadolygu'n drylwyr a bod camau lliniaru priodol, effeithiol a chymesur yn eu lle i reoli'r materion hynny.



**Natalie Ceeney CBE**
**Prif Weithredwr a Swyddog Cyfrifyddu**

## Presenoldeb yng nghyfarfodydd Bwrdd a Phwyllgorau Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd EM 2014-15

| | Bwrdd Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd EM | | Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg | | Is-bwyllgor Newid a Moderneiddio | | Pwyllgor Iechyd a Diogelwch | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | Nifer y cyfarfodydd a fynychwyd | Nifer y cyfarfodydd cymwys | Nifer y cyfarfodydd a fynychwyd | Nifer y cyfarfodydd cymwys | Nifer y cyfarfodydd a fynychwyd | Nifer y cyfarfodydd cymwys | Nifer y cyfarfodydd a fynychwyd | Nifer y cyfarfodydd cymwys |
| Robert Ayling - Cadeirydd Annibynnol | **11** | **12** | | | | | | |
| Francis Dobbyn – Aelod Anweithredol o'r Bwrdd a Chadeirydd y Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg (rhwng 1 Ebrill a'r 31 Mawrth) | **11** | **12** | **6** | **6** | | | | |
| Victoria Cochrane – Aelod Anweithredol o'r Bwrdd (Ers 1 Tachwedd 2014) | **6** | **6** | **1** | **1** | | | | |
| Rachel Osborne – Aelod Anweithredol o'r Bwrdd (Ers 1 Awst 2014) | **6** | **8** | | | | | | |
| Ian Playford – Aelod Anweithredol o'r Bwrdd (Ers 1 Awst, 2014) | **8** | **8** | | | | | | |
| Yr Arglwydd Ustus Sullivan - Uwch Lywydd y Tribiwnlysoedd[7] | **9** | **12** | | | | | | |
| Yr Arglwydd Ustus Gross - Uwch Farnwr Llywyddol | **11** | **12** | | | | | | |
| Y Barnwr Rhanbarth Michael Walker – Aelod Barnwrol | **12** | **12** | **6** | **6** | | | | |
| Peter Handcock - Prif Weithredwr (Rhwng 1 Ebrill a'r 31 Rhagfyr 2014) | **8** | **8** | **3** | **5** | | | | |
| Natalie Ceeney - Prif Weithredwr (Ers 5 Ionawr 2015) | **4** | **4** | **1** | **1** | | | | |
| Steve Gillespie - Cyfarwyddwr Cyllid a Llywodraethu | **12** | **12** | **6** | **6** | **7** | **7** | **2** | **2** |
| Guy Tompkins - Cyfarwyddwr Troseddu | **9** | **12** | | | **6** | **7** | | |
| Kevin Sadler - Cyfarwyddwr Sifil, Teulu a Thribiwnlysoedd | **12** | **12** | | | **7** | **7** | | |
| Sarah Albon – Cyfarwyddwr Strategaeth a Newid tan Ionawr 2015 | | | | | **6** | **7** | | |

[7] Roedd Uwch Lywydd y Tribiwnlysoedd wedi'i gynrychioli gan HHJ Sycamore, gydag awdurdod dirprwyedig llawn, mewn dau gyfarfod o'r Bwrdd

| | Bwrdd Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd EM | | Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg | | Is-bwyllgor Newid a Moderneiddio | | Pwyllgor Iechyd a Diogelwch | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | Nifer y cyfarfodydd a fynychwyd | Nifer y cyfarfodydd cymwys | Nifer y cyfarfodydd a fynychwyd | Nifer y cyfarfodydd cymwys | Nifer y cyfarfodydd a fynychwyd | Nifer y cyfarfodydd cymwys | Nifer y cyfarfodydd a fynychwyd | Nifer y cyfarfodydd cymwys |
| Dileeni Daniel-Selvaratnam – Dirprwy Gyfarwyddwr Strategaeth a Newid | | | | | **5** | **7** | | |
| Chris Ball – Cyfarwyddwr Adnoddau Dynol tan Hydref 2014 | | | | | **3** | **5** | | |
| Rod Davies – Cyfarwyddwr Adnoddau Dynol o fis Tachwedd 14 ymlaen | | | | | **2** | **2** | | |
| Paul Shipley – Cyfarwyddwr TG | | | | | **6** | **7** | | |
| HHJ Sycamore – Cynrychiolydd Barnwrol tan fis Gorffennaf 14 | | | | | **3** | **4** | | |
| Y Barnwr John Aitken o fis Medi 14 ymlaen | | | | | **2** | **3** | | |
| Lucy Garrod – Cyfarwyddwr Darparu, Canolbarth Lloegr | | | | | **7** | **7** | | |
| Cynrychiolydd o dîm rheoli'r Swyddfa Brosiectau | | | | | **7** | **7** | | |
| Y Barnwr Nick Warren – Aelod Barnwrol (Rhwng 1 Ebrill a'r 31 Rhagfyr 2015) | | | **5** | **5** | | | | |
| Y Barnwr Brian Doyle (Ers 5 Ionawr 2015) | | | **1** | **1** | | | | |
| Penny Seera – Pennaeth Cyfrifon Ariannol a Llywodraethu a Sicrwydd | | | **4** | **6** | | | | |
| Andrea Emms – Pennaeth Risg a Sicrwydd | | | **3** | **4** | | | | |
| Tim Watkinson – Pennaeth Archwilio Mewnol a Sicrwydd y MoJ | | | **6** | **6** | | | | |
| Y Swyddfa Archwilio Genedlaethol | | | **6** | **6** | | | | |
| Cynrychiolydd Cyllid Newid | | | | | **7** | **7** | | |
| Cynrychiolydd Gogledd Ddwyrain Lloegr | | | | | | | **2** | **2** |
| Cynrychiolydd Gogledd Orllewin Lloegr | | | | | | | **2** | **2** |
| Cynrychiolydd Canolbarth Lloegr | | | | | | | **2** | **2** |

| | **Bwrdd Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd EM** | | **Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg** | | **Is-bwyllgor Newid a Moderneiddio** | | **Pwyllgor Iechyd a Diogelwch** | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | Nifer y cyfarfodydd a fynychwyd | Nifer y cyfarfodydd cymwys | Nifer y cyfarfodydd a fynychwyd | Nifer y cyfarfodydd cymwys | Nifer y cyfarfodydd a fynychwyd | Nifer y cyfarfodydd cymwys | Nifer y cyfarfodydd a fynychwyd | Nifer y cyfarfodydd cymwys |
| Cynrychiolydd De Orllewin Lloegr | | | | | | | **2** | **2** |
| Cynrychiolydd De Ddwyrain Lloegr | | | | | | | **2** | **2** |
| Cynrychiolydd Rhanbarth Llundain | | | | | | | **1** | **2** |
| Cynrychiolydd Cymru | | | | | | | **2** | **2** |

# 8. Tystysgrif ac Adroddiad Rheolwr ac Archwilydd Cyffredinol Tŷ'r Cyffredin

Rwyf yn ardystio fy mod wedi archwilio datganiadau ariannol Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd EM am y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2015 o dan Ddeddf Adnoddau a Chyfrifon y Llywodraeth 2000. Mae'r datganiadau ariannol yn cynnwys: y Datganiadau o Wariant Net Cynhwysfawr, y Sefyllfa Ariannol, Llif Arian, Newid mewn Ecwiti Trethdalwyr; a'r nodiadau cysylltiedig. Paratowyd y datganiadau ariannol hyn o dan y polisïau cyfrifyddu a osodir allan ynddynt. Rwyf hefyd wedi archwilio'r wybodaeth yn yr Adroddiad Taliadau a ddisgrifir yn yr adroddiad hwnnw i fod wedi cael ei harchwilio.

**Priod gyfrifoldebau'r Swyddog Cyfrifyddu a'r Archwilydd**

Fel yr eglurir yn fwy manwl yn y Datganiad o Gyfrifoldebau'r Swyddog Cyfrifyddu, mae'r Swyddog Cyfrifyddu'n gyfrifol am baratoi'r datganiadau ariannol ac am fodloni ei hun eu bod yn rhoi darlun gwir a theg. Fy nghyfrifoldeb i yw archwilio, ardystio ac adrodd ar y datganiadau ariannol yn unol â Deddf Adnoddau a Chyfrifon y Llywodraeth 2000. Rwyf wedi cyflawni fy archwiliad yn unol â'r Safonau Archwilio Rhyngwladol (y DU ac Iwerddon). O dan y safonau hyn, rhaid i mi a fy staff gydymffurfio â Safonau Moesegol y Bwrdd Arferion Archwilio ar gyfer Archwilwyr.

**Sgôp yr archwiliad o'r datganiadau ariannol**

Mae archwiliad yn cynnwys cael gafael ar dystiolaeth foddhaol ar y symiau a'r datgeliadau yn y datganiadau ariannol i roi sicrwydd rhesymol bod y datganiadau ariannol yn rhydd o unrhyw gamddatganiad pwysig, p'un ai drwy dwyll neu gamgymeriad.  Mae hyn yn cynnwys asesu: a yw'r polisïau cyfrifyddu'n briodol i amgylchiadau Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd EM ac wedi cael eu cymhwyso'n gyson a'u datgelu'n foddhaol; pa mor rhesymol yw'r amcangyfrifon cyfrifyddu sylweddol a wnaed gan Wasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd EM; a chyflwyniad y datganiadau ariannol yn gyffredinol. Yn ogystal, rwyf yn darllen yr holl wybodaeth ariannol ac anariannol yn yr adroddiad blynyddol i weld a oes unrhyw anghysondeb sylweddol yn y datganiadau cyfrifyddu a archwiliwyd, ac i nodi unrhyw wybodaeth sydd i bob golwg yn sylweddol anghywir ar sail, neu sy'n sylweddol anghyson, â'r wybodaeth y deuthum ar ei thraws wrth gyflawni'r archwiliad. Os dof yn ymwybodol o unrhyw gam-ddatganiad neu anghysondeb sylweddol, rwyf yn ystyried beth yw goblygiadau'r rhain i fy nhystysgrif.

Yn ogystal, mae'n ofynnol i mi gael gafael ar dystiolaeth ddigonol i roi sicrwydd rhesymol bod y gwariant a'r incwm a adroddir arnynt yn y datganiadau ariannol wedi eu cymhwyso i'r pwrpasau y cawsant eu bwriadu ar eu cyfer gan y Senedd a bod y trafodion ariannol a gofnodir yn y datganiadau ariannol yn cydymffurfio â'r awdurdodau sy'n eu llywodraethu.

**Barn am reoleidd-dra**

Yn fy marn i, ac ym mhob cyswllt o bwys, mae'r gwariant a'r incwm a gofnodir yn y datganiadau ariannol wedi eu cymhwyso i'r pwrpasau y cawsant eu bwriadu ar eu cyfer gan y Senedd ac mae'r trafodion ariannol a gofnodir yn y datganiadau ariannol yn cydymffurfio â'r awdurdodau sy'n eu llywodraethu.

**Barn am y datganiadau ariannol**

Yn fy marn i:

- mae'r datganiadau ariannol yn rhoi darlun gwir a theg o gyflwr busnes Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd EM ar 31 Mawrth 2015, ac o'r gost weithredu net am y flwyddyn a ddaeth i ben bryd hynny; a
- mae'r datganiadau ariannol wedi cael eu paratoi'n briodol yn unol â Deddf Adnoddau a Chyfrifon y Llywodraeth 2000 a chyfarwyddiadau a wnaed o dan y Ddeddf honno gan Drysorlys EM.

**Barn am faterion eraill**

Yn fy marn i:

- mae'r rhan o'r Adroddiad Taliadau sydd i'w harchwilio wedi'i pharatoi'n briodol ac yn unol â chyfarwyddiadau gan Drysorlys EM a wnaed o dan Ddeddf Adnoddau a Chyfrifon y Llywodraeth 2000; a
- mae'r wybodaeth a roddwyd yn yr Adroddiad Strategol a'r Sylwebaeth Reoli am y flwyddyn ariannol y paratowyd y datganiadau ariannol ar ei chyfer yn gyson â'r datganiadau ariannol.

**Materion yr adroddaf arnynt fel eithriadau**

Nid oes gennyf unrhyw beth i'w adrodd yng nghyswllt y materion canlynol y byddwn yn eu hadrodd i chi os, yn fy marn i:

- ni chafodd gofnodion cyfrifyddu digonol eu cadw neu ni dderbyniwyd ffurflenni blynyddol digonol ar gyfer fy archwiliad gan ganghennau na chawsant ymweliad gan fy staff; neu
- nid yw'r datganiadau ariannol a'r rhan o'r Adroddiad Taliadau sydd i'w harchwilio yn gyson â'r cofnodion cyfrifyddu neu'r ffurflenni blynyddol; neu
- nid wyf wedi derbyn yr holl wybodaeth a'r esboniadau sydd eu hangen arnaf ar gyfer fy archwiliad; neu
- nid yw'r Datganiad Llywodraethu'n adlewyrchu ei fod yn cydymffurfio â chanllawiau Trysorlys EM.

**Adroddiad**

Nid oes gennyf unrhyw sylw i'w wneud ar y datganiadau ariannol hyn.

**Syr Amyas C E Morse**
**Rheolwr ac Archwilydd Cyffredinol**

**9 Mehefin 2015**

Y Swyddfa Archwilio Genedlaethol
157-197 Buckingham Palace Road
Llundain
SW1W 9SP

# 9. Cyfrifon

## Datganiad o wariant net cynhwysfawr am y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2015

| | Nodiadau | 2014-15 | 2013-14 |
|---|---|---|---|
| | | £000 | £000 |
| **Costau gweinyddol:** | | | |
| Costau staff a'r farnwriaeth | 3 | 16,222 | 16,083 |
| Costau gweinyddol eraill | 4.1 | 47,974 | 52,499 |
| | | 64,196 | 68,582 |
| Incwm | 5 | (500) | (807) |
| **Costau gweinyddol net** | | **63,696** | **67,775** |
| | | | |
| **Costau rhaglen:** | | | |
| Costau staff a'r farnwriaeth | 3 | 942,499 | 978,539 |
| Costau rhaglen eraill | 4.1 | 762,963 | 801,117 |
| Costau cyllid | 4.2 | 25,105 | 18,358 |
| | | 1,730,567 | 1,798,014 |
| Incwm | 5 | (696,778) | (636,834) |
| **Costau rhaglen net** | | **1,033,789** | **1,161,180** |
| **Costau gweithredu net** | | **1,097,485** | **1,228,955** |


## Gwariant cynhwysfawr arall

| | Nodiadau | 2014-15 | 2013-14 |
|---|---|---|---|
| | | £000 | £000 |
| Costau gweithredu net | | 1,097,485 | 1,228,955 |
| (Elw) net ar ôl ailbrisio eiddo, cyfarpar ac asedau anniriaethol | | (187,371) | (147,934) |
| Colledion actiwaraidd ar rwymedigaethau cynlluniau pensiwn | 14.2 | 221 | 504 |
| **Cyfanswm y gwariant cynhwysfawr** | | **910,335** | **1,081,525** |

Mae'r nodiadau ar dudalennau 60 i 105 yn ffurfio rhan o'r cyfrifon hyn.

## Datganiad o’r sefyllfa ariannol ar 31 Mawrth 2015

| | Nodiadau | 31 Mawrth 2015 | 31 Mawrth 2014 |
|---|---|---|---|
| | | £000 | £000 |
| **Asedau anghyfredol** | | | |
| Eiddo a chyfarpar | 6 | 3,164,065 | 2,958,991 |
| Asedau anniriaethol | 8 | 43,770 | 49,683 |
| Derbyniadau masnachol ac eraill | 10 | 43 | 188 |
| **Cyfanswm yr asedau anghyfredol** | | **3,207,878** | **3,008,862** |
| **Asedau cyfredol** | | | |
| Asedau a ddelir i’w gwerthu | 7 | 9,673 | 17,854 |
| Derbyniadau masnachol ac eraill | 10 | 105,945 | 83,854 |
| Arian parod a symiau cyfwerth | 11 | 22,602 | 25,691 |
| **Cyfanswm yr asedau cyfredol** | | **138,220** | **127,399** |
| **Cyfanswm asedau** | | **3,346,098** | **3,136,261** |
| **Rhwymedigaethau cyfredol** | | | |
| Taladwyon masnachol ac eraill | 12 | (292,799) | (256,611) |
| Darpariaethau ar gyfer rhwymedigaethau a thaliadau | 14 | (10,865) | (11,866) |
| **Cyfanswm y rhwymedigaethau cyfredol** | | **(303,664)** | **(268,477)** |
| **Cyfanswm yr asedau llai rhwymedigaethau cyfredol** | | **3,042,434** | **2,867,784** |
| **Rhwymedigaethau anghyfredol** | | | |
| Taladwyon masnachol ac eraill | 12 | (399,836) | (421,807) |
| Darpariaethau ar gyfer rhwymedigaethau a thaliadau | 14 | (136,387) | (133,378) |
| **Cyfanswm y rhwymedigaethau anghyfredol** | | **(536,223)** | **(555,185)** |
| **Cyfanswm yr asedau llai cyfanswm y rhwymedigaethau** | | **2,506,211** | **2,312,599** |
| **Ecwiti trethdalwyr** | | | |
| Y Gronfa Gyffredinol | | 1,894,355 | 1,864,611 |
| Cronfeydd ailbrisio | | 611,856 | 447,988 |
| **Cyfanswm ecwiti trethdalwyr** | | **2,506,211** | **2,312,599** |



**Natalie Ceeney**
**Prif Weithredwr**
**8 Mehefin 2015**

Mae'r nodiadau ar dudalennau 60 i 105 yn ffurfio rhan o'r cyfrifon hyn.

## Datganiad llif arian am y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2015

| | Nodiadau | 2014-15 | 2013-14 |
|---|---|---|---|
| | | £000 | £000 |
| **Llifau arian o weithgareddau gweithredu** | | | |
| Costau gweithredu net | | (1,097,485) | (1,228,955) |
| Addasiadau ar gyfer trafodion tybiannol a heb fod yn arian parod | 13 | 293,224 | 353,898 |
| Costau cyllid | 4.2 | 25,105 | 18,358 |
| (Cynnydd) mewn derbyniadau masnachol ac eraill | | (98,431) | (36,405) |
| Cynnydd / (lleihad) mewn taladwyon masnachol ac eraill | | 202,842 | 130,178 |
| Defnydd o ddarpariaethau | 14 | (8,133) | (12,535) |
| **All-lif arian parod net o weithgareddau gweithredu** | | **(682,878)** | **(775,461)** |
| | | | |
| **Llifau arian o weithgareddau buddsoddi** | | | |
| Pryniannau eiddo a chyfarpar | 13.1 | (43,902) | (66,470) |
| Enillion o waredu eiddo, cyfarpar ac asedau a ddelir i'w gwerthu | | 16,159 | 18,180 |
| Prynu asedau anniriaethol | 8 | (5) | (339) |
| **All-lif arian net o weithgareddau buddsoddi** | | **(27,748)** | **(48,629)** |
| | | | |
| **Llifau arian o weithgareddau cyllido** | | | |
| Cyllid gan y MoJ | | 729,000 | 930,000 |
| Elfen gyfalaf o gontractau Mentrau Cyllid Preifat (PFI) | | (8,926) | (8,926) |
| Elfen gyfalaf y prydlesi cyllid | | (109) | 46 |
| Ad-daliadau o fenthyciadau Awdurdod Lleol | | (2,717) | (3,191) |
| Llog a dalwyd | 4.2 | (9,711) | (10,754) |
| **Llif arian net o weithgareddau cyllido** | | **707,537** | **907,175** |
| | | | |
| **Cynnydd / (lleihad) net mewn arian parod a symiau cyfwerth ag arian parod dros y cyfnod** | 11 | **(3,089)** | **83,085** |
| **Arian parod a symiau cyfwerth ag arian parod ar ddechrau'r cyfnod** | 11 | **25,691** | **(57,394)** |
| **Arian parod a symiau cyfwerth ag arian parod ar ddiwedd y cyfnod** | 11 | **22,602** | **25,691** |

Mae'r nodiadau ar dudalennau 60 i 105 yn ffurfio rhan o'r cyfrifon hyn.

## Datganiad o newidiadau mewn ecwiti trethdalwyr am y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2015

| | Nodiadau | Y Gronfa Gyffredinol | Cronfeydd ailbrisio | Cyfanswm |
|---|---|---|---|---|
| | | £000 | £000 | £000 |
| **Balans ar 31 Mawrth 2013** | | **1,805,047** | **315,875** | **2,120,922** |
| Cyllid gan y Weinyddiaeth Cyfiawnder (MoJ) | | 930,000 | – | 930,000 |
| Setliad rhyng-gwmni â'r MoJ | | 114,155 | – | 114,155 |
| Costau gweithredu net | 6 | (1,228,955) | – | (1,228,955) |
| Addasiad ar gyfer asedau anghyfredol: Trosglwyddiadau i mewn gan gyrff cyhoeddus eraill | | 3,627 | – | 3,627 |
| Costau tybiannol: | | | – | |
| Cyflogau barnwrol o'r gronfa gyfunol | 13 | 140,846 | – | 140,846 |
| Tâl archwilwyr allanol | 13 | 350 | – | 350 |
| Taliadau adrannol yr ail-godwyd amdanynt | 13 | 84,224 | – | 84,224 |
| Ailbrisio eiddo, cyfarpar ac eiddo buddsoddi | | – | 147,934 | 147,934 |
| Enillion actiwaraidd ar rwymedigaethau cynlluniau pensiwn | 14.2 | (504) | – | (504) |
| Ail-ddosbarthu o'r cronfeydd ailbrisio | | 15,821 | (15,821) | – |
| **Balans ar 31 Mawrth 2014** | | **1,864,611** | **447,988** | **2,312,599** |
| Cyllid gan y MoJ | | 729,000 | – | 729,000 |
| Setliad rhyng-gwmni â'r MoJ | | 132,146 | – | 132,146 |
| Costau gweithredu net | | (1,097,485) | – | (1,097,485) |
| Costau tybiannol: | | | – | |
| Cyflogau barnwrol o'r gronfa gyfunol | 13 | 140,520 | – | 140,520 |
| Tâl archwilwyr allanol | 13 | 320 | – | 320 |
| Taliadau adrannol yr ail-godwyd amdanynt | 13 | 101,961 | – | 101,961 |
| Ailbrisio eiddo, cyfarpar ac asedau anniriaethol | | | 187,371 | 187,371 |
| Enillion actiwaraidd ar rwymedigaethau cynlluniau pensiwn | 14.2 | (221) | | (221) |
| Ail-ddosbarthu o'r cronfeydd ailbrisio | | 23,503 | (23,503) | – |
| **Balans ar 31 Mawrth 2015** | | **1,894,355** | **611,856** | **2,506,211** |

Mae'r nodiadau ar dudalennau 60 i 105 yn ffurfio rhan o'r cyfrifon hyn.

# Nodiadau ar y Cyfrifon am y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2015

## 1 Datganiad o’r polisïau cyfrifyddu

Paratowyd y Cyfrifon hyn yn unol â Llawlyfr Adroddiadau Ariannol y Llywodraeth (FReM) am 2014-15 a gyhoeddir gan Drysorlys EM. Mae’r polisïau cyfrifyddu yn yr FReM yn cymhwyso Safonau Rhyngwladol ar Adrodd Ariannol (IFRS) fel y dehonglir ar gyfer y sector cyhoeddus.

Lle mae’r FReM yn caniatáu dewis polisi cyfrifyddu, dewiswyd y polisi cyfrifyddu y tybiwyd iddo fod yr un mwyaf priodol ar gyfer amgylchiadau arbennig Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd EM er mwyn gallu rhoi darlun gwir a theg. Disgrifir y polisïau penodol a fabwysiadwyd gan Wasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd EM isod. Maent wedi cael eu cymhwyso’n gyson wrth ymdrin ag eitemau yr ystyriwyd hwynt i fod yn bwysig yng nghyswllt y cyfrifon.

### 1.1 Y Confensiwn Cyfrifyddu

Paratowyd cyfrifon Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd EM o dan y confensiwn cost hanesyddol, wedi’u haddasu i gyfrif am ailbrisio eiddo a chyfarpar ac asedau anniriaethol ynghyd ag asedau a rhwymedigaethau ariannol penodol.

Mae paratoi'r cyfrifon drwy gydymffurfio â’r IFRS yn gofyn defnyddio amcangyfrifon cyfrifyddu beirniadol penodol (gweler nodyn 1.16). Mae hefyd yn gofyn bod rheolwyr yn ymarfer eu barn yn y broses o gymhwyso’r polisïau cyfrifyddu.

### 1.2 Rhaglen a gweinyddiaeth Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd EM

Dadansoddir y datganiad o wariant net cynhwysfawr (SoCNE) rhwng incwm a gwariant rhaglen a gweinyddol. Mae dosbarthiad yr incwm a’r gwariant yn weinyddol a rhaglen yn dilyn y diffiniad o gostau gweinyddol fel y caiff ei ddisgrifio yn yr Adolygiad o Wariant gan Drysorlys EM. Mae gwariant gweinyddol yn adlewyrchu cost gweithgareddau cymorth fel gwasanaethau cymorth busnes a gweinyddol. Mae gwariant rhaglen yn adlewyrchu costau sy’n uniongyrchol gysylltiedig â darparu gwasanaethau rheng flaen.

### 1.3 Newidiadau i’r polisi cyfrifyddu, a datgeliadau

**a) Newidiadau i bolisïau cyfrifyddu**

Nid oedd unrhyw newid i bolisïau cyfrifyddu Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd EM yn ystod y flwyddyn.

**b) Mabwysiadu safonau newydd a diwygiedig**

Cafodd IFRS 10 ‘Datganiadau Ariannol Cyfunol’ ei gyhoeddi ar y cyd ag IFRS 11 ‘Trefniadau ar y Cyd’, IFRS 12 ‘Datgelu Buddiannau mewn Endidau Eraill’, a diwygiadau i IAS 27 ‘Datganiadau Ariannol Ar Wahân’ ac IAS 28 ‘Buddsoddi mewn Cwmnïau Cyswllt a Mentrau Ar y Cyd’. Daw addasiad FReM o’r safonau hyn i'w cymhwyso ar gyfer y sector cyhoeddus i rym o’r 1 Ebrill 2014 ymlaen.

Nid yw'r safonau newydd a diwygiedig uchod yn berthnasol i Wasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd EM am y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2015.

**c) Safonau newydd, diwygiadau a dehongliadau a gyhoeddwyd ond heb ddod i rym am y flwyddyn ariannol yn dechrau ar 1 Ebrill 2014 a heb gael eu mabwysiadu’n fuan**

Ni ddisgwylir i safonau newydd na ddaethant eto i rym gael effaith o bwys ar gyfrifon Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd EM yn y dyfodol.

## 1.4 Incwm

Incwm gweithredu yw incwm yn ymwneud yn uniongyrchol â gweithgareddau gweithredu Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd EM ac sydd felly'n cael eu cydnabod fel refeniw yn y SoCNE.

Yn bennaf mae'n cynnwys incwm o ffioedd am wasanaethau a ddarperir i gwsmeriaid, a chostau sy'n cael eu hadennill gan adrannau eraill y llywodraeth. Mae incwm gweithredu arall yn cynnwys ffioedd beilïaid, incwm rhent ac amrywiol dderbynebau (er enghraifft o werthu cyhoeddiadau). Rhoddir yr incwm net o TAW.

Mae cyllid gan y MoJ yn cael ei gredydu'n uniongyrchol i'r Gronfa Gyffredinol yn unol â gofynion FReM.

## 1.5 Incwm o ffioedd

Mae incwm o ffioedd yn cynnwys symiau am wasanaethau a roddwyd i ddefnyddwyr llysoedd a thribiwnlysoedd sifil a theulu. Mae gwerth incwm lle derbyniwyd tâl ond nid yw'r gwaith wedi'i gwblhau eto'n cael ei gydnabod yn y Datganiad o'r Sefyllfa Ariannol (SoFP) fel incwm gohiriedig. Mae'r incwm gohiriedig yna'n cael ei gydnabod fel incwm ar ôl cwblhau'r gwasanaeth.

Mae pryd y mae'r refeniw'n cael ei gydnabod yn dibynnu ar natur ac amgylchiadau'r gwasanaeth unigol sy'n cael ei ddarparu. Ar gyfer y rhan fwyaf o ffrydiau incwm, y gwasanaeth sy'n cael ei ddarparu gan Wasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd EM yw cychwyn y cais, sy'n digwydd yn syth ar ôl derbyn y cais. Felly, mae'r ffi sy'n dod gyda'r cais yn cael ei chydnabod fel incwm yn syth ar ôl ei derbyn.

Ar gyfer rhai ffrydiau incwm, fel gwarantau ac asesiadau, gwneir amcangyfrif o'r cyfnod o amser y gwneir cais ynddo (wythnos fel arfer) ac mae'r elfen ohiriedig yn cael ei phenderfynu ar sail hynny.

Ar gyfer ffrydiau incwm ffioedd eraill, fel deisebau, apeliadau a phrofiant, cedwir cofnodion penodol ar ba wasanaethau sydd heb eu darparu a phenderfynir yr incwm gohiriedig yn uniongyrchol ar sail y rhain.

Mae incwm o ffioedd yn cael ei ddatgan fel ffigur net ar ôl ystyried ffioedd wedi eu heithrio a'u dileu (REMEX). Mae'r cynllun REMEX wedi'i ragnodi yn y Gorchmynion Ffioedd a gymeradwyir gan y Senedd ac nid yw Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd EM yn casglu ffioedd wedi eu hepgor. Cytunir ar nod ariannol y broses o adennill costau llawn ar ôl ystyried REMEX gyda Thrysorlys EM er mwyn sicrhau na wrthodir mynediad at gyfiawnder i unigolion na fedrant fforddio'r ffioedd rhagnodedig.

## 1.6 Datganiad Ymddiriedolaeth Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd EM

Mae Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd EM, fel Asiantaeth Weithredol yr MoJ sy'n gyfrifol am gasglu dirwyon a chosbau ariannol a osodir gan y system cyfiawnder troseddol, yn paratoi Datganiad Ymddiriedolaeth annibynnol y dylid ei ddarllen ar y cyd ag Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd EM.

Mae'r Datganiad Ymddiriedolaeth yn rhoi cyfrif am y dirwyon a'r cosbau a roddwyd gan y system cyfiawnder troseddol fel refeniw i'w dalu yn y pen draw i'r Gronfa Gyfunol, ar sail gros. Mae hefyd yn rhoi cyfrif am yr arian parod a'r balansau sy'n daladwy i'r Gronfa Gyfunol a thrydydd partïon yng nghyswllt casglu symiau dirwy a chosb.

## 1.7 Taliadau heb fod yn arian parod

Mae taliadau heb fod yn arian parod yn y SoCNE yn cynnwys taliadau i'r archwilwyr allanol, sef cost y Swyddfa Archwilio Genedlaethol am archwilio cyfrifon Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd EM a Datganiad Ymddiriedolaeth Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd EM, a thaliadau gorbenion adrannol yr ailgodir Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd EM amdanynt gan y MoJ.

Mae taliadau eraill heb fod yn arian parod yn cynnwys costau cyflogau a nawdd cymdeithasol uwch farnwyr sydd, oherwydd eu bod yn annibynnol i Wasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd EM, yn cael eu

hariannu o’r Gronfa Gyfunol. Mae uwch farnwyr hefyd yn derbyn taliadau am wasanaeth hir o dan gytundeb gyda'r MoJ. Mae darpariaeth ar gyfer y taliadau hyn yng nghyfrifon adnoddau’r MoJ.

## 1.8 Segmentau gweithredu

Dadansoddir segmentau gweithredu’n unol ag IFRS 8 ‘Segmentau Gweithredu’ ynghyd â’r llinellau gwybodaeth a gyflwynir i’r Prif Wneuthurwr Penderfyniadau Gweithredu (CODM) sef y Prif Weithredwr i bwrpas y cyfrifon hyn. Mae’r CODM yn gyfrifol am ddyrannu adnoddau ac am asesu perfformiad y segmentau gweithredu.

## 1.9 Cydnabod eiddo a chyfarpar

Caiff eitemau eiddo a chyfarpar, gan gynnwys gwariant dilynol ar asedau presennol, eu cydnabod i ddechrau ar sail cost pan fo’n debygol y bydd y manteision economaidd neu botensial gwasanaeth sy’n gysylltiedig â’r ased yn y dyfodol yn llifo i Wasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd EM a gellir mesur cost yr ased yn ddibynadwy. Mae’r holl waith trwsio a chynnal a chadw arall yn cael ei godi ar y SoCNE yn ystod y cyfnod ariannol pryd y caiff ei achosi.

**Trothwy cyfalafu – asedau unigol**

Y trothwy ar gyfer asedau unigol yw £10,000 (gan gynnwys TAW na ellir ei adennill).

**Trothwy cyfalafu – asedau grŵp**

Lle mae asedau unigol sylweddol yn cael eu prynu sydd, yn unigol, o dan y trothwy cyfalafu, ac mewn cysylltiad ag un prosiect, ymdrinnir â hwynt fel ased grŵp.

Mae asedau grŵp fel arfer yn cynnwys:

- system integredig o gyfarpar amrywiol a ddyfeisiwyd i gynnig ateb penodol, er enghraifft prosiect adnewyddu cyfarpar Technoleg Gwybodaeth (TG)
- lle mae dodrefn neu gyfarpar TG sylweddol yn cael ei brynu ar gyfer un safle, neu
- Rhaglenni adnewyddu TG a dodrefn.

Trothwy Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd EM ar gyfer asedau grŵp yw £1m (gan gynnwys TAW na ellir ei adennill). Lle mae eitem yn costio llai na’r trothwy rhagnodedig, ond mae’n rhan annatod o becyn cyfan sy’n werth mwy na’r lefel gyfalafu, yna caiff yr eitem ei thrin fel ased diriaethol sefydlog.

**Prisio tir ac adeiladau (gan gynnwys tai annedd)**

Ar ôl eu cydnabod i ddechrau, mae tir ac adeiladau (gan gynnwys tai annedd) yn cynnwys cyfleusterau llys yn bennaf. Mae tir ac adeiladau’n cael eu cynnwys ar sail eu gwerth teg, fel y dehonglir hwynt gan y FReM, ar sail prisiadau proffesiynol a gyflawnir am bob eiddo o leiaf unwaith bob pum mlynedd.

Cyflawnir prisiadau proffesiynol yn bennaf gan Asiantaeth y Swyddfa Brisio (VOA) drwy ddefnyddio Llawlyfr Gwerthuso a Phrisio Sefydliad Brenhinol y Syrfewyr Siartredig (RICS), neu’r ‘Llyfr Coch’ fel y’i gelwir. Rhwng prisiadau proffesiynol, caiff gwerthoedd llyfr eu haddasu drwy gymhwyso mynegeion neu drwy wneud prisiadau pen-desg.

Dosbarthir llysoedd troseddol gan amlaf fel adeiladau arbenigol na ellir eu gwerthu ar y farchnad agored. Caiff eiddo arbenigol ei brisio ar sail cost ei adnewyddu fel a ddibrisiwyd (DRC) a’i gyfwerth modern yn unol â’r Llyfr Coch, wedi ystyried faint y mae’r eiddo wedi darfod o ran swyddogaeth. Caiff gwelliannau lesddaliad eu prisio’n deg drwy ddefnyddio Mynegai Prisiau Tendro’r Gwasanaeth Gwybodaeth Costau Adeiladu fel a gyflenwir gan RICS.

Ar gyfer asedau eiddo eraill sy’n parhau i gael eu defnyddio, dehonglir eu gwerth teg fel gwerth marchnad eu defnydd presennol. Yn y Llyfr Coch diffinnir hyn fel ‘gwerth marchnad ar y dybiaeth y gwerthir yr eiddo fel rhan o’r busnes parhaus sydd mewn meddiant’. ‘Gwerth mewn

defnydd' ased nad yw'n cynhyrchu arian parod yw gwerth presennol gweddill ei photensial gwasanaeth, y gellir tybio iddo fod o leiaf cyfwerth â'r gost o adnewyddu'r potensial gwasanaeth hwnnw.

**Prisio asedau a ddelir i'w gwerthu**

Mae asedau heb fod yn gyfredol yn cael eu dosbarthu fel rhai 'a ddelir i'w gwerthu' pan fwriedir adennill eu gwerth llyfr, yn bennaf drwy werthu ac mae'r gwerthiant hwnnw'n debygol iawn. Mae asedau a ddelir i'w gwerthu'n cael eu datgan naill ai ar sail eu gwerth llyfr yn syth cyn eu dosbarthu fel rhai 'a ddelir i'w gwerthu' neu ar sail eu gwerth teg llai costau eu gwerthu, pa un bynnag sydd isaf. Mae unrhyw amhariad ar ôl hynny, neu amhariad wedi'i wrthdroi , yn cael ei gydnabod yn y SoCNE. Nid yw asedau sydd wedi eu dosbarthu fel rhai a ddelir i'w gwerthu'n cael eu dibrisio.

**Prisio asedau eraill**

Mae asedau eraill yn cynnwys technoleg gwybodaeth, cyfarpar, dodrefn, ffitiadau a gosodion. Caiff yr asedau hyn eu cynnwys ar sail eu cost pan brynir hwynt a'u hail-ddatgan ar bob dyddiad adrodd yn defnyddio'r Mynegai Prisiau Cynhyrchydd a gynhyrchir gan y Swyddfa Ystadegau Gwladol (ONS).

Cyfrifir am asedau eraill a ail-brisir, a chostau o ganlyniad, yn gyson â'r dull uchod a ddefnyddir ar gyfer tir ac adeiladau.

**Asedau ar ganol eu creu**

Mae asedau ar ganol eu creu'n cael eu prisio ar sail eu cost hanesyddol o fewn eiddo, peiriannau a chyfarpar ac nid ydynt yn cael eu dibrisio. Mae gwariant perthnasol fel costau ymgynghorwyr allanol, costau gweithwyr perthnasol, a chyfran briodol o'r gorbenion perthnasol, yn cael ei gyfalafu lle gellir ei briodoli'n uniongyrchol i ddod ag ased i gyflwr gweithio.

Mae ased yn peidio â chael ei dosbarthu fel ased ar ganol ei chreu pan fydd yn barod i'w defnyddio. Mae ei gwerth llyfr yna'n cael ei ddileu o'r asedau ar ganol eu creu a'i drosglwyddo i'r categori asedau perthnasol. Mae'r dibrisiad yna'n cael ei godi ar yr ased yn unol â'r polisi dibrisio.

**Ailbrisio**

Pan fydd gwerth llyfr ased yn cynyddu o ganlyniad i'w hailbrisio, caiff unrhyw weddill wrth ei hailbrisio ei gredydu i wariant cynhwysfawr arall a'i gronni'n uniongyrchol mewn ecwiti trethdalwyr o dan bennawd y Gronfa Ailbrisio. Eithriad i hyn yw unrhyw enillion wrth ailbrisio sy'n gwrthdroi lleihad wrth ailbrisio'r un ased a gofnodwyd yn flaenorol fel traul. Caiff yr enillion hyn eu credydu'n gyntaf o fewn y gost weithredu net yn y SoCNE i'r graddau fel bo'r enillion yn gwrthdroi colled a gofnodwyd yn flaenorol o fewn y gost weithredu net yn y SoCNE.

Pan fydd gwerth llyfr ased yn lleihau o ganlyniad i ostyngiad parhaol yng ngwerth yr ased oherwydd defnydd clir o'r budd economaidd neu'r potensial gwasanaeth, mae'r lleihad yn cael ei godi'n uniongyrchol ar 'Gostau Gweithredu Eraill' yn y SoCNE, gydag unrhyw falans sy'n weddill yn y Cronfeydd Ailbrisio'n cael ei ryddhau i'r Gronfa Gyffredinol.

Pan fydd gwerth llyfr ased yn lleihau (ac nid o ganlyniad i ostyngiad parhaol), mae'r lleihad yn cael ei gydnabod yn y Gronfa Ailbrisio i'r graddau bod balans yn bodoli ar gyfer yr ased honno. Codir unrhyw leihad pellach sy'n fwy na'r gweddill ailbrisio ar 'Gostau Gweithredu Eraill' yn y SoCNE.

Pob blwyddyn mae'r gwahaniaeth rhwng dibrisiad ar sail gwerth llyfr yr ased a ail-brisiwyd a godwyd ar y SoCNE, a dibrisiad ar sail cost wreiddiol yr ased, yn cael ei drosglwyddo o'r Gronfa Ailbrisio i'r Gronfa Gyffredinol.

**Dibrisio**

Codir dibrisiad ar sail llinell syth ar gyfraddau sydd wedi eu cyfrifo i ddileu gwerth yr asedau, llai eu gwerth gweddilliol amcangyfrifiedig, yn gyfartal dros eu bywydau defnyddiol disgwyliedig neu, gydag asedau prydles, dros fywyd y brydles neu'r cyfnod sydd ymhlyg yn yr amserlen ad-daliadau. Adolygir bywydau defnyddiol asedau neu gategorïau asedau yn flynyddol a chaiff unrhyw newidiadau eu trafod gyda'r awdurdodau perthnasol i sicrhau bod y goblygiadau i'r gyllideb wedi eu hystyried yn briodol. Lle cytunir ar newid i fywyd ased, mae'r ased yn cael ei dibrisio ar sail llinell syth dros weddill ei bywyd fel yr aseswyd. Ar gyfer tir, adeiladau a thai annedd, mae dibrisio'n cychwyn yn y mis ar ôl prynu'r ased anghyfredol, ac o fewn y mis ar gyfer pob ased anghyfredol arall.

Os yw eitem o eiddo neu gyfarpar yn cynnwys dwy ran sylweddol neu fwy, gyda bywydau defnyddiol hollol wahanol, yna caiff pob rhan ei thrin ar wahân i bwrpas dibrisio a'i dibrisio dros ei bywyd defnyddiol unigol.

Mae bywydau defnyddiol disgwyliedig asedau o fewn yr ystodau canlynol:

| | |
|---|---|
| **Tir rhydd-ddaliad** | Nid yw'n cael ei ddibrisio |
| **Tir lesddaliad** | Gweddill cyfnod y brydles |
| **Adeiladau rhydd-ddaliad (gan gynnwys tai annedd)** | Yr oes sy'n weddill neu 60 mlynedd, pa un bynnag yw'r byrraf |
| **Adeiladau lesddaliad (gan gynnwys tai annedd)** | Y cyfnod o'r brydles sy'n weddill  neu 60 mlynedd, pa un bynnag yw'r byrraf |
| **Technoleg gwybodaeth** | Y cyfnod o'r brydles sy'n weddill neu 7 mlynedd, pa un bynnag yw'r byrraf |
| **Cyfarpar** | Y cyfnod o'r brydles sy'n weddill neu rhwng 3 a 5 mlynedd, pa un bynnag yw'r byrraf |
| **Dodrefn a ffitiadau** | Y cyfnod o'r brydles sy'n weddill neu rhwng 10 a 20 mlynedd, pa un bynnag yw'r byrraf |
| **Asedau a ddelir i'w gwerthu** | Nid ydynt yn cael eu dibrisio |
| **Asedau ar ganol eu creu** | Nid ydynt yn cael eu dibrisio |

Gwarediadau

Mae enillion a cholledion wrth waredu asedau anghyfredol yn cael eu penderfynu drwy gymharu'r enillion gyda'r gwerth llyfr, a'u cydnabod o dan 'Gostau Gweithredu Eraill' yn y SoCNE.

Pan fydd asedau a ail-brisiwyd yn cael eu gwerthu, mae unrhyw symiau yn y Gronfa Ailbrisio'n cael eu trosglwyddo i'r Gronfa Gyffredinol.

Asedau rhodd

Mae asedau rhodd yn cael eu cyfalafu ar sail eu gwerth teg wrth eu derbyn, a chredydir y gwerth hwn i'r SoCNE. Mae asedau rhodd anghyfredol yn cael eu hailbrisio, eu dibrisio ac yn agored i amhariad yn yr un modd ag asedau anghyfredol eraill.

## 1.10 Asedau anniriaethol

Mae asedau anniriaethol Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd EM yn cynnwys meddalwedd sydd wedi'i chreu'n fewnol i'w defnyddio'n fewnol (gan gynnwys asedau o'r fath ar ganol eu creu) a thrwyddedau meddalwedd a brynwyd.

Mae costau datblygu y gellir eu priodoli'n uniongyrchol i ddylunio a phrofi cynhyrchion meddalwedd penodol ac unigryw a reolir gan Wasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd EM, fel

costau ymgynghorwyr allanol, costau staff datblygu meddalwedd a chyfran briodol o'r gorbenion perthnasol, yn cael eu cydnabod fel asedau anniriaethol pan fodlonir y meini prawf canlynol:

- mae'n dechnegol ymarferol cwblhau'r meddalwedd fel y bydd yn barod i'w defnyddio;
- mae Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd EM yn bwriadu cwblhau'r meddalwedd a'i defnyddio;
- mae'n bosibl defnyddio'r meddalwedd;
- bydd y meddalwedd yn creu budd economaidd tebygol yn y dyfodol;
- mae digon o adnoddau technegol, ariannol ac adnoddau eraill ar gael i gwblhau'r gwaith o ddatblygu a defnyddio'r meddalwedd; a
- gellir mesur yn ddibynadwy'r gwariant sydd i'w briodoli i'r meddalwedd wrth ei chreu.

Mae gwariant datblygu nad ydyw'n cwrdd â'r meini prawf hyn yn cael ei gofnodi fel traul wrth iddo gael ei achosi. Nid yw costau datblygu a gofnodwyd yn flaenorol fel traul yn cael eu cofnodi fel ased mewn cyfnod dilynol.

Caiff trwyddedau meddalwedd a brynwyd eu cydnabod pan fo'n debygol y bydd eu potensial gwasanaeth yn llifo i Wasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd EM yn y dyfodol a gellir mesur cost y drwydded yn ddibynadwy. Caiff y trwyddedau hyn eu mesur i ddechrau ar sail cost.

Ar ôl eu cydnabod i ddechrau, mae asedau anniriaethol yn cael eu cynnwys yn y cyfrifon ar sail eu gwerth teg. Oherwydd nad oes marchnad weithredol yn bodoli ar gyfer asedau anniriaethol Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd EM, asesir eu gwerth teg ar sail cost eu hadnewyddu llai unrhyw golledion amorteiddio ac amhariad (h.y. cost adnewyddu a ddibrisiwyd).

Caiff asedau anniriaethol mewn gwasanaeth eu hail-fesur ar ddiwedd pob cyfnod adrodd yn defnyddio Mynegai Prisiau Cynhyrchydd yr ONS.

Mae asedau anniriaethol yn cael eu hamorteiddio'n defnyddio'r dull llinell syth dros eu bywyd defnyddiol disgwyliedig. Mae bywyd defnyddiol meddalwedd a grëwyd yn fewnol yn amrywio rhwng tair a saith mlynedd. Mae trwyddedau meddalwedd a brynwyd yn cael eu hamorteiddio dros gyfnod y drwydded. Nid yw asedau anniriaethol ar ganol eu datblygu'n cael eu hamorteiddio hyd nes eu bod yn barod i'w defnyddio, ac yna cânt eu hamorteiddio'n unol â'r polisi cyfrifyddu dywededig.

**Trothwyon cyfalafu – prosiectau meddalwedd**

Y trothwy cyfalafu ar gyfer prosiectau meddalwedd yw £1m (gan gynnwys TAW na ellir ei adennill).

## 1.11 Amhariad

Mae amhariad yn adlewyrchu lleihad parhaol yng ngwerth ased o ganlyniad i ddefnyddio'r manteision economaidd neu'r potensial gwasanaeth. Ar bob dyddiad adrodd, mae Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd EM yn asesu'r holl asedau am arwyddion o amhariad. Os oes arwydd o amhariad, mae'r asedau dan sylw'n cael eu profi am amhariad drwy gymharu gwerth llyfr yr asedau â'r symiau y gellid eu hadennill ar eu cyfer. Lle mae swm adennill ased yn llai na'i gwerth llyfr, mae gwerth llyfr yr ased yn cael ei leihau i'r swm y gellid ei adennill ar ei chyfer.

Swm adennill ased yw'r uchaf o'i 'gwerth teg llai'r gost o'i gwerthu' a'i 'gwerth mewn defnydd'. I bwrpas y sector cyhoeddus, mae'r FReM yn diffinio 'gwerth mewn defnydd' ased nad yw'n cynhyrchu arian parod fel gwerth presennol gweddill ei photensial gwasanaeth, y gellir tybio iddo fod o leiaf cyfwerth â'r gost o adnewyddu'r potensial gwasanaeth hwnnw.

Codir unrhyw golled oherwydd amhariad yn uniongyrchol ar 'Gostau Gweithredu Eraill' yn y SoCNE. Os yw'r ased a amharwyd arni wedi'i hailbrisio'n flaenorol, mae unrhyw falans yn y

Gronfa Ailbrisio (hyd at lefel y golled oherwydd amhariad) yn cael ei drosglwyddo i'r Gronfa Gyffredinol.

Ar bob dyddiad adrodd, mae Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd EM yn asesu a oes unrhyw arwydd bod unrhyw golled oherwydd amhariad a gofnodwyd mewn cyfnod blaenorol naill ai ddim yn bodoli mwyach neu wedi lleihau. Os oes arwydd o'r fath, mae symiau adennill yr asedau dan sylw'n cael eu hailasesu. Yna mae colled amhariad wedi'i gwrthdroi'n cael ei chofnodi yn y SoCNE os oes newid wedi bod yn yr amcangyfrifon a ddefnyddiwyd i bennu swm adennill yr ased ers cyflawni'r prawf amhariad diwethaf. Cyfyngir unrhyw swm adennill i gynyddu gwerth llyfr yr asedau perthnasol i'r gwerth llyfr a fyddai wedi cael ei gofnodi pe na bai'r amhariad gwreiddiol wedi digwydd (hynny yw ar ôl ystyried y dibrisiad arferol a fyddai wedi cael ei godi pe na bai unrhyw amhariad wedi digwydd).

## 1.12 Prydlesi

Mae prydlesi'n cael eu dosbarthu naill ai fel prydlesi cyllid neu brydlesi gweithredol yn ôl sylwedd y trefniant. Mae prydles tir ac adeiladau'n cael ei rhannu ar ddechrau'r brydles yn brydles wahanol ar gyfer y tir a phrydles wahanol ar gyfer yr adeiladau.

### Prydlesi cyllid

Mae prydlesi eiddo a chyfarpar, lle mai Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd EM yw perchennog yr holl risgiau ac enillion fwy neu lai, yn cael eu dosbarthu fel prydlesi cyllid. Mae prydlesi cyllid yn cael eu cyfalafu ar ddechrau'r brydles naill ai ar sail gwerth teg yr eiddo neu'r cyfarpar sydd wedi'i brydlesu neu werth presennol y taliadau prydles isaf, pa un bynnag sydd isaf. Mae taliadau ymlaen llaw am fudd lesddaliad sydd wedi'i ddosbarthu fel prydles cyllid yn cael eu cyfalafu fel rhan o'r ased.

Mae pob taliad prydles yn cael ei ddyrannu rhwng y taliadau rhwymedigaeth a chyllid. Mae'r ymrwymiadau rhent cyfatebol, net y taliadau cyllid, yn cael eu cynnwys naill ai o dan daladwyon tymor byr neu dymor hir, gan ddibynnu ar ba ddyddiadau y mae Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd EM yn gytundebol rhwymedig i wneud y taliadau rhent. Mae llog yn cael ei godi ar y SoCNE dros gyfnod y brydles ar gyfradd llog gyfnodol gyson ar falans y rhwymedigaeth sy'n weddill am bob cyfnod.

Mae'r eiddo a'r cyfarpar sydd wedi'i gaffael o dan brydlesi cyllid yn cael eu dibrisio naill ai dros oes ddefnyddiol yr ased neu gyfnod y brydles, pa un bynnag yw'r byrraf.

### Prydlesi gweithredol

Mae prydlesi lle mae'r lesydd yn cadw cyfran helaeth o'r risgiau a'r enillion sy'n deillio o fod yn berchennog yn cael eu dosbarthu fel prydlesi gweithredol. Mae taliadau a wneir o dan brydlesi gweithredol (net unrhyw gymhellion a dderbyniwyd gan y lesydd) yn cael eu codi ar SoCNE ar sail llinell syth dros gyfnod y brydles. Mae taliadau ymlaen llaw am fudd lesddaliad sydd wedi'i ddosbarthu fel prydles weithredol yn cael eu cydnabod fel rhagdaliad prydles yn y SoFP ac yn cael eu hamorteiddio dros gyfnod y brydles.

Mae refeniw prydles o brydlesi gweithredol lle mai Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd EM yw'r lesydd yn cael ei gydnabod yn y refeniw ar sail llinell syth dros gyfnod y brydles.

### Cymhellion prydlesi gweithredol

Mae Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd EM yn trin cymhellion prydles (fel cyfnodau di-rent neu gyfraniad gan y lesydd at gostau adleoli'r lesddeiliad) fel rhan annatod o'r ystyriaeth ar gyfer defnyddio'r ased a brydlesir. Cyfrifir am y cymhellion hyn fel rhan annatod o'r ystyriaeth net a gytunir ar gyfer defnyddio'r ased a brydlesir a gwasgarir hwynt yn briodol dros dymor y brydles.

**Trefniadau sy'n cynnwys prydles**

Wrth benderfynu a yw Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd EM yn barti mewn prydles, mae contractau nad ydynt ar ffurf prydles gyfreithiol ond lle gallai prydles fod yn rhan annatod ohonynt, er enghraifft trefniadau contractio allan a chontractau cymryd-neu-dalu, yn cael eu hasesu i benderfynu a yw'r contract yn cynnwys prydles. Cyfrifir am y contract fel prydles os yw cyflawni'r trefniant yn dibynnu ar ddefnyddio ased neu asedau penodol ac mae'r trefniant yn rhoi'r hawl i ddefnyddio'r ased.

## 1.13 Trefniadau consesiwn gwasanaeth

Trefniadau consesiwn gwasanaeth, gan gynnwys trefniadau PFI, yw trefniadau lle mae gan weithredwyr sector preifat ymrwymiad cytundebol i ddarparu gwasanaethau i'r cyhoedd yng nghyswllt asedau seilwaith penodol. Mae Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd EM yn diffinio'r trefniadau hyn fel trefniadau consesiwn gwasanaeth os ydynt yn cwrdd â'r amodau canlynol (fel y diffinnir hwynt yn IFRIC 12 'Trefniadau Consesiwn Gwasanaeth', fel y cawsant eu haddasu ar gyfer cyd-destun y sector cyhoeddus gan y FReM):

- Mae Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd EM yn rheoli neu'n rheoleiddio pa wasanaethau y mae'n rhaid i'r gweithredwr eu darparu gyda'r ased, i bwy y dylid eu darparu, ac am ba bris, a
- Mae Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd EM yn rheoli – drwy berchenogaeth, hawl fanteisiol neu fel arall – unrhyw fuddiant gweddilliol sylweddol yn yr ased ar ddiwedd cyfnod y trefniant dan sylw.

Lle bodlonir yr amodau hyn, asesir y ffrwd daliadau yn y dyfodol i adnabod y budd seilwaith a'r elfennau gwasanaeth ar wahân.

Mae Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd EM yn cydnabod yr ased seilwaith ar sail ei gwerth teg (neu werth presennol y taliadau seilwaith isaf yn y dyfodol, lle bo'n is) fel ased anghyfredol yn y SoFP gyda rhwymedigaeth gyfatebol i wneud taliadau yn y dyfodol o dan y cytundeb.

Mae elfen llog y cytundeb yn cael ei chodi ar y SoCNE dros gyfnod y contract ar gyfradd llog gyfnodol gyson ar falans y rhwymedigaeth sy'n weddill am bob cyfnod. Mae elfen wasanaeth y cytundeb yn cael ei chodi ar y SoCNE yn y cyfnod pryd y darperir y gwasanaethau gan y gweithredwr.

## 1.14 Arian parod a symiau cyfwerth ag arian parod

Mae arian parod a symiau cyfwerth ag arian parod a gofnodir yn y SoFP a'r Datganiad Llif Arian yn cynnwys arian mewn llaw, arian wedi'i adneuo gyda'r banciau, buddsoddiadau hynod hylifol tymor byr eraill gydag aeddfedrwydd gwreiddiol o dri mis neu lai, a gorddrafftiau banc.

## 1.15 Balansau arian parod trydydd parti

Mae Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd EM yn dal nifer o wahanol falansau arian parod ar ran trydydd partïon. Mae'r rhain yn cynnwys arian mechnïaeth a dderbynnir ac a ddelir tra bod achos troseddol yn mynd yn ei flaen ac na chawsant eu cydnabod yn y cyfrifon yn unol â gofynion y FReM. Nid yw'r balansau hyn yn cynnwys symiau a ddelir yn dilyn casglu dirwyon a chosbau ar ran cyrff eraill; adroddir y symiau hyn mewn Datganiad Ymddiriedolaeth ar wahân (gweler nodyn 1.6).

Nid yw balansau arian parod trydydd parti'n cael eu cynnwys yn y SoFP yn unol â gofynion y FReM a datgelir y balansau hyn yn nodyn 21 i'r cyfrifon.

## 1.16 Offerynnau ariannol

Mae asedau ariannol a rhwymedigaethau ariannol sy'n codi o gontractau i brynu a gwerthu eitemau heb fod yn ariannol (fel nwyddau neu wasanaethau), ac a ddefnyddir yn unol â gofynion prynu, gwerthu neu ddefnyddio arferol Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd EM, yn cael eu cydnabod pan ac os prynir, gwerthir neu os defnyddir hwynt. Mae pob ased a rhwymedigaeth ariannol arall yn cael eu cydnabod pan fydd Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd EM yn dod yn barti i'r darpariaethau cytundebol i dderbyn neu wneud taliadau arian parod.

Ystyrir dat-gydnabod ased ariannol pan ddaw'r hawliau cytundebol i'r llif arian sy'n deillio o'r ased ariannol i ben, neu pan fydd Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd EM naill ai wedi trosglwyddo'r hawl gytundebol i dderbyn y llif arian o'r ased, neu pan fo'n rhwymedig i dalu'r llif arian hwnnw i un neu fwy o dderbynwyr, yn ôl meini prawf penodol. Mae Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd EM yn dat-gydnabod ased ariannol sydd wedi'i throsglwyddo os yw'n trosglwyddo'r holl risgiau ac enillion sylweddol sy'n deillio o fod yn berchen arni.

## 1.17 Treth ar Werth (TAW)

Mae'r rhan fwyaf o weithgareddau Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd EM y tu allan i sgôp TAW ac, yn gyffredinol, nid yw treth allbwn yn berthnasol ac ni ellir adennill treth mewnbwn ar eitemau a brynir. Mae TAW na ellir ei adennill yn cael ei godi ar y categori gwariant perthnasol neu ei gynnwys yng nghost prynu cyfalaf eiddo, cyfarpar ac asedau anniriaethol. Lle codir allbwn TAW neu lle gellir adennill mewnbwn TAW, cofnodir y symiau net o Dreth ar Werth.

## 1.18 Darpariaethau

Darpariaeth yw rhwymedigaeth o amseriad neu swm ansicr.

Caiff darpariaethau eu cydnabod lle mae gan Wasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd EM:

- rwymedigaeth gyfreithiol neu adeiladol bresennol o ganlyniad i ddigwyddiadau blaenorol
- mae'n debyg y bydd angen all-lif adnoddau i setlo'r rhwymedigaeth, a
- gellir amcangyfrif y swm yn ddibynadwy.

Mesurir y darpariaethau ar sail gwerth presennol y gwariant sydd ei angen i setlo'r rhwymedigaeth. Lle mae'r effaith yn berthnasol, mae'r llif arian amcangyfrifiedig yn cael ei ddisgowntio. Mae'r cynnydd yn y ddarpariaeth dros amser yn cael ei gydnabod fel cost llog.

## 1.19 Rhwymedigaethau wrth gefn

Yn ogystal â rhwymedigaethau wrth gefn a ddatgelir yn unol ag IAS 37 'Darpariaethau, rhwymedigaethau wrth gefn, ac asedau wrth gefn', mae Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd EM yn datgelu, i bwrpas atebolrwydd ac adrodd i'r Senedd, rhai rhwymedigaethau wrth gefn statudol ac anstatudol lle mae'n annhebygol y bydd budd economaidd yn trosglwyddo fel sy'n ofynnol o dan y canllawiau Rheoli Arian Cyhoeddus (MPM).

Lle mae gwerth amser yr arian yn berthnasol, mae rhwymedigaethau wrth gefn sydd angen eu datgelu o dan IAS 37 yn cael eu mesur ar sail symiau disgownt. Mae rhwymedigaethau wrth gefn nad oes angen eu hadrodd o dan IAS 37 yn cael eu datgan yn ôl y swm a adroddir i'r Senedd.

## 1.20 Asedau wrth gefn

Datgelir asedau wrth gefn lle mae ased debygol yn codi o ddigwyddiad blaenorol a lle bydd ei bodolaeth ond yn cael ei chadarnhau pan fydd un neu fwy o ddigwyddiadau ansicr yn y dyfodol nad ydynt yn llwyr o fewn rheolaeth Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd EM, yn digwydd neu ddim.

## 1.21 Y Gronfa Gyffredinol

Mae cyllid sy'n cael ei dderbyn gan y llywodraeth yn cael ei gredydu i'r Gronfa Gyffredinol yn y Datganiad o Newidiadau mewn Ecwiti Trethdalwyr (SoCTE) pan ddaw'r cyllid i law.

## 1.22 Buddion i weithwyr

Mae buddion tymor byr fel cyflogau misol ac wythnosol neu fuddion ôl-gyflogaeth o ganlyniad i fuddion cyflogaeth a hirdymor fel dyfarniadau gwasanaeth hir, gan gynnwys buddion terfynu (er enghraifft costau gadael yn fuan), a buddion pensiwn, yn cael eu cydnabod ar sail y gost o ddarparu'r budd yn y cyfnod y cafodd ei ennill gan y gweithiwr, yn hytrach na phan fo'n cael ei dalu neu'n dod yn daladwy.

O dan IAS 19 ('Buddion i Weithwyr') rhaid i Wasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd EM gydnabod cost ddisgwyliedig hawliau gwyliau blynyddol ei weithwyr a gronnodd ar ddiwedd pob blwyddyn ariannol. Mae Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd EM yn amcangyfrif y gost gronnus hon drwy gyfrifo gwerth cyfartalog y gwyliau heb eu cymryd ar draws pob band cyflog a defnyddio'r gwerth hwn i roi cyfanswm.

## 1.23 Pensiynau

Mae'r rhan fwyaf o'r gweithwyr blaenorol a phresennol yn dod o dan ddarpariaethau Prif Gynllun Pensiwn y Gwasanaeth Sifil (PCSPS). Nid yw'r cynlluniau buddion diffiniedig yn cael eu hariannu ac maent yn anghyfrannol ac eithrio yng nghyswllt buddion dibynyddion. Mae'r Asiantaeth yn cydnabod cost ddisgwyliedig yr elfennau hyn ar sail systematig a rhesymegol dros y cyfnod y mae'n elwa o wasanaeth y gweithwyr drwy dalu symiau i'r PCSPS a gyfrifir ar sail groniadau. Mae'r rhwymedigaeth i dalu buddion i'r dyfodol yn dâl a godir ar y PCSPS. O ran y cynlluniau cyfraniadau diffiniedig, mae'r Asiantaeth yn cydnabod y cyfraniadau sy'n daladwy am y flwyddyn.

Mae aelodau o'r farnwriaeth yn dod o dan y Cynllun Pensiwn Barnwrol (JPS). Rhoddir manylion pellach am y cynllun hwn yn nodyn 3.2.2.

## 1.24 Costau gadael yn fuan

Rhaid i Wasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd EM dalu costau buddion sy'n ychwanegol at y buddion arferol o'r Prif Gynllun Pensiwn i staff sy'n ymddeol yn fuan, oni bai fod yr ymddeoliad ar seiliau meddygol cymeradwy. Telir y gost yn llawn pan fydd y rhaglen gadael yn fuan neu'r cytundeb unigol yn rhwymo Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd EM. Mesurir y ddarpariaeth ar sail gwerth presennol y gwariant sydd ei angen i setlo'r rhwymedigaeth. Lle mae'r effaith yn berthnasol, mae'r llif arian amcangyfrifiedig, wedi'i addasu ar gyfer risg, yn cael ei ddisgowntio drwy ddefnyddio'r gyfradd a bennwyd gan Drysorlys EM (2014-15: 3.55% a 2013-14: 4.35%). Mae'r cynnydd yn y ddarpariaeth dros amser yn cael ei gydnabod fel cost llog.

Yn dilyn cyflwyno Cynllun Iawndal y Gwasanaeth Sifil yn Rhagfyr 2010, mae'r MoJ hefyd wedi cynnig cynllun Gadael yn Fuan (VED) i rai o weithwyr Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd EM. Mae'r treuliau VED a adroddir arnynt yn nodiadau 3.1 a 3.1.3 yn nodi symiau a dalwyd i unigolion a dderbyniodd y cynnig o adael yn wirfoddol a lle cawsant ganiatâd i adael yn 2013-14 a 2014-15. Yn unol â thelerau cynllun Iawndal y Gwasanaeth Sifil, ni thalwyd unrhyw symiau disgresiynol i unigolion a adawodd o dan y cynllun VED.

## 1.25 Cynllun pensiwn cydweddol

Mae gan Wasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd EM dri chynllun pensiwn cydweddol ar gyfer y Siambr Mewnfudo a Lloches (IAC), y Tribiwnlys Digolledu am Anafiadau Troseddol (CIC) a Gwasanaeth y Tribiwnlys Eiddo Preswyl (RPTS) sy'n debyg i gynllun y PCSPS. Mae'r cynlluniau hyn yn cael eu hariannu o bleidlais yr adran a gweinyddir y taliadau gan yr adran am y naill a Capita am y llall. Mae taliadau i bensiynwyr IAC yn cael eu gwneud drwy'r system gyflogres.

## 1.26 Amcangyfrifon a dyfarniadau cyfrifyddu beirniadol

Mae amcangyfrifon a dyfarniadau'n cael eu gwerthuso'n barhaus ac yn seiliedig ar brofiad hanesyddol a ffactorau eraill, gan gynnwys disgwyliadau o ddigwyddiadau i ddod y credir iddynt fod yn rhesymol o dan yr amgylchiadau.

Mae Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd EM yn gwneud amcangyfrifon a thybiaethau ynghylch y dyfodol. Drwy ddiffiniad, pur anaml fydd yr amcangyfrifon cyfrifyddu'n cyfateb i'r union ganlyniadau. Rhoddir sylw isod i'r amcangyfrifon a'r tybiaethau, sydd â risg sylweddol o achosi addasiad sylweddol i werthoedd llyfr asedau a rhwymedigaethau dros y flwyddyn ariannol nesaf.

*Prisio eiddo a chyfarpar*

Mae tir ac adeiladau (gan gynnwys tai annedd) yn cynnwys cyfleusterau llys yn bennaf. Dangosir y tir a'r adeiladau yn ôl eu gwerth teg, ar sail prisiadau proffesiynol. Asiantaeth y Swyddfa Brisio (VOA) sy'n cyflawni'r prisiadau yn unol â Llawlyfr Gwerthuso a Phrisio Sefydliad Brenhinol y Syrfewyr Siartredig, sef y 'Llyfr Coch'.

Mae'r rhan fwyaf o'r adeiladau'n cael eu prisio ar sail cost eu hadnewyddu, fel a ddibrisiwyd, a'u cyfwerth modern. Mae'r holl adeiladau eraill yn cael eu mesur ar sail eu gwerth teg a benderfynir ar sail tystiolaeth marchnad. Mae gwerth tir ac adeiladau Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd EM yn amrywio yn ôl y newidiadau mewn costau adeiladu a gwerth marchnad presennol tir ac adeiladau. Mae'r polisi cyfrifyddu ar gyfer tir ac adeiladau wedi'i osod allan yn nodyn 1.9 a'r wybodaeth am y tir a'r adeiladau wedi'i gosod allan yn nodyn 6.

Yn Rhagfyr 2010 cyhoeddodd weinidogion y penderfyniad i gau 142 o lysoedd; 93 o lysoedd ynadon a 49 o lysoedd sirol. Drwy Raglen Ddiwygio Ystâd y Llysoedd (CERP) caewyd llysoedd na ddefnyddiwyd digon arnynt a gyda chyfleusterau gwael, gan leihau costau rhedeg a chynnal a chadw yn y dyfodol. Ni fydd y llysoedd hyn mwyach yn rhan o ystâd weithredol Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd EM yn y dyfodol, felly mae dull eu prisio wedi cael ei newid o gost adnewyddu a ddibrisiwyd i werth teg llai cost eu gwerthu a benderfynnir ar sail tystiolaeth marchnad. Oherwydd bod y newid hwn mewn dull prisio'n awgrymu lleihad parhaol mewn gwerth, mae unrhyw amhariad yn cael ei godi'n uniongyrchol ar y SoCNE, gyda balans unrhyw Gronfa Ailbrisio'n cael ei godi ar y Gronfa Gyffredinol.

*Cyfrifyddu prydlesi*

Mae angen gwneud dyfarniad wrth ddosbarthu prydles newydd naill ai fel prydles weithredol neu brydles gyllid. Lle cymerir prydles ar dir ac adeiladau gyda'i gilydd, gellir cyfalafu'r elfennau tir ac adeiladau fel prydlesi cyllid ar wahân os ydynt yn cwrdd â'r meini prawf ar gyfer prydles gyllid. Os nad yw taliadau cytundebol y brydles wedi eu rhannu rhwng y tir a'r adeiladau yng nghontract y brydles, mae'r rhannu'n cael ei wneud ar sail gwerthoedd marchnad y tir a'r adeiladau ar ddechrau'r brydles. Mae'r polisi cyfrifyddu ar gyfer prydlesi wedi'i osod allan yn nodyn 1.12.

*Darpariaeth ar gyfer dadfeiliadau*

Caiff darpariaeth ar gyfer dadfeiliadau ei chydnabod ar gyfer eiddo lesddaliad os yw'r brydles yn cynnwys rhwymedigaethau sy'n ei gwneud yn ofynnol i Wasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd EM wneud iawn am unrhyw newidiadau a wnaed i'r eiddo dros gyfnod y brydles. Lle mae'n ofynnol cael darpariaeth ar gyfer dadfeiliadau, mae Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd EM yn cydnabod darpariaeth sy'n hafal i'r gost o adfer yr adeilad i'r cyflwr yr oedd ynddo ar y dyddiad y dechreuodd y brydles.

Caiff darpariaeth ddadfeiliadau ei chydnabod lle mae rhwymedigaeth gyfreithiol neu adeiladol bresennol o ganlyniad i ddigwyddiadau blaenorol, a lle mae'n debygol y bydd angen all-lif adnoddau i setlo'r rhwymedigaeth; ac os yw'n bosibl amcangyfrif y swm hwn yn ddibynadwy. Os nad yw'n bosibl rhoi amcangyfrif dibynadwy o'r fath rwymedigaeth, mae'n cael ei dosbarthu fel

rhwymedigaeth wrth gefn. Lle mae gwerth amser yr arian yn berthnasol, mae symiau darpariaeth yn cael eu cyfrifo ar sail gwerth presennol y gwariant y disgwylir y bydd angen ei wneud i setlo'r rhwymedigaeth. Cyfrifir y gwerth presennol yn defnyddio cyfraddau disgownt hirdymor Trysorlys EM, o'u mesur ar ddyddiad adrodd y fantolen, ac wedi eu haddasu i ystyried risgiau sydd eisoes wedi eu hadlewyrchu yn yr amcangyfrifon llif arian ar gyfer y dyfodol.

*Darpariaeth brydles feichus*

Gwneir darpariaeth prydles feichus yng nghyswllt contract prydles lle mae'r gost anochel o gwrdd â'r rhwymedigaethau o dan y contract yn fwy na'r budd economaidd y disgwylir ei ennill drwyddo. Pan fydd contract beichus yn cael ei adnabod, mae gwerth presennol yr elfen feichus o'r taliad cytundebol yn cael ei fesur a'i gydnabod fel darpariaeth gyda'r gwerth presennol, a benderfynnir drwy ddefnyddio cyfradd ddisgownt briodol. Yr elfen feichus yw'r gyfran o'r taliadau prydles nad ydynt yn cael eu gwrthbwyso gan enillion economaidd o ryw fath.

## 2. Datganiad o gostau gweithredu yn ôl segmentau gweithredu

I bwrpas rheoli, mae Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd EM wedi'i drefnu'n wyth rhanbarth gweithredol a nifer o feysydd corfforaethol.

I bwrpas adrodd ariannol, mae fformat yr adrodd yn ôl segment yn cael ei benderfynu yn ôl sut y mae'r Prif Wneuthurwr Penderfyniadau Gweithredu'n monitro canlyniadau gweithredu segmentau er mwyn gwneud penderfyniadau ac i ddyrannu adnoddau.

Mae segmentau gweithredu adroddadwy Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd EM fel a ganlyn:

- Rhanbarth Llundain
- Rhanbarth Gogledd Ddwyrain Lloegr
- Rhanbarth De Ddwyrain Lloegr
- Rhanbarth Gogledd Orllewin Lloegr
- Rhanbarth Canolbarth Lloegr
- Rhanbarth De Orllewin Lloegr
- Rhanbarth Cymru
- Rhanbarth yr Alban
- Rheng flaen ganolog
- Ystâdau
- Eraill

Mae costau gweithredu net y segmentau perthnasol yn cael eu mesur ar yr un sail â'r symiau cyfatebol sy'n cael eu hadrodd yn y datganiadau ariannol.

Mae costau rheng flaen ganolog yn cynnwys costau gweithredu rheng flaen na achosir yn uniongyrchol gan Gyfarwyddiaethau Rhanbarthol, megis Cyflogau a Ffioedd Uwch Aelodau Barnwrol, y Tîm Trethiant Cenedlaethol a Chanolfannau Swmp-Brosesu a Gorfodi.

Mae Eraill yn cynnwys swyddogaethau pencadlys, eitemau heb fod yn arian parod a reolir yn ganolog a gorbenion a ailgodir ar y MoJ.

### 2.1 Refeniw a chanlyniadau segmentau

Disgrifir y gwasanaethau y mae'r segmentau adroddadwy'n deillio incwm ohonynt yn nodyn 5. Nid oedd unrhyw drafodion rhyng-segment yn y flwyddyn (2013-14: nil).

Mae’r tabl canlynol yn cyflwyno'r costau gweithredu net yn ôl segmentau gweithredu adroddadwy am y cyfnod a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2015:

| | 2014-15 | 2013-14 |
|---|---|---|
| | £000 | £000 |
| Rhanbarth Llundain | 256,935 | 256,696 |
| Rhanbarth Gogledd Ddwyrain Lloegr | 100,117 | 107,375 |
| Rhanbarth De Ddwyrain Lloegr | 117,665 | 116,562 |
| Rhanbarth Gogledd Orllewin Lloegr | 103,792 | 112,423 |
| Rhanbarth Canolbarth Lloegr | 114,901 | 126,553 |
| Rhanbarth De Orllewin Lloegr | 66,024 | 68,063 |
| Rhanbarth Cymru | 45,060 | 57,091 |
| Rhanbarth yr Alban | 16,104 | 23,253 |
| Rheng flaen ganolog | 316,894 | 317,951 |
| Ystâdau | 229,987 | 231,390 |
| Eraill | 427,284 | 449,239 |
| **Gwariant gros** | **1,794,763** | **1,866,596** |
| **Incwm** | **(697,278)** | **(637,641)** |
| **Gwariant net am bob datganiad costau gweithredu** | **1,097,485** | **1,228,955** |

Rheolir ‘incwm’ yn ganolog yn bennaf a chaiff ei ddangos felly fel categori ar wahân.

## 3 Costau a niferoedd staff a'r farnwriaeth

Gwahanir costau a niferoedd staff rhwng y rhai y gellir eu priodoli i staff Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd EM a rhai y gellir eu priodoli i aelodau o'r farnwriaeth. Ymdrinnir â phob categori yn y nodiadau canlynol, gyda chyfanswm y costau wedi eu crynhoi yn y tabl isod:

| | | 2014-15 | | | 2013-14 | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | Nodiadau | Gweinyddol | Rhaglen | Cyfanswm | Gweinyddol | Rhaglen | Cyfanswm |
| | | £000 | £000 | £000 | £000 | £000 | £000 |
| Costau staff | 3.1 | 16,222 | 466,889 | 483,111 | 16,083 | 483,556 | 499,639 |
| Costau'r farnwriaeth | 3.2 | – | 449,258 | 449,258 | – | 472,358 | 472,358 |
| Costau staff asiantaeth | 3.1 | – | 26,352 | 26,352 | – | 22,625 | 22,625 |
| **Cyfanswm costau staff a'r farnwriaeth** | | **16,222** | **942,499** | **958,721** | **16,083** | **978,539** | **994,622** |

### 3.1 Mae'r costau staff yn cynnwys:

| | 2014-15 | | |
|---|---|---|---|
| | Staff a gyflogir yn barhaol | Staff asiantaeth a chontract | Cyfanswm |
| | £000 | £000 | £000 |
| Cyflogau wythnosol a misol | 384,803 | 26,352 | 411,155 |
| Costau nawdd cymdeithasol | 24,304 | – | 24,304 |
| Cyfraniadau pensiwn y cyflogwr | 66,139 | – | 66,139 |
| Costau gadael yn fuan (gwirfoddol) | 8,240 | – | 8,240 |
| | **483,486** | **26,352** | **509,838** |
| Ychwaneger: secondiadau o'r tu allan | 111 | | 111 |
| | **483,597** | **26,352** | **509,949** |
| Llai: refeniw wedi'i adennill yng nghyswllt secondiadau i'r tu allan | (486) | – | (486) |
| **Cyfanswm costau staff** | **483,111** | **26,352** | **509,463** |

| | 2013-14 | | |
|---|---|---|---|
| | Staff a gyflogir yn barhaol | Staff asiantaeth a chontract | Cyfanswm |
| | £000 | £000 | £000 |
| Cyflogau wythnosol a misol | 401,522 | 22,625 | 424,147 |
| Costau nawdd cymdeithasol | 25,842 | – | 25,842 |
| Cyfraniadau pensiwn y cyflogwr | 69,000 | – | 69,000 |
| Costau gadael yn fuan (gwirfoddol) | 3,087 | – | 3,087 |
| | **499,451** | **22,625** | **522,076** |
| Ychwaneger: secondiadau o'r tu allan | 660 | – | 660 |
| | **500,111** | **22,625** | **522,736** |
| Llai: refeniw wedi'i adennill yng nghyswllt | (472) | – | (472) |

| | | | |
|---|---|---|---|
| secondiadau i'r tu allan | | | |
| **Cyfanswm costau staff** | **499,639** | **22,625** | **522,264** |

### 3.1.1 Cynllun pensiwn

Cynllun buddion diffiniedig aml-gyflogwr nad yw'n cael ei gyllido yw Prif Gynllun Pensiwn y Gwasanaeth Sifil (PCSPS), sy'n paratoi ei gyfrifon ei hun ond lle nad yw Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd EM yn gallu nodi faint yw ei siâr o'r asedau a rhwymedigaethau sylfaenol. Prisiodd actiwari'r cynllun y Prif Gynllun hwn ar 31 Mawrth 2007. Mae'r manylion yng nghyfrifon adnoddau Swyddfa'r Cabinet:  Blwydd-daliadau Sifil (www.civilservice.gov.uk/pensions).

Ar gyfer 2014-15, talwyd cyfraniadau cyflogwr o £65.9m (2013-14: £69.0m) i'r Prif Gynllun ar sail un o bedair cyfradd rhwng 16.7% a 24.3% (2013-14: rhwng 16.7% a 24.3%) o'r cyflog pensiynadwy, yn ôl y bandiau cyflog. Mae Actiwari'r cynllun yn adolygu cyfraniadau'r cyflogwr pob pedair blynedd fel arfer ar ôl prisio'r cynllun yn llawn. Pennir cyfraddau'r cyfraniadau i gwrdd â chost y buddion a gronnwyd yn 2014-15 i'w talu pan fydd yr aelod yn ymddeol, ac nid y buddion a dalwyd dros y cyfnod hwn i bensiynwyr presennol. Mae balans cyfraniadau'r cyflogwr hefyd yn cynnwys cost gwasanaeth presennol y cynllun pensiwn cydweddol.

### 3.1.2 Nifer gyfartalog y staff a gyflogir

Y nifer gyfartalog o weithwyr cyfwerth ag amser llawn a dalwyd yn ystod y flwyddyn oedd:

| | 2014-15 | | |
|---|---|---|---|
| | **Staff a gyflogir yn barhaol** | **Staff asiantaeth a chontract** | **Cyfanswm** |
| A gyflogir yn uniongyrchol | 16,162 | – | 16,162 |
| Eraill | – | 871 | 871 |
| **Cyfanswm** | **16,162** | **871** | **17,033** |

| | 2013-14 | | |
|---|---|---|---|
| | **Staff a gyflogir yn barhaol** | **Staff asiantaeth a chontract** | **Cyfanswm** |
| A gyflogir yn uniongyrchol | 16,999 | – | 16,999 |
| Eraill | – | 830 | 830 |
| **Cyfanswm** | **16,999** | **830** | **17,829** |

### 3.1.3 Adrodd ar gynllun iawndal y Gwasanaeth Sifil a chynlluniau eraill – pecynnau gadael

Rhoddir crynodeb o’r pecynnau gadael isod:

| Cost y pecyn gadael | Nifer y diswyddiadau gorfodol | | Nifer y swyddi eraill lle cytunwyd i adael | | Cyfanswm nifer y pecynnau gadael | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | 2014-15 | 2013-14 | 2014-15 | 2013-14 | 2014-15 | 2013-14 |
| <£10,000 | – | – | 15 | 4 | 15 | 4 |
| £10,000 – £25,000 | – | – | 83 | 22 | 83 | 22 |
| £25,000 – £50,000 | – | – | 95 | 16 | 95 | 16 |
| £50,000 – £100,000 | – | – | 44 | 26 | 44 | 26 |
| £100,000 – £150,000 | – | – | 6 | 5 | 6 | 5 |
| £150,000 – £200,000 | – | – | – | – | – | – |
| £200,000 – £250,000 | – | – | – | – | – | – |
| £250,000 – £300,000 | – | – | – | – | – | – |
| £300,000 – £350,000 | – | – | – | – | – | – |
| £350,000 – £400,000 | – | – | – | – | – | – |
| £400,000 – £450,000 | – | – | – | – | – | – |
| **Cyfanswm nifer y pecynnau gadael yn ôl math** | **–** | **–** | **243** | **73** | **243** | **73** |
| **Cyfanswm cost yr adnoddau (£000)** | **–** | **–** | **8,240** | **3,087** | **8,240** | **3,087** |

Talwyd costau diswyddiadau gorfodol a chostau gadael eraill yn unol â Chynllun Iawndal y Gwasanaeth Sifil, cynllun statudol a wnaed o dan Ddeddf Blwydd-daliadau 1972. Cyfrifir am gostau gadael yn llawn pan fydd Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd EM wedi ymrwymo a chytuno bod y gweithiwr yn cael gadael. Lle mae Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd EM wedi cytuno ar ymddeoliad buan, mae’r gost ychwanegol yn cael ei chwrdd gan y Gwasanaeth ac nid gan y PCSPS. Mae costau ymddeol ar sail gwaeledd yn cael eu cwrdd gan y cynllun pensiwn ac wedi eu heithrio o'r tabl.

## 3.2 Costau a nifer y farnwriaeth

Mae aelodau o'r farnwriaeth yn annibynnol i Wasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd EM. Mae eu costau cyflog yn cael eu cwrdd naill ai o'r Gronfa Gyfunol, yn achos uwch aelodau o'r farnwriaeth, neu'n uniongyrchol gan Wasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd EM ar gyfer aelodau eraill. Mae'r costau i gyd yn cael eu cynnwys yng Nghyfrifon Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd EM i sicrhau y datgelir cost lawn y gweithrediadau.

| | 2014-15 | | | | 2013-14 | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | Cyflogau uwch aelodau barnwrol | Cyflogau barnwrol eraill | A delir drwy ffioedd | Cyfanswm | Cyflogau uwch aelodau barnwrol | Cyflogau barnwrol eraill | A delir drwy ffioedd | Cyfanswm |
| | £000 | £000 | £000 | £000 | £000 | £000 | £000 | £000 |
| Cyflogau wythnosol a misol | 125,272 | 105,391 | 106,855 | 337,518 | 125,353 | 101,848 | 131,153 | 358,354 |
| Costau nawdd cymdeithasol | 15,456 | 12,112 | 11,023 | 38,591 | 15,493 | 12,036 | 13,721 | 41,250 |
| Cyfraniadau pensiwn y cyflogwr | 40,143 | 33,006 | – | 73,149 | 40,255 | 32,499 | – | 72,754 |
| **Cyfanswm costau cyflog y farnwriaeth** | **180,871** | **150,509** | **117,878** | **449,258** | **181,101** | **146,383** | **144,874** | **472,358** |

### 3.2.1 Nifer gyfartalog y farnwriaeth

Mae'r symiau yn nodyn 3.2 yn cynnwys costau cyflog 950, ar gyfartaledd, o swyddogion barnwrol (2013-14: 936), a ffioedd ar gyfer 952 o aelodau barnwrol cyfwerth ag amser llawn a delir drwy ffioedd (2013-14: 1,487). Talodd y Gronfa Gyfunol gostau cyflog 910 o uwch aelodau barnwrol eraill (2013-14: 914).

### 3.2.2 Cynllun Pensiynau Barnwrol (JPS)

Cynllun buddion diffiniedig aml-gyflogwr nad yw'n cael ei gyllido yw'r JPS, sy'n paratoi ei gyfrifon ei hun ond lle nad yw Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd EM yn gallu nodi faint yw ei siâr o'r asedau a rhwymedigaethau sylfaenol. Cafodd prisiad actiwaraidd llawn ei gyflawni ar 31 Mawrth 2012. Rhoddir manylion yng Nghyfrifon Adnoddau'r Cynllun Pensiynau Barnwrol yn www.official-documents.co.uk.

Mae pensiynau barnwrol yn cael eu talu allan o'r Gronfa Gyfunol os cafodd gyflog daliwr y swydd farnwrol ei dalu o'r gronfa honno, neu o'r JPS os talwyd y cyflog allan o amcangyfrif cyflenwad yr adran. Mae cyfraniadau i'r JPS wedi cael eu gwneud ar gyfradd o 32.15% (2013-14: 32.15%). Mae symiau'r cyfraniadau hyn i'w gweld yn y tabl yn nodyn 3.2 uchod.

Mae'r buddion sy'n daladwy wedi eu llywodraethu naill ai gan ddarpariaethau Deddf Pensiynau Barnwrol 1981 ar gyfer y deiliaid swyddi barnwrol hynny a benodwyd cyn 31 Mawrth 1995, neu gan ddarpariaethau Deddf Pensiynau ac Ymddeol 1993 ar gyfer rhai newydd eu penodi neu a benodwyd i swydd farnwrol wahanol ar neu ar ôl y dyddiad hwnnw.

Er bod y JPS yn gynllun buddion diffiniedig, yn unol ag FReM 6.2, mae Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd EM yn cyfrif amdano fel cynllun cyfraniadau diffiniedig ac yn cydnabod cyfraniadau cyflogwr sy'n daladwy fel traul yn y flwyddyn yr achosir hwynt.

Y JPS sy'n darparu hawliau pensiwn barnwyr cyflogedig. Ym mis Medi 2005 daeth daliwr swydd farnwrol ar sail ffioedd, oedd wedi ymddeol, â hawliad yn y Tribiwnlys Cyflogaeth yn mynnu ôl-hawl i gael ei drin yn gyfartal â dalwyr swyddi barnwrol cyflogedig drwy hawlio hawliau pensiwn o dan y Rheoliadau Gweithwyr Rhan Amser.

Dyfarnodd Lys Goruchaf y DU ar 6 Chwefror 2013 fod gan ddaliwr swydd farnwrol ar sail ffioedd, oedd wedi ymddeol, hawl i dderbyn pensiwn ar yr un telerau â dalwyr swyddi barnwrol cyflogedig. Mae'r achos hwn wedi gosod cynsail ar gyfer achosion eraill a ataliwyd. Yn gyson â chyfrifyddu ar gyfer dalwyr swyddi barnwrol cyflogedig, ac yn unol ag FReM 6.2, mae Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd EM yn cyfrif am gyfraniadau cyflogwr sy'n daladwy i'r JPS ar gyfer dalwyr swyddi barnwrol cymwys ar sail ffioedd fel yr achosir hwynt, ond nid yw'n cydnabod rhwymedigaeth i dalu ôl-daliadau neu rwymedigaeth bensiwn o ganlyniad i'r hawliad. Yn unol â hyn felly, mae darpariaeth ar gyfer hawliau pensiwn ar sail ffioedd yn cael ei chydnabod yng Nghyfrifon y JPS.

Mae darpariaethau wedi cael eu cydnabod yng Nghyfrifon y MoJ ar gyfer y rhwymedigaeth i ddalwyr swyddi barnwrol ar sail ffioedd drwy'r Dyfarniad Gwasanaeth Barnwrol, a'r elfen ar wahân o'r rhwymedigaeth bensiwn ar gyfer barnwyr a delir drwy ffioedd, oherwydd ni ddaw'r un o'r ddwy rwymedigaeth o dan y JPS a'r deddfau sy'n ei lywodraethu.

## 4 Costau gweithredu

### 4.1 Mae costau gweithredu eraill yn cynnwys y canlynol:

| | 2014-15 | | |
|---|---|---|---|
| | Costau gweinyddol £000 | Rhaglen £000 | Cyfanswm £000 |
| Llety, cynnal a chadw a chyfleustodau | 14 | 247,171 | 247,185 |
| Costau rheithgorau | – | 41,947 | 41,947 |
| Taliadau gwasanaeth PFI | – | 25,387 | 25,387 |
| Taliadau gwasanaeth eraill | – | 12,451 | 12,451 |
| Cyfathrebu, gwasanaethau a nwyddau swyddfa | 148 | 27,010 | 27,158 |
| Costau gwasanaethau dan gontract | 1,399 | 53,176 | 54,575 |
| Gwasanaethau TG | 4,691 | 102,151 | 106,842 |
| Costau cwmnïau ymgynghori | 340 | 6,281 | 6,621 |
| Costau staff eraill (gan gynnwys teithio a chynhaliaeth) | 1,393 | 9,078 | 10,471 |
| Costau barnwrol eraill (gan gynnwys teithio a chynhaliaeth) | 15 | 34,319 | 34,334 |
| Taliadau banc | – | 4,452 | 4,452 |
| Costau eraill | 741 | 4,465 | 5,206 |
| Grantiau eraill | – | 15 | 15 |
| | **8,741** | **567,903** | **576,644** |
| **Prydlesi gweithredol** | | | |
| Costau rhenti eiddo | – | 79,933 | 79,933 |
| Llogi cyfarpar a pheiriannau | 1 | 416 | 417 |
| Gwariant arall | 1 | 1,442 | 1,443 |
| | **2** | **81,791** | **81,793** |
| **Costau heb fod yn arian parod** | | | |
| Tâl archwilwyr allanol - am archwilio'r Cyfrifon | 320 | – | 320 |
| Colled (elw) net ar ôl gwaredu eiddo a chyfarpar | 2 | (1,864) | (1,862) |
| Amhariad (wedi'i wrthdroi) ar eiddo a chyfarpar | – | (87,473) | (87,473) |
| Amhariad (wedi'i wrthdroi) ar asedau anniriaethol | | (106) | (106) |
| Amhariad (wedi'i wrthdroi) ar asedau a ddelir i'w gwerthu | – | (3,919) | (3,919) |
| Grantiau cyfalaf | – | 615 | 615 |
| Llinell syth taliadau prydlesi gweithredol | – | 7,250 | 7,250 |
| Amorteiddio rhagdaliad ar brydlesi gweithredol | – | 5 | 5 |
| Symudiad mewn darpariaethau | – | 4,983 | 4,983 |
| Taliadau mewn-adrannol yr ail-godwyd amdanynt | 38,909 | 63,052 | 101,961 |
| Symudiad mewn darpariaethau dyledion drwg | – | 2,254 | 2,254 |
| Dibrisio | – | 111,304 | 111,304 |
| Amorteiddio | – | 17,168 | 17,168 |
| | **39,231** | **113,269** | **152,500** |
| **Cyfanswm costau gweithredu** | **47,974** | **762,963** | **810,937** |

| | 2013-14 | | |
|---|---|---|---|
| | Gweinyddol £000 | Rhaglen £000 | Cyfanswm £000 |
| Llety, cynnal a chadw a chyfleustodau | 11 | 251,394 | 251,405 |
| Costau rheithgorau | – | 39,396 | 39,396 |
| Taliadau gwasanaeth PFI | – | 23,908 | 23,908 |
| Taliadau gwasanaeth eraill | – | 10,711 | 10,711 |
| Cyfathrebu, gwasanaethau a nwyddau swyddfa | 95 | 31,200 | 31,295 |
| Costau gwasanaethau dan gontract | 2,118 | 37,966 | 40,084 |
| Gwasanaethau TG | 5,498 | 90,972 | 96,470 |
| Costau cwmnïau ymgynghori | 199 | 6,859 | 7,058 |
| Costau staff eraill (gan gynnwys teithio a chynhaliaeth) | 1,545 | 8,486 | 10,031 |
| Costau barnwrol eraill (gan gynnwys teithio a chynhaliaeth) | 1,377 | 37,347 | 38,724 |
| Taliadau banc | – | 4,065 | 4,065 |
| Costau eraill | 807 | 2,410 | 3,217 |
| Grantiau cyfalaf | – | (504) | (504) |
| Grantiau eraill | – | 15 | 15 |
| | **11,650** | **544,225** | **555,875** |
| **Prydlesi gweithredol** | | | |
| Costau rhenti eiddo | – | 82,333 | 82,333 |
| Llogi cyfarpar a pheiriannau | 1 | 620 | 621 |
| Gwariant arall | 5 | 1,889 | 1,894 |
| | **6** | **84,842** | **84,848** |
| **Costau heb fod yn arian parod** | | | |
| Tâl archwilwyr allanol - am archwilio'r Cyfrifon | – | 350 | 350 |
| Colled net ar ôl gwaredu eiddo a chyfarpar | – | (1,532) | (1,532) |
| Amhariad wedi'i wrthdroi ar eiddo a chyfarpar | – | (22,061) | (22,061) |
| Lleihad yng ngwerth teg yr asedau a ddelir i'w gwerthu | – | 1,796 | 1,796 |
| Cynnydd yng ngwerth teg asedau anniriaethol | – | 1,382 | 1,382 |
| Llinell syth taliadau prydlesi gweithredol | – | 6,159 | 6,159 |
| Amorteiddio rhagdaliad ar brydlesi gweithredol | – | 5 | 5 |
| Symudiad mewn darpariaethau | – | 20,622 | 20,622 |
| Taliadau mewn-adrannol yr ail-godwyd amdanynt | 40,843 | 43,381 | 84,224 |
| Symudiad mewn darpariaethau dyledion drwg | – | (129) | (129) |
| Dibrisio | – | 105,009 | 105,009 |
| Amorteiddio | – | 17,068 | 17,068 |
| | **40,843** | **172,050** | **212,893** |
| **Cyfanswm costau gweithredu** | **52,499** | **801,117** | **853,616** |

**Taliadau adrannol yr ail-godwyd amdanynt**

Y taliadau adrannol yr ail-godwyd amdanynt yw cost gwasanaethau a rennir â'r MoJ, gan gynnwys adnoddau dynol, gwasanaethau cyfreithiol a barnwrol a chyllid a gweinyddol.

**Tâl i'r archwilwyr**

Mae cost yr archwiliad a gyflawnir gan y NAO ar ran y Rheolwr a'r Archwilydd Cyffredinol yn cael ei chydnabod fel tâl heb fod yn arian parod. Yn ystod y flwyddyn ni phrynodd Wasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd EM unrhyw wasanaethau di-archwilio. Mae'r gost yn cynnwys £220,000 (2013-14: £240,000) am archwilio Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd EM a £100,000 (2013-14: £110,000) am archwilio Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon Datganiad Ymddiriedolaeth Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd EM.

## 4.2 Mae'r costau cyllid yn cynnwys y canlynol:

| | 2014-15 | 2013-14 |
|---|---|---|
| | £000 | £000 |
| Tâl cyllid wedi'i godi ar un o gredydwyr y Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol (LGPS) | 10,661 | 5,878 |
| Llog ar rwymedigaeth y cynllun pensiwn cydweddol | 196 | 158 |
| Ymddatod y disgownt ar ddarpariaethau | 4,537 | 1,568 |
| **Cyfanswm costau cyllid heb fod yn arian parod** | **15,394** | **7,604** |
| | | |
| Llog ar fenthyciadau awdurdod lleol | 1,462 | 1,674 |
| Tâl cyllid a godir ar asedau PFI ac wedi'u prydlesu | 8,249 | 9,080 |
| **Cyfanswm costau cyllid arian parod** | **9,711** | **10,754** |
| **Cyfanswm costau cyllid** | **25,105** | **18,358** |

## 5 Incwm

| | 2014-15 | 2013-14 |
|---|---|---|
| | £000 | £000 |
| Incwm o ffioedd | 583,673 | 506,666 |
| Incwm rhent | 69 | 287 |
| Incwm wedi'i adennill gan gyrff eraill y llywodraeth | 62,799 | 94,063 |
| Ffioedd beilïaid | 45,167 | 31,338 |
| Incwm amrywiol | 5,570 | 5,287 |
| **Cyfanswm yr incwm** | **697,278** | **637,641** |

Daeth yr incwm yn ymwneud â rhaglen a gweinyddol i £500k (2013-14: £807k) a £696,778k (2013-14: £636,834k).

**Incwm o ffioedd**

Mae incwm o ffioedd yn cynnwys y symiau a dderbyniwyd o'r ffrydiau busnes fel yn nodyn 5.2.

**Incwm rhent**

Mae incwm o renti'n cynnwys rhenti eiddo buddsoddiad, is-osod a rhent arall sy'n cael ei dalu gan y rhai sy'n meddiannu ystâd Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd EM..

**Ffioedd beilïaid**

Sef incwm o adennill ffioedd beilïaid a achoswyd gan Wasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd EM wrth gasglu dirwyon heb eu talu.

**Incwm amrywiol**

Mae incwm amrywiol yn cynnwys incwm a dderbyniwyd o werthu cyhoeddiadau, hawliadau yswiriant, derbyniadau peiriannau gwerthu, o flychau ffôn a llogi achlysurol.

### 5.1 Incwm y Gronfa Gyfunol

Nid yw'r cyfanswm incwm yn cynnwys symiau a gesglir gan Wasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd EM lle oedd yn gweithredu fel asiant i'r Gronfa Gyfunol ac nid prif gyfrifydd. Rhoddir manylion llawn yr incwm a gasglwyd fel asiant i'r Gronfa Gyfunol yn Natganiad Ymddiriedolaeth Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd EM a gyhoeddir ar wahân i'r datganiadau ariannol hyn.

### 5.2 Ffioedd a thaliadau

Mae'n ofynnol i Wasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd EM, yn unol â chanllawiau Rheoli Arian Cyhoeddus Trysorlys EM, ddatgelu'r canlyniadau perfformiad ar gyfer ei feysydd gweithgareddau lle codir ffioedd a thaliadau. Nid cwrdd â gofynion IFRS 8 'Segmentau Gweithredu' yw pwrpas y dadansoddiad oherwydd nid yw'n berthnasol i Wasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd EM o dan ofynion y FReM.

Mae gan Wasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd EM y meysydd busnes canlynol: llysoedd sifil a theulu, tribiwnlys, llysoedd troseddol ac eraill. Dim ond y busnesau Sifil a Thribiwnlys sydd â systemau i godi ffioedd. Y polisi a'r nod ariannol ar gyfer y busnes sifil yw adennill cost lawn y prosesau dan sylw, llai'r gost o dalu am ddileu ffioedd. Mae'r Llywodraeth hefyd yn ystyried codi ffioedd uwch a fyddai'n fwy na chost yr achos, mewn rhai amgylchiadau, i leihau'r gost o redeg y system llysoedd ymhellach i'r trethdalwr. Byddwn yn cyflwyno ein cynlluniau ar gyfer diwygio pellach maes o law. Mae'r system dileu ffioedd yn bodoli i sicrhau na wrthodir mynediad at y llysoedd i unigolion sy'n wirioneddol methu â fforddio'r ffi.

Mae Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd EM yn adrodd ar y segmentau busnes sifil a thribiwnlys. Mae'r busnes sifil yn cynnwys dwy ffrwd fusnes: teulu (sy'n cynnwys profiant anghynhennus a'r llys gwarchod) a sifil (sy'n cynnwys busnes sifil yn y llysoedd sirol, yr uwch lysoedd a'r llysoedd ynadon): tra bod gan y busnes tribiwnlys dair ffrwd fusnes: mewnfudo a lloches, cyflogaeth a thribiwnlysoedd eraill lle codir ffioedd (gan gynnwys tiroedd, eiddo preswyl, hapchwarae a chydnabod rhywedd).

| | Incwm gros | Incwm a ildiwyd drwy ddileu ffioedd | Incwm net | Gwariant | Diffyg / (gwarged) net | Diffyg / (gwarged) gros | Adennill ffioedd | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | | | Gwirion eddol | Targed |
| | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | % | % |
| | | | | Nodyn 1 | | | Nodyn 2 | |
| **Busnes sifil** | | | | | | | | |
| Teulu [Nodyn 3] | 151,775 | (8,130) | 143,645 | (173,834) | (30,189) | (22,059) | 87% | 100% |
| Sifil [Nodyn 4] | 426,817 | (7,762) | 419,055 | (454,248) | (35,193) | (27,431) | 94% | 100% |
| **Cyfanswm busnes sifil** | **578,592** | **(15,892)** | **562,700** | **(628,082)** | **(65,382)** | **(49,490)** | **92%** | **100%** |
| **Busnes tribiwnlys (Nodyn 5]** | | | | | | | | |
| Mewnfudo a lloches | 11,223 | (604) | 10,618 | (102,826) | (92,208) | (91,603) | 11% | – |
| Cyflogaeth | 12,377 | (3,339) | 9,038 | (71,428) | (62,390) | (59,051) | 17% | |
| Tribiwnlysoedd eraill [Nodyn 6] | 1,344 | (27) | 1,317 | (15,591) | (14,274) | (14,247) | 9% | – |
| **Cyfanswm busnes tribiwnlys** | **24,944** | **(3,970)** | **20,974** | **(189,845)** | **(168,872)** | **(164,901)** | **13%** | **–** |
| **Cyfanswm busnes Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd EM 2014-15** | **603,536** | **(19,862)** | **583,673** | **(817,927)** | **(234,254)** | **(214,391)** | **74%** | **–** |
| **Cyfanswm busnes Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd EM 2013-14 [Nodyn 7]** | **526,720** | **(20,054)** | **506,666** | **(809,321)** | **(302,655)** | **(282,601)** | **65%** | **–** |

Nodiadau:
1. Cyfrifir y costau uchod ar sail costau llawn, ac maent yn cynnwys dyraniad o gostau gorbenion gan gynnwys y swyddfeydd Pencadlys a rhanbarthol.
2. Cyfrifir y targed adennill ffioedd drwy ddefnyddio gwerth y ffioedd a godir yn erbyn gwariant, ar gyfer awdurdodaethau sy'n codi ffioedd.
3. Mae'r Llysoedd Gwarchod a Phrofiant wedi cael eu cynnwys o dan fusnes teulu oherwydd bod eu gwaith yn cael ei weinyddu fel rhan o'r adran deulu yn y model un llys.
4. Mae sifil yn cynnwys busnes sifil yn y llysoedd sirol, uwch lysoedd a'r llysoedd ynadon.
5. Dim ond tribiwnlysoedd sy'n codi ffioedd sydd wedi eu cynnwys yn y tabl uchod. Roedd y targed ar gyfer ffioedd yn y tribiwnlysoedd Mewnfudo a Lloches a Chyflogaeth wedi'i osod yn wreiddiol ar 25% o gost y naill, a 33% o gost y llall, ar gyfer y prosesau hynny sy'n denu ffioedd. Nid oedd unrhyw dargedau ar gyfer adennill costau'n gyffredinol yn yr awdurdodaeth am y flwyddyn 2014-15.
6. Mae tribiwnlysoedd eraill yn cynnwys tiroedd, eiddo preswyl, hapchwarae a chydnabod rhywedd.
7. Cafodd y busnes teulu ei ailstrwythuro'n fodel un llys ar 22 Ebrill 2014 ond mae'r broses bontio'n parhau.

Rhestrir y gorchmynion ffioedd diweddaraf isod, a gellir hefyd eu gweld yn http://www.legislation.gov.uk

- Mae **Gorchymyn (Diwygio) Ffioedd Achosion Sifil ac Achosion Teulu 2015 Rhif 576 [L7]** yn diwygio:
  - Gorchymyn Ffioedd Achosion Sifil 2008/1053[L5] – dalier sylw bod Gorchymyn Ffioedd 2008 hefyd wedi cael ei ddiwygio gan 2008/2853[L19], 2009/1498[L15]; 2011/586[L2], 2013/1410[L13] & 2014/874[L17]
  - Gorchymyn Achosion Teulu 2008/1054[L6] – dalier sylw bod Gorchymyn Ffioedd 2008 hefyd wedi cael ei ddiwygio gan 2008/2856[L22], 2008/316[L27], 2009/1499[L16], 2010/1916[L10], 2011/587[L3], 2013/1407[L10] & 2014/877[L20]
- Mae **Gorchmynion (Diwygio) Ffioedd Profiant Anghynhennus 2014 Rhif 876 [L19]** yn diwygio Gorchymyn Ffioedd Profiant Anghynhennus 2004/3210[L22]- dalier sylw bod Gorchmynion Ffioedd 2004 hefyd wedi cael ei ddiwygio gan 2007/2174[L14], 2008/2854[L20], 2009/1497[L14], 2011/588[L4], 2013/1408[L11]
- **Gorchymyn (Diwygio) Ffioedd Llysoedd Ynadon 2014 Rhif 875 [L.18]** sy'n diwygio Gorchymyn Ffioedd Llysoedd Ynadon 2008/1052[L4] – dalier sylw bod Gorchymyn Ffioedd 2008 hefyd wedi cael ei ddiwygio gan 2008/2855[L21], 2009/1496[L13], 2010/731[L4], 2010/1917[L11], 2013/1409[L12] & 2014/875[L18]
- **Gorchymyn (Diwygio) Ffioedd y Llys Gwarchod 2009/513[L3]** sy'n diwygio Gorchymyn Ffioedd y Llys Gwarchod 2007/1745[L13]
- **Gorchymyn Ffioedd y Tribiwnlys Haen Gyntaf (Siambr Mewnfudo a Lloches) 2011/2841.**
- **Gorchmynion (Diwygio) Ffioedd Yr Uwch Dribiwnlys (Siambr Mewnfudo a Lloches) (Adolygiad Barnwrol) (Cymru a Lloegr) 2014/878[L.21]**, sy'n diwygio Gorchymyn Ffioedd Yr Uwch Dribiwnlys (Siambr Mewnfudo a Lloches) (Adolygiad Barnwrol) (Cymru a Lloegr) 2011/2344 – dalier sylw bod Gorchymyn Ffioedd 2011 hefyd wedi cael ei ddiwygio gan 2013/2069
- **Gorchmynion (Diwygio) Ffioedd Yr Uwch Dribiwnlys (Siambr Tiroedd) 2014 Rhif 1904** sy'n diwygio Gorchymyn Ffioedd y Siambr Tiroedd 2009/1114 – dalier sylw bod Gorchymyn Ffioedd 2009 hefyd wedi cael ei ddiwygio gan 2010/2601 & 2013/119
- **Gorchymyn (Diwygio) Ffioedd Y Tribiwnlys Haen Gyntaf (Siambr Eiddo) 2014/1182** sy'n diwygio Gorchymyn Ffioedd Yr Haen Gyntaf (Siambr Eiddo) 2013/1179
- **Gorchymyn (Diwygio) Ffioedd Y Tribiwnlys Haen Gyntaf (Hapchwarae) 2010 Rhif 633**, sy'n diwygio Gorchymyn Ffioedd Y Tribiwnlys Haen Gyntaf (Hapchwarae) 2010 Rhif 42
- **Gorchymyn (Diwygio) (Ffioedd Ymgeisio) Cydnabod Rhywedd 2012/920** sy'n diwygio Gorchmynion (Ffioedd Ymgeisio) Cydnabod Rhywedd 2006/758 – dalier sylw bod Gorchymyn Ffioedd 2006 hefyd wedi cael ei ddiwygio gan 2007/839, 2008/715, 2009/489, 2011/628
- **Gorchymyn (Diwygio) Ffioedd y Tribiwnlysoedd Cyflogaeth a'r Tribiwnlys Apeliadau Cyflogaeth 2015 /414** sy'n diwygio Gorchymyn Ffioedd y Tribiwnlysoedd Cyflogaeth a'r Tribiwnlys Apeliadau Cyflogaeth 2013 Rhif 1893

# 6 Eiddo a chyfarpar

| | 2014-15 | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | Tir ac eithrio tai annedd | Adeiladau ac eithrio tai annedd | Tir ar gyfer tai annedd | Tai annedd | Technoleg gwybodaeth | Cyfarpar | Dodrefn, ffitiadau a gosodion | Asedau ar ganol eu creu | Cyfanswm |
| | Nodiadau 6.1, 6.3, 6.4 | Nodiadau 6.1, 6.3, 6.4 | Nodyn 6.2 | Nodyn 6.2 | | | | | |
| | £000 | £000 | £000 | £000 | £000 | £000 | £000 | £000 | £000 |
| **Cost neu brisiad** | | | | | | | | | |
| **Ar 1 Ebrill 2014** | **481,453** | **2,356,577** | **8,762** | **12,653** | **30,667** | **63,278** | **33,123** | **49,426** | **3,035,939** |
| Ychwanegiadau | – | 5,934 | – | 4 | (3) | 995 | 89 | 37,234 | 44,253 |
| Gwarediadau | (70) | (88) | – | (12) | (1,564) | (1,512) | (380) | (223) | (3,849) |
| Ail-ddosbarthiadau | 68 | 49,531 | – | 104 | (727) | 533 | – | (50,075) | (566) |
| Ailbrisiad | 48,479 | 127,855 | 549 | 377 | 296 | 102 | – | – | 177,658 |
| Amhariad | – | – | – | – | – | – | – | – | – |
| Asedau wedi eu hail-ddosbarthu'n asedau a ddelir i'w gwerthu | (650) | (573) | – | – | – | – | – | – | (1,223) |
| Trosglwyddiadau o'r MoJ | – | – | – | – | – | 1,166 | – | 2 | 1,168 |
| Trosglwyddiadau i mewn gan gyrff cyhoeddus eraill | – | – | – | – | – | – | – | – | – |
| **Ar 31 Mawrth 2015** | **529,280** | **2,539,236** | **9,311** | **13,126** | **28,669** | **64,562** | **32,832** | **36,364** | **3,253,380** |
| **Dibrisio** | | | | | | | | | |
| **Ar 1 Ebrill 2014** | – | – | – | – | **(7,865)** | **(45,300)** | **(23,783)** | – | **(76,948)** |
| A godwyd yn y flwyddyn | (564) | (95,523) | (13) | (698) | (4,677) | (6,748) | (3,081) | | (111,304) |
| Gwarediadau | – | 8 | – | – | 600 | 1,382 | 299 | – | 2,289 |
| Ail-ddosbarthiadau | – | – | – | – | | – | | – | – |
| Ailbrisiadau | 564 | 95,516 | 13 | 698 | (77) | (66) | – | – | 96,648 |
| Amhariad | – | – | – | – | – | – | – | – | – |
| Trosglwyddiadau o'r MoJ | – | – | – | – | – | – | – | – | – |
| **Ar 31 Mawrth 2015** | – | **1** | – | – | **(12,019)** | **(50,732)** | **(26,565)** | – | **(89,315)** |
| **Gwerth llyfr net ar 31 Mawrth 2015** | **529,280** | **2,539,237** | **9,311** | **13,126** | **16,650** | **13,830** | **6,267** | **36,364** | **3,164,065** |
| **Gwerth llyfr net ar 31 Mawrth 2014** | **481,453** | **2,356,577** | **8,762** | **12,653** | **22,802** | **17,978** | **9,340** | **49,426** | **2,958,991** |
| **Cyllido asedau** | | | | | | | | | |
| Wedi eu perchenogi | 462,682 | 2,066,356 | 6,976 | 10,458 | 16,650 | 13,830 | 6,267 | 36,364 | 2,619,583 |
| Ar brydles gyllid | 50,363 | 297,908 | 2,335 | 2,668 | – | – | – | – | 353,274 |
| Contractau PFI ar y fantolen | 16,235 | 174,973 | – | – | – | – | – | – | 191,208 |
| **Gwerth llyfr ar 31 Mawrth 2015** | **529,280** | **2,539,237** | **9,311** | **13,126** | **16,650** | **13,830** | **6,267** | **36,364** | **3,164,065** |

| | 2013-14 | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | Tir ac eithrio tai annedd | Adeiladau ac eithrio tai annedd | Tir ar gyfer tai annedd | Tai annedd | Technoleg gwybodaeth | Cyfarpar | Dodrefn, ffitiadau a gosodion | Asedau ar ganol eu creu | Cyfanswm |
| | Nodiadau 6.1, 6.3, 6.4 | Nodiadau 6.1, 6.3, 6.4 | Nodyn 6.2 | Nodyn 6.2 | | | | | |
| | £000 | £000 | £000 | £000 | £000 | £000 | £000 | £000 | £000 |
| **Cost neu brisiad** | | | | | | | | | |
| **Ar 1 Ebrill 2013** | **459,002** | **2,237,361** | **7,756** | **12,373** | **17,770** | **60,732** | **32,941** | **64,722** | **2,892,657** |
| Ychwanegiadau | 69 | 9,874 | – | 501 | 50 | 732 | 130 | 50,554 | 61,910 |
| Gwarediadau | – | (5) | – | – | (2,831) | (1,500) | (166) | 28 | (4,474) |
| Ail-ddosbarthiadau | – | 60,746 | – | 581 | (469) | 641 | – | (61,364) | 135 |
| Ailbrisiad | 24,834 | 75,425 | 949 | (256) | (322) | 2,191 | 199 | – | 103,020 |
| Amhariad | 4,014 | (20,900) | 57 | (546) | (389) | – | 19 | (4,484) | (22,229) |
| Asedau wedi eu hail-ddosbarthu'n asedau a ddelir i'w gwerthu | (9,565) | (7,198) | – | – | – | – | – | – | (16,763) |
| Trosglwyddiadau o'r MoJ | 104 | 642 | – | – | 16,858 | 482 | – | (30) | 18,056 |
| Trosglwyddiadau i mewn gan gyrff cyhoeddus eraill | 2,995 | 632 | – | – | – | – | – | – | 3,627 |
| **Ar 31 Mawrth 2014** | **481,453** | **2,356,577** | **8,762** | **12,653** | **30,667** | **63,278** | **33,123** | **49,426** | **3,035,939** |
| **Dibrisio** | | | | | | | | | |
| **Ar 1 Ebrill 2013** | – | – | – | – | **(7,191)** | **(38,196)** | **(20,638)** | – | **(66,025)** |
| A godwyd yn y flwyddyn | (451) | (90,801) | (11) | (631) | (2,885) | (7,116) | (3,114) | – | (105,009) |
| Gwarediadau | – | – | – | – | 2,613 | 1,330 | 117 | – | 4,060 |
| Ailbrisiadau | 384 | 46,900 | 11 | 404 | 91 | 1,318 | 141 | – | 46,331 |
| Amhariad | 67 | 43,990 | – | 227 | 14 | – | 7 | – | 44,291 |
| Trosglwyddiadau o'r MoJ | – | (89) | – | – | (507) | – | – | – | (596) |
| **Ar 31 Mawrth 2014** | – | – | – | – | **(7,865)** | **(45,300)** | **(23,783)** | – | **(76,948)** |
| **Gwerth llyfr net ar 31 Mawrth 2014** | **481,453** | **2,356,577** | **8,762** | **12,653** | **22,802** | **17,978** | **9,340** | **49,426** | **2,958,991** |
| **Gwerth llyfr net ar 31 Mawrth 2013** | **459,002** | **2,237,361** | **7,756** | **12,373** | **10,579** | **22,536** | **12,303** | **64,722** | **2,826,632** |
| **Cyllido asedau** | | | | | | | | | |
| Wedi eu perchenogi | 423,544 | 1,912,579 | 6,577 | 10,053 | 22,802 | 17,978 | 9,340 | 49,426 | 2,452,299 |
| Ar brydles gyllid | 42,539 | 275,111 | 2,185 | 2,600 | – | – | – | – | 322,435 |
| Contractau PFI ar y fantolen | 15,370 | 168,887 | – | – | – | – | – | – | 184,257 |
| **Gwerth llyfr ar 31 Mawrth 2014** | **481,453** | **2,356,577** | **8,762** | **12,653** | **22,802** | **17,978** | **9,340** | **49,426** | **2,958,991** |

Nodiadau:

6.1 9.1

O dan dir ac adeiladau ac eithrio tai annedd, cynhwysir asedau contract Mentrau Cyllid Preifat (PFI) gyda gwerth llyfr net o £191.2m (2013-14: £184.2m) a dibrisiad wedi'i godi yn y flwyddyn o £4.4m (2013-14: £4.6m); hefyd asedau prydlesi cyllid gyda gwerth llyfr net o £348.3m (2013-14: £317.9m) a dibrisiad wedi'i godi yn y flwyddyn o £17.2m (2013-14: £15.7m). O dan adeiladau ac eithrio tai annedd, mae £89.0m (2013-14: £88.2m) ar gyfer gwelliannau lesddaliad.

6.2 9.1
O dan dir ar gyfer tai annedd, cynhwysir prydlesi cyllid gyda gwerth llyfr net o £2.3m (2013-14: £2.2m) a dibrisiad wedi'i godi yn y flwyddyn o £0.01m (2013-14: £0.01m). 9.1
O dan Tai Annedd, cynhwysir asedau prydlesi cyllid gyda gwerth llyfr net o £2.7m (2013-14: £2.6m) a dibrisiad wedi'i godi yn y flwyddyn o £0.3m (2012-13: £0.4m).

6.3 Mae'r holl asedau heblaw am 'Dir ac Adeiladau (ac eithrio tai annedd)' ac 'Asedau ar Ganol eu Creu' yn cael eu prisio'n defnyddio Mynegai Prisiau Cynhyrchydd yr ONS.

6.4 Fel rhan o adolygiad parhaus o wneud y defnydd gorau o'r ystâd llysoedd, mae adolygiad yn cael ei wneud o hyfywedd y cynlluniau datblygu mewn nifer o safleoedd. O ganlyniad, mae hyn wedi arwain at gydnabod amhariad eiddo a chyfarpar o £nil (2013-14: £4.5m) yn y SoCNE i adlewyrchu'r lleihad yng ngwerth yr asedau sydd ar ganol eu creu.

## 7 Asedau a ddelir i'w gwerthu

Fel rhan o adolygiad parhaus o resymoli'r llysoedd, mae Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd EM wedi ymrwymo i gynllun i werthu nifer o eiddo dros ben (tir ac adeiladau) a ddefnyddiwyd yn flaenorol i ddarparu gwasanaethau llys. Mae rhaglen weithredol i ddod o hyd i brynwyr ac i gwblhau'r broses o werthu pob eiddo wedi cychwyn ac mae asiantau tai wrthi'n marchnata'r eiddo. Mae'r eiddo ar gael i'w gwerthu yn eu cyflwr presennol ac mae gwerthu'n debygol iawn o ddigwydd o fewn blwyddyn i ddyddiad eu dosbarthu'n asedau a ddelir i'w gwerthu yn y SoFP.

Mae elw net ar waredu asedau a ddelir i'w gwerthu ar 31 Mawrth 2015 o £3.3m (ar 31 Mawrth 2014 - £2.3m) wedi'i gynnwys o dan golled net ar waredu eiddo a chyfarpar o dan Gostau Rhaglen Eraill yn y SoCNE.

| | Nodiadau | 2014-15 | 2013-14 |
|---|---|---|---|
| | | £000 | £000 |
| **Ar ddechrau'r cyfnod** | | **17,854** | **18,349** |
| Asedau a ail-ddosbarthwyd o eiddo a chyfarpar | 6 | 1,223 | 16,763 |
| Cynnydd yng ngwerth teg yr asedau a ddelir i'w gwerthu | 4.1 | 3,919 | – |
| Amhariad | 4.1 | – | (1,382) |
| Gwarediadau | | (13,323) | (15,876) |
| **Ar ddiwedd y cyfnod** | | **9,673** | **17,854** |

## 8 Asedau anniriaethol

| | 2014-15 | | |
|---|---|---|---|
| | Technoleg gwybodaeth | Asedau ar ganol eu creu | Cyfanswm |
| | £000 | £000 | £000 |
| **Cost neu brisiad** | | | |
| **Ar 1 Ebrill 2014** | **120,471** | **21** | **120,492** |
| Ychwanegiadau | | 5 | 5 |
| Gwarediadau | (6) | (22) | (28) |
| Ail-ddosbarthiadau | 6,139 | (5,573) | 566 |
| Amhariad | – | – | – |
| Ailbrisiadau | 1,361 | – | 1,361 |
| Trosglwyddiadau o'r MoJ | 4,493 | 5,573 | 10,066 |
| **Ar 31 Mawrth 2015** | **132,458** | **4** | **132,462** |
| | | | |
| **Amorteiddio** | | | |
| **Ar 1 Ebrill 2014** | **70,809** | **–** | **70,809** |
| A godwyd yn y flwyddyn | (17,168) | – | (17,168) |
| Gwarediadau | – | – | – |
| Ail-ddosbarthiadau | – | – | – |
| Ailbrisiadau | (715) | – | (715) |
| Trosglwyddiadau o'r MoJ | – | – | – |
| **Ar 31 Mawrth 2015** | **(88,692)** | **–** | **(88,692)** |
| **Gwerth llyfr ar 31 Mawrth 2015** | **43,766** | **4** | **43,770** |
| **Gwerth llyfr ar 31 Mawrth 2014** | **49,662** | **21** | **49,683** |
| | | | |
| **Cyllido asedau:** | | | |
| Wedi eu perchenogi | **43,766** | **4** | **43,770** |
| Ar brydles gyllid | – | – | – |
| Contractau PFI | – | – | – |
| **Gwerth llyfr ar 31 Mawrth 2015** | **43,766** | **4** | **43,770** |

| | 2013-14 | | |
|---|---|---|---|
| | **Technoleg gwybodaeth** | **Asedau ar ganol eu creu** | **Cyfanswm** |
| | £000 | £000 | £000 |
| **Cost neu brisiad** | | | |
| **Ar 1 Ebrill 2013** | **105,836** | **158** | **105,994** |
| Ychwanegiadau | 271 | 68 | 339 |
| Gwarediadau | – | (359) | (359) |
| Ail-ddosbarthiadau | 477 | (612) | (135) |
| Amhariad | (271) | (1,526)* | (1,797) |
| Ailbrisiadau | (2,584) | – | (2,584) |
| Trosglwyddiadau o’r MoJ | 16,742 | 2,292 | 19,034 |
| **Ar 31 Mawrth 2014** | **120,471** | **21** | **120,492** |
| | | | |
| **Amorteiddio** | | | |
| **Ar 1 Ebrill 2013** | **(52,395)** | **–** | **(52,395)** |
| A godwyd yn y flwyddyn | (17,068) | – | (17,068) |
| Ailbrisiadau | 1,168 | – | 1,168 |
| Trosglwyddiadau o adrannau / asiantaethau eraill | (2,514) | – | (2,514) |
| **Ar 31 Mawrth 2014** | **(70,809)** | **–** | **(70,809)** |
| **Gwerth llyfr ar 31 Mawrth 2014** | **49,662** | **21** | **49,683** |
| **Gwerth llyfr ar 31 Mawrth 2013** | **53,441** | **158** | **53,599** |

| | | | |
|---|---|---|---|
| **Cyllido asedau:** | | | |
| Wedi eu perchenogi | **49,662** | **21** | **49,683** |
| Ar brydles gyllid | – | – | – |
| Contractau PFI | – | – | – |
| **Gwerth llyfr ar 31 Mawrth 2014** | **49,662** | **21** | **49,683** |

*Yn 2013-14 amharodd Wasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd EM wariant datblygu ar ddefnyddio system TG, y GAPS2, i faes busnes ychwanegol ar ôl ail-werthuso manteision economaidd yr achos busnes.

Rhoddir manylion isod am werthoedd llyfr net a gweddill bywydau amorteiddio asedau perthnasol unigol o dan asedau anniriaethol.

| Disgrifiad o'r ased | 2014-15 Gwerth llyfr net | 2014-15 Gweddill y cyfnod amorteiddio (blynyddoedd) | 2013-14 Gwerth llyfr net | 2013-14 Gweddill y cyfnod amorteiddio (blynyddoedd) |
|---|---|---|---|---|
| | £000 | | £000 | |
| Systemau busnes gweithredol llysoedd ynadon | 3,757 | 2 | 6,511 | 3 |
| Rhaglen uwchraddio'r meddalwedd yn system rheoli achosion | 14,688 | 2 | 22,053 | 3 |
| Cyflwyno meddalwedd y gwasanaeth trawsgrifio recordiadau sain digidol (DARTS) | 5,824 | 2 | 8,325 | 3 |
| Data diogel sifil a theulu | 12,288 | 5 | 8,181 | 6 |

## 9 Offerynnau ariannol

IFRS 7 – 'Offerynnau ariannol: Datgeliadau'. O dan hwn, rhaid datgelu'r rôl y mae'r offerynnau ariannol wedi ei chwarae dros y cyfnod mewn creu neu newid y risgiau a wynebir gan gorff wrth gyflawni ei fusnes.

Oherwydd bod Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd EM yn cael ei gyllido drwy'r MoJ, nid yw'n wynebu'r un faint o risg ariannol neu risg marchnad ag endid busnes. Mae offerynnau ariannol hefyd yn chwarae rôl llawer llai mewn creu neu newid risg nag y byddai'n arferol yn y cwmnïau rhestredig y mae IFRS 7 yn bennaf berthnasol iddynt. Nid oes gan Wasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd EM unrhyw bwerau i gael benthyg neu fuddsoddi cyllid dros ben. Cyfyd ei asedau a'i rwymedigaethau ariannol o weithgareddau gweithredol o ddydd i ddydd ac ni ddelir hwynt i risgiau rhagfantoli sy'n codi o'r gweithgareddau hyn. Felly nid yw Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd EM yn agored i risg hylifedd, cyfraddau llog nag arian tramor sylweddol.

Cyfyd risgiau credyd o asedau ariannol Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd EM, sy'n cynnwys arian a symiau cyfwerth ag arian parod, derbyniadau masnachol a derbyniadau eraill ynghyd ag asedau ariannol eraill. Cyfyd y risg credyd a wynebir gan Wasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd EM o'r posibilrwydd y bydd parti arall yn diffygdalu ar eu hymrwymiadau cytundebol gan arwain at golled ariannol i'r Gwasanaeth.

Mae unrhyw risg credyd sy'n gysylltiedig â derbyniadau Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd EM yn fach iawn oherwydd mae'r rhan fwyaf o falansau ei ddyledwyr gyda chyrff eraill y llywodraeth. Mae risg credyd yng nghyswllt derbyniadau hefyd yn cael ei monitro gan reolwyr yn gyson drwy adolygu'r derbyniadau wrth iddynt heneiddio. Y golled fwyaf y mae Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd EM yn agored iddi yw gwerth llyfr ei asedau ariannol o fewn y SoFP.

### Gwerthoedd teg

Mae gwerthoedd teg asedau a rhwymedigaethau ariannol Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd EM ar 31 Mawrth 2015 a 31 Mawrth 2014 yn agos at eu gwerthoedd llyfr.

## 10 Derbyniadau masnachol ac eraill

Symiau sy'n ddyledus o fewn blwyddyn:

| | 2014-15 | 2013-14 |
|---|---|---|
| | £000 | £000 |
| Derbyniadau masnachol | 15,229 | 10,018 |
| Derbyniadau eraill: | | |
| TAW y gellir ei adennill | 12,393 | 10,695 |
| Dyledwyr mewn-adrannol | 47,074 | 29,452 |
| Rhagdaliadau a refeniw wedi cronni | 30,247 | 29,097 |
| Derbyniadau eraill | 1,002 | 4,592 |
| **Cyfanswm y symiau sy'n ddyledus o fewn blwyddyn** | **105,945** | **83,854** |

Symiau sy'n ddyledus ar ôl blwyddyn:

| | 2014-15 | 2013-14 |
|---|---|---|
| | £000 | £000 |
| Derbyniadau eraill | 35 | 53 |
| Rhagdaliadau | 8 | 135 |
| **Cyfanswm y symiau sy'n ddyledus ar ôl blwyddyn** | **43** | **188** |

### 10.1 Dadansoddiad o falansau derbyniadau yn ôl y math o sefydliad

| | 2014-15 | | 2013-14 | |
|---|---|---|---|---|
| | Symiau sy'n ddyledus o fewn blwyddyn | Symiau sy'n ddyledus ar ôl blwyddyn | Symiau sy'n ddyledus o fewn blwyddyn | Symiau sy'n ddyledus ar ôl blwyddyn |
| | £000 | £000 | £000 | £000 |
| Cyrff eraill llywodraeth ganolog | 64,803 | – | 46,917 | – |
| Awdurdodau lleol | 2,229 | – | 1,621 | 135 |
| Cyrff y GIG | 21 | – | 2 | – |
| Corfforaethau cyhoeddus a chronfeydd masnach | 741 | – | 922 | – |
| Cyrff y tu allan i'r llywodraeth | 38,151 | 43 | 34,392 | 53 |
| **Cyfanswm derbyniadau masnachol ac eraill** | **105,945** | **43** | **83,854** | **188** |

## 11 Arian parod a symiau cyfwerth ag arian parod

| | 2014-15 | 2013-14 |
|---|---|---|
| | £000 | £000 |
| **Ar ddechrau'r cyfnod** | **25,691** | **(57,394)** |
| Cynnydd / (lleihad) mewn balansau arian parod | (3,089) | 83,085 |
| **Ar ddiwedd y cyfnod** | **22,602** | **25,691** |

| | | |
|---|---|---|
| **Roedd y balansau canlynol wedi eu dal ar 31 Mawrth gan:** | | |
| Gwasanaeth Bancio'r Llywodraeth | 22,526 | 25,603 |
| Arian mewn llaw | 65 | 62 |
| Imprestau | 11 | 26 |
| **Cyfanswm arian parod a symiau cyfwerth ag arian parod** | **22,602** | **25,691** |

## 12 Taladwyon masnachol ac eraill

Symiau sy'n ddyledus o fewn blwyddyn:

| | 2014-15 | 2013-14 |
|---|---|---|
| | £000 | £000 |
| Nawdd cymdeithasol a threth arall | 26,952 | 16,778 |
| Taladwyon masnachol | – | 3,630 |
| Taladwyon eraill | 18,865 | 19,032 |
| Credydwyr mewn-adrannol | 63,802 | 44,080 |
| Croniadau a refeniw wedi'i ohirio | 146,138 | 137,599 |
| Balansau arian parod yn daladwy i adrannau eraill o'r llywodraeth | 4 | – |
| Credydwr am ddiffyg trosglwyddiadau pensiwn: symiau'n daladwy i LGPS | 27,977 | 26,456 |
| Prydlesi cyllid | 135 | 110 |
| Elfen prydlesi cyllid priodoledig y contractau PFI ar y fantolen | 8,926 | 8,926 |
| **Cyfanswm y symiau sy'n ddyledus o fewn blwyddyn** | **292,799** | **256,611** |

Symiau sy'n ddyledus ar ôl blwyddyn:

| | 2014-15 | 2013-14 |
|---|---|---|
| | £000 | £000 |
| Elfen gyfalaf y contractau PFI | 113,310 | 122,236 |
| Taladwyon eraill | 119,736 | 115,331 |
| Credydwr am ddiffyg trosglwyddiadau pensiwn: symiau'n daladwy i LGPS | 156,654 | 173,970 |
| Rhwymedigaethau o dan brydlesi cyllid | 10,136 | 10,270 |
| **Cyfanswm y symiau sy'n ddyledus ar ôl blwyddyn** | **399,836** | **421,807** |

### 12.1 Dadansoddiad o daladwyon yn ôl y math o sefydliad

| | 2014-15 | | 2013-14 | |
|---|---|---|---|---|
| | Symiau sy'n ddyledus o fewn blwyddyn | Symiau sy'n ddyledus ar ôl blwyddyn | Symiau sy'n ddyledus o fewn blwyddyn | Symiau sy'n ddyledus ar ôl blwyddyn |
| | £000 | £000 | £000 | £000 |
| Cyrff eraill llywodraeth ganolog | 118,847 | – | 84,988 | – |
| Awdurdodau lleol | 31,170 | 186,822 | 32,580 | 206,855 |
| Cyrff y GIG | 35 | – | 24 | – |
| Corfforaethau cyhoeddus a chronfeydd masnach | 29 | – | 451 | – |
| Cyrff y tu allan i'r llywodraeth | 142,718 | 213,014 | 138,568 | 214,952 |
| **Cyfanswm y taladwyon masnachol ac eraill** | **292,799** | **399,836** | **256,611** | **421,807** |

## 13 Nodiadau ar y datganiad llif arian

Dyma grynodeb o'r costau tybiannol a heb fod yn arian parod am y flwyddyn a ddaeth i ben:

| | 2014-15 | 2013-14 |
|---|---|---|
| | £000 | £000 |
| **Costau tybiannol** | | |
| Costau barnwrol y gronfa gyfunol – cyflogau misol ac wythnosol | 125,064 | 125,353 |
| Costau barnwrol y gronfa gyfunol – costau nawdd cymdeithasol | 15,456 | 15,493 |
| Tâl archwilwyr allanol | 320 | 350 |
| Taliadau adrannol yr ail-godwyd amdanynt | 101,961 | 84,224 |
| **Costau tybiannol** | **242,801** | **225,420** |
| | | |
| **Costau heb fod yn arian parod** | | |
| Colled / (elw) net ar ôl gwaredu eiddo a chyfarpar | (1,862) | (1,532) |
| Lleihad / (cynnydd) yng ngwerth eiddo a chyfarpar | (87,473) | (26,545) |
| Amhariad ar eiddo a chyfarpar | – | 4,484 |
| Amhariad ar asedau anniriaethol | – | 1,526 |
| Lleihad / (cynnydd) yng ngwerth teg asedau anniriaethol | (106) | 270 |
| Lleihad yng ngwerth teg yr asedau a ddelir i'w gwerthu | (3,919) | 1,382 |
| Amorteiddio rhagdaliad ar brydlesi gweithredol | 5 | 5 |
| Grantiau cyfalaf – trosglwyddo eiddo | 615 | – |
| Llinell syth taliadau prydlesi gweithredol | 7,250 | 6,159 |
| Symudiad mewn darpariaethau | 5,187 | 20,781 |
| Symudiad mewn darpariaethau dyledion drwg | 2,254 | (129) |
| Dibrisio | 111,304 | 105,009 |
| Amorteiddio | 17,168 | 17,068 |
| **Costau heb fod yn arian parod** | **50,423** | **128,478** |
| | | |
| **Cyfanswm costau tybiannol a heb fod yn arian parod** | **293,224** | **353,898** |

### 13.1 Cysoni eiddo a chyfarpar

| | Nodiadau | 2014-15 | 2013-14 |
|---|---|---|---|
| | | £000 | £000 |
| Ychwanegiadau | | | |
| Eiddo a chyfarpar | 6 | 44,253 | 61,910 |
| A hefyd: | | | |
| Symudiad mewn croniadau cyfalaf | | (351) | 4,560 |
| **Cyfanswm yr ychwanegiadau am bob datganiad llif arian** | | **43,902** | **66,470** |

## 14 Darpariaethau ar gyfer rhwymedigaethau a thaliadau

| | Nodiadau | 2014-15 | 2013-14 |
|---|---|---|---|
| | | £000 | £000 |
| Darpariaeth ar gyfer costau gadael yn fuan | 14.1 | 114,210 | 112,394 |
| Darpariaeth ar gyfer cynllun pensiwn cydweddol | 14.2 | 4,908 | 4,493 |
| Darpariaeth ar gyfer dadfeiliadau | 14.3 | 19,698 | 19,507 |
| Darpariaethau eraill | 14.4 | 8,436 | 8,850 |
| **Cyfanswm y darpariaethau** | | **147,252** | **145,244** |

Daw'r darpariaethau ar gyfer rhwymedigaethau a thaliadau'n ddyledus fel a ganlyn:

| | 2014-15 | 2013-14 |
|---|---|---|
| | £000 | £000 |
| Un flwyddyn | 10,865 | 11,866 |
| Dwy i bum mlynedd | 36,028 | 39,127 |
| Mwy na phum mlynedd | 100,359 | 94,251 |
| **Cyfanswm y darpariaethau** | **147,252** | **145,244** |

### 14.1 Darpariaeth ar gyfer costau gadael yn fuan

| | 2014-15 | 2013-14 |
|---|---|---|
| | £000 | £000 |
| **Ar ddechrau'r cyfnod** | **112,394** | **109,434** |
| Cynnydd mewn darpariaeth | 4,589 | 7,218 |
| Ymddatod y disgownt | 4,536 | 4,131 |
| A ddefnyddiwyd yn y flwyddyn | (7,309) | (8,389) |
| **Ar ddiwedd y cyfnod** | **114,210** | **112,394** |

Gwnaed darpariaeth ar gyfer costau buddion ymddeol yn fuan heb eu cyllido ar gyfer rhai staff y llysoedd ynadon. Mae'r ddarpariaeth yn cynrychioli gwerth presennol costau'r buddion sy'n daladwy i staff ar delerau ymddeol yn fuan Crombie a llywodraeth leol.

Hefyd yn y costau gadael yn fuan, cynhwysir darpariaeth ar gyfer costau ymddeol yn fuan heb eu cyllido ar gyfer staff Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd EM yn y Prif Gynllun. Gwnaed darpariaeth hefyd ar gyfer costau'n ymwneud â'r rhaglen ad-drefnu a moderneiddio.

Defnyddiwyd cyfradd llog o 3.55% (2013-14: 4.35%) i asesu costau llog rhwymedigaethau'r cynllun ac mae taliadau amcangyfrifiedig yn y dyfodol wedi eu disgowntio ar gyfradd o 1.30% (2013-14: 1.80%).

Mae'r ddarpariaeth ar gyfer costau gadael yn fuan a gofnodir uchod ar wahân i gostau'r cynllun VED a gofnodir yn nodyn 3.1.3.

## 14.2 Cynllun pensiwn cydweddol

| | 2014-15 | 2013-14 |
|---|---|---|
| | £000 | £000 |
| **Ar ddechrau'r cyfnod** | **4,493** | **3,887** |
| Cynnydd mewn darpariaeth | 204 | 159 |
| Taliadau llog | 196 | 158 |
| Colledion / (enillion) actiwaraidd ar rwymedigaethau'r cynllun | 221 | 504 |
| A ddefnyddiwyd yn y flwyddyn | (206) | (215) |
| **Ar ddiwedd y cyfnod** | **4,908** | **4,493** |

Mae darpariaeth y cynllun pensiwn cydweddol yn ymwneud â thri chynllun pensiwn ar gyfer y Tribiwnlys Digolledu am Anafiadau Troseddol (CIC), y Siambr Mewnfudo a Lloches (IAC) a'r Tribiwnlys Eiddo Preswyl (RPT). Mae gan y cynlluniau hyn 1 aelod, 11 aelod a 26 aelod, yn ôl eu trefn.

Cafodd rwymedigaethau'r cynlluniau eu prisio gan Adran Actiwari'r Llywodraeth (GAD) ar 31 Mawrth 2015 ac mae'r costau llog a gwasanaeth cyfredol cysylltiedig wedi eu codi ar y SoCNE.

Cyfeirir at y cynlluniau fel 'cynlluniau pensiwn cydweddol' oherwydd eu bod yn debyg i'r PCSPS. Fodd bynnag, cyllidir y cynlluniau hyn gan bleidlais yr adran a gweinyddir y taliadau pensiwn gan yr adran a thrwy'r system gyflogres.

## 14.3 Dadfeiliadau

| | 2014-15 | 2013-14 |
|---|---|---|
| | £000 | £000 |
| **Ar ddechrau'r cyfnod** | 19,507 | 8,800 |
| Cynnydd mewn darpariaeth | 345 | 11,318 |
| A ddefnyddiwyd yn y flwyddyn | (154) | (611) |
| **Ar ddiwedd y cyfnod** | **19,698** | **19,507** |

## 14.4 Darpariaethau eraill

| | 2014-15 | 2013-14 |
|---|---|---|
| | £000 | £000 |
| **Ar ddechrau'r cyfnod** | 8,850 | 5,569 |
| Cynnydd mewn darpariaeth | 49 | 9,164 |
| A ddefnyddiwyd yn y flwyddyn | (464) | (3,320) |
| Ymddatod y disgownt | 1 | (2,563) |
| **Ar ddiwedd y cyfnod** | **8,436** | **8,850** |

## 15 Ymrwymiadau cyfalaf

| | 2014-15 | 2013-14 |
|---|---|---|
| | £000 | £000 |
| Ymrwymiadau cyfalaf ar ddiwedd y cyfnod na chawsant eu cynnwys fel arall yn y cyfrifon hyn: | | |
| Eiddo a chyfarpar | 17,366 | 6,443 |
| **Cyfanswm ymrwymiadau cyfalaf** | **17,366** | **6,443** |

## 16 Prydlesi gweithredol

Mae Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd EM yn prydlesu amrywiol dir ac adeiladau o dan gytundebau prydlesi gweithredol na ellir eu canslo. Mae’r tir a’r adeiladau yn cynnwys cyfleusterau llys yn bennaf, sydd â thelerau prydles rhwng 2 a 40 o flynyddoedd. Nid oes gan y prydlesi gweithredol opsiynau i brynu, er bod gan rai ohonynt gymalau codi'r pris a thelerau adnewyddu. Mae adnewyddu prydles yn cael ei negodi gyda’r lesydd yn unol â darpariaethau’r cytundebau prydles unigol.

Mae Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd EM hefyd yn prydlesu cerbydau o dan gytundebau prydlesi gweithredol na ellir eu canslo. Mae telerau’r prydlesi hyn rhwng 1 a 6 o flynyddoedd.

Mae’r gwariant ar brydlesi gweithredol na ellir eu canslo a godir ar y SoCNE yn ystod y flwyddyn yn cael ei ddatgelu yn nodyn 4.

Mae cyfanswm y taliadau prydles isaf yn y dyfodol o dan brydlesi gweithredol na ellir eu canslo, am bob un o'r cyfnodau canlynol, fel a ganlyn:

| | 2014-15 | | | 2013-14 | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | Tir ac adeiladau | Eraill | Cyfanswm | Tir ac adeiladau | Eraill | Cyfanswm |
| | **£000** | **£000** | **£000** | £000 | £000 | £000 |
| Nid hwyrach na blwyddyn | 76,114 | 733 | 76,847 | 76,993 | 706 | 77,699 |
| Hwyrach na blwyddyn ond nid hwyrach na phum mlynedd | 266,354 | 814 | 267,168 | 263,908 | 815 | 264,723 |
| Hwyrach na phum mlynedd | 919,640 | – | 919,640 | 961,699 | – | 961,699 |
| **Cyfanswm yr ymrwymiadau o dan brydlesi gweithredol** | **1,262,108** | **1,547** | **1,263,655** | **1,302,600** | **1,521** | **1,304,121** |

## 17 Prydlesi cyllid

Mae Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd EM yn prydlesu amrywiol adeiladau o dan gytundebau prydlesi gweithredol na ellir eu canslo.

Mae cyfanswm y taliadau prydles isaf yn y dyfodol o dan brydlesi cyllid na ellir eu canslo, am bob un o'r cyfnodau canlynol, fel a ganlyn ar 31 Mawrth:

| | 2014-15 | | | 2013-14 | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | Tir ac adeiladau | Eraill | Cyfanswm | Tir ac adeiladau | Eraill | Cyfanswm |
| | **£000** | **£000** | **£000** | £000 | £000 | £000 |
| Nid hwyrach na blwyddyn | 812 | – | 812 | 798 | – | 798 |
| Hwyrach na blwyddyn ond nid hwyrach na phum mlynedd | 3,069 | – | 3,069 | 3,126 | – | 3,126 |
| Hwyrach na phum mlynedd | 22,969 | – | 22,969 | 23,723 | – | 23,723 |
| Llai: yr elfen llog | (16,579) | – | (16,579) | (17,267) | – | (17,267) |
| **Cyfanswm gwerth presennol y rhwymedigaethau** | **10,271** | **–** | **10,271** | **10,380** | **–** | **10,380** |

Mae gwerth presennol y rhwymedigaethau o dan brydlesi cyllid am y cyfnodau canlynol yn cynnwys:

| | 2014-15 | | | 2013-14 | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | Tir ac adeiladau | Eraill | Cyfanswm | Tir ac adeiladau | Eraill | Cyfanswm |
| | £000 | £000 | £000 | £000 | £000 | £000 |
| Nid hwyrach na blwyddyn | 135 | – | 135 | 109 | – | 109 |
| Hwyrach na blwyddyn ond nid hwyrach na phum mlynedd | 460 | – | 460 | 478 | – | 478 |
| Hwyrach na phum mlynedd | 9,676 | – | 9,676 | 9,793 | – | 9,793 |
| **Cyfanswm gwerth presennol y rhwymedigaethau** | **10,271** | **–** | **10,271** | **10,380** | **–** | **10,380** |

Mae Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd EM yn prydlesu amrywiol adeiladau o dan gytundebau prydlesi gweithredol na ellir eu canslo. Mae'r adeiladau yn cynnwys cyfleusterau llys yn bennaf, sydd â thelerau prydles rhwng 15 a 999 o flynyddoedd. Nid oes gan y prydlesi cyllid opsiynau i brynu, er bod gan rai ohonynt gymalau codi'r pris a thelerau adnewyddu. Mae adnewyddu prydles yn cael ei negodi gyda'r lesydd yn unol â darpariaethau'r cytundebau prydles unigol.

## 18 Menter cyllid preifat

Mae Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd EM wedi ymrwymo i wyth o drefniadau consesiwn gwasanaeth PFI. Rhoddir crynodeb o bob contract PFI isod:

| Enw'r Prosiect | Dyddiad cychwyn y contract | Parhad (blynyddoedd) | Datganiad o'r Sefyllfa Ariannol Ar / Oddi Ar | Gwerth cyfalaf cychwynnol (£m) | Disgrifiad |
|---|---|---|---|---|---|
| Exeter | Tachwedd 2002 | 30 | Ar | 20.1 | Darparu adeilad llys yn cynnwys pedwar llys troseddol, un llys sifil a phedair ystafell gwrandawiad ar gyfer Barnwyr Rhanbarth. Ar ddiwedd cyfnod y contract, bydd yr adeilad yn dychwelyd at Wasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd EM am ddim cost. |
| East Anglia | Hydref 2002 | 25 | Ar | 34.5 | Darparu canolfannau Llys y Goron yn Ipswich a Chaergrawnt. Mae Ipswich yn cynnwys pum llys troseddol; mae Caergrawnt yn cynnwys tri llys troseddol. Ar ddiwedd cyfnod y contract, bydd yr adeiladau yn Ipswich a Chaergrawnt yn dychwelyd at Wasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd EM am ddim cost. |
| Sheffield | Tachwedd 2002 | 25 | Ar | 7.7 | Darparu Canolfan Gwrandawiadau Teulu yn Sheffield. Ar ddiwedd y contract, bydd gan Wasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd EM yr opsiwn o brynu'r isbrydles naill ai am ei gwerth ar y farchnad agored neu £2.0m, pa un bynnag sydd isaf. |
| Llysoedd Ynadon Derbyshire | Awst 2001 | 27 | Ar | 29.5 | Darparu llety gyda gwasanaeth ar gyfer y llysoedd ynadon yn New Mills, Chesterfield a Derby. Gellir ymestyn cyfnod y contract (yn amodol ar gytuno ar delerau sy'n dderbyniol i'r ddwy ochr) am hyd at bum mlynedd. |
| Llysoedd Ynadon Henffordd a Chaerwrangon | Mawrth 2000 | 25 | Ar | 30.6 | Darparu llety gyda gwasanaeth i'r llysoedd ynadon yn Bromsgrove, Kidderminster, Caerwrangon a Redditch. Gellir ymestyn cyfnod y contract am 10 mlynedd arall. |
| Llys Ynadon Manceinion | Mawrth 2001 | 25 | Ar | 32.9 | Darparu adeilad llys gyda 18 o ystafelloedd llys. |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| Llys Ynadon Humberside | Mawrth 2000 | 25 | Ar | 21.6 | Darparu adeiladau llysoedd ynadon gyda gwasanaeth yn Hill, Beverly a Bridlington. Ar ôl dod i ben, mae gan Wasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd EM yr opsiwn o gymryd yr asedau'n ôl am dâl cydnabyddiaeth o £3.0m. |
| Llys Ynadon Avon a Gwlad yr Haf | Awst 2004 | 27 | Ar | 46.6 | Darparu llety gyda gwasanaeth i'r llysoedd ynadon a'r swyddfeydd ym Mryste, Weston-Super-Mare a Flax Bourton. |

## 18.1 Contractau Ar y Fantolen

Rhoddir manylion am y taliadau prydlesi cyllid priodoledig yn y tabl isod am bob un o'r cyfnodau canlynol:

| | 2014-15 | 2013-14 |
|---|---|---|
| | £000 | £000 |
| Rhenti'n ddyledus nid hwyrach na blwyddyn | 15,970 | 16,505 |
| Rhenti'n ddyledus yn hwyrach na blwyddyn ond nid hwyrach na phum mlynedd | 58,524 | 60,666 |
| Rhenti'n ddyledus yn hwyrach na phum mlynedd | 100,986 | 114,814 |
| | **175,480** | **191,985** |
| Llai'r elfen llog | (53,244) | (60,823) |
| **Gwerth presennol y rhwymedigaethau** | **122,236** | **131,162** |

Rhoddir manylion am yr elfen taliadau gwasanaeth isaf yn y tabl isod am bob un o'r cyfnodau canlynol:

| | 2014-15 | 2013-14 |
|---|---|---|
| | £'000 | £'000 |
| Tâl gwasanaeth yn ddyledus o fewn blwyddyn | 23,163 | 21,412 |
| Tâl gwasanaeth yn ddyledus yn hwyrach na blwyddyn ond nid hwyrach na phum mlynedd | 92,652 | 85,648 |
| Tâl gwasanaeth yn ddyledus yn hwyrach na phum mlynedd | 171,059 | 180,846 |
| **Cyfanswm** | **286,874** | **287,906** |

## 18.2 Tâl ar y datganiad o'r gwariant net cynhwysfawr

Cyfanswm y taliadau a godwyd ar y SoCNE am elfen wasanaeth y contractau PFI a Threfniadau Consesiwn Gwasanaeth eraill sy'n cael eu cydnabod ar y SoFP oedd £37.8m (2013–14: £34.6m).

## 19 Rhwymedigaethau wrth gefn

**Hawliadau'r daliwr swydd farnwrol ar sail ffioedd:**

Y JPS sy'n darparu hawliau pensiwn barnwyr cyflogedig. Ym mis Medi 2005, daeth daliwr swydd farnwrol ar sail ffioedd, oedd wedi ymddeol, â hawliad yn y Tribiwnlys Cyflogaeth yn mynnu ôl-hawl i gael ei drin yn gyfartal â dalwyr swyddi barnwrol cyflogedig drwy hawlio hawliau pensiwn o dan y Rheoliadau Gweithwyr Rhan Amser.

Dyfarnodd Lys Goruchaf y DU ar 6 Chwefror 2013 fod gan ddaliwr swydd farnwrol ar sail ffioedd, oedd wedi ymddeol, hawl i dderbyn pensiwn ar yr un telerau â dalwyr swyddi barnwrol cyflogedig. Mae'r achos hwn wedi gosod cynsail ar gyfer achosion eraill a ataliwyd. Cafodd yr achos ei gyfeirio at y Tribiwnlys Cyflogaeth i benderfynu pa gyfran o'r pensiwn oedd gan y daliwr swydd farnwrol hawl iddi.

Yn 2013-14 a 2014-15, cynhaliwyd nifer o wrandawiadau yn y Tribiwnlys Cyflogaeth a'r Tribiwnlys Apeliadau Cyflogaeth i benderfynu pa gyfran oedd gan ddalwyr swyddi barnwrol hawl iddi a pha ddalwyr swyddi barnwrol oedd yn gymwys i wneud hawliadau.

Ar sail dyfarniad Llys Goruchaf y DU, dyfarniadau diweddaraf y Tribiwnlys Cyflogaeth a'r Tribiwnlys Apeliadau Cyflogaeth, a hawliadau tâl a broseswyd yn 2014-15, mae amcangyfrif o'r rhwymedigaeth sy'n ddyledus i'r grŵp o farnwyr a delir drwy ffioedd y mae'r hawlwyr cymwys yn perthyn iddo bellach wedi'i baratoi. Mae'r amcangyfrif yn cynnwys yr hawl pensiwn, gydag elfen ar wahân o'r rhwymedigaeth pensiwn ar gyfer barnwyr a delir drwy ffioedd sydd wedi ymddeol, a Dyfarniad Gwasanaeth Barnwrol sy'n digolledu'r barnwyr sydd wedi ymddeol am y dreth a dalwyd ganddynt ar eu cyfandaliadau pensiwn ar ôl iddynt ymddeol.

Mae'r darpariaethau sy'n cael eu cydnabod gan y JPS a'r MoJ yn adlewyrchu'r amcangyfrif gorau o'r gwariant sydd ei angen i setlo'r hawliadau hyn ar ddiwedd y cyfnod adrodd. Rhoddir mwy o wybodaeth am y darpariaethau hyn yn Nodyn 3.2.2.

Yn ogystal â hawliau pensiwn, roedd yr hawliadau yn yr achosion a ataliwyd yn ymestyn i hawliau di-bensiwn yn ymwneud â thelerau ac amodau cyflogaeth dalwyr swyddi barnwrol a delir drwy ffioedd, fel gwyliau a thaliadau salwch, taliadau am hyfforddiant ac uwchbrisio ffioedd, cynnydd mewn ffioedd dyddiol a ffioedd canslo lle na chaiff eisteddiadau eu hanrhydeddu.

Deliwyd â'r hawliadau hawliau di-bensiwn hyn mewn gwrandawiad rhagarweiniol yn y Tribiwnlys Cyflogaeth yn Rhagfyr 2013 a nifer o wrandawiadau wedi hynny, a ddyfarnodd ba hawliau di-bensiwn y gellid eu hawlio a pha fathau o ddalwyr swyddi barnwrol oedd yn gymwys i wneud hawliadau o'r fath. Mae amcangyfrif o'r rhwymedigaeth di-bensiwn, i'r grŵp o farnwyr a delir drwy ffioedd y mae'r hawlwyr cymwys yn perthyn iddo, bellach wedi cael ei baratoi. Cyfrifir am yr hawliau di-bensiwn hyn yng Nghyfrifon y MoJ.

Roedd nifer fawr o hawliadau a ataliwyd ac apeliadau nad oedd wedi cael eu gwrando cyn diwedd y cyfnod adrodd neu cyn i'r cyfrifon hyn gael eu paratoi'n derfynol. Mae'r hawliadau hyn yn aros fel rhwymedigaethau wrth gefn. Ni wnaed unrhyw amcangyfrif ar gyfer yr achosion a ataliwyd oherwydd mae hyd yn oed cael gwrandawiad o achos a ataliwyd yn dibynnu ar amgylchiadau unigol yr hawlydd, ac o ystyried y nifer fawr o hawliadau a ataliwyd ac apeliadau heb eu gwrando, nid oedd hyn yn ymarferol.

**Rhwymedigaethau eraill wrth gefn:**

Mae gan Wasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd EM nifer o achosion cyfreithiol sy'n delio gyda hawliadau disgresiynol, iawndal a hawliadau eraill. Amcangost setlo'r hawliadau hyn i Wasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd EM yw £5.6m (2013-14: £20.8m).

Mae gan Wasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd EM un rhwymedigaeth wrth gefn na ellir ei mesur ar hyn o bryd. Mae adolygiad barnwrol wrthi'n cael ei gynnal o ffioedd y tribiwnlys cyflogaeth. Mae'r Uchel Lys wedi gwrthod yr adolygiad barnwrol, ond mae wedi'i gyfeirio at y Llys Apêl. O ystyried sefyllfa bresennol yr achos, nid yw'n bosibl mesur yn gywir unrhyw rwymedigaeth ariannol bosibl i Wasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd EM.

## 20 Trafodion partïon perthynol

Mae Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd EM yn un o Asiantaethau Gweithredol y MoJ, sy'n cael ei ystyried i fod yn barti perthynol. Yn ystod y flwyddyn, mae Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd EM wedi cael trafodion perthnasol gyda'r MoJ a sefydliadau eraill y mae'r MoJ yn rhiant-gorff arnynt. Mae Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd EM hefyd wedi cael trafodion perthnasol gyda nifer o adrannau eraill y llywodraeth a chyrff llywodraeth ganolog. Yn unol â gofynion y FReM, nid yw'r trafodion hyn wedi cael eu hadrodd.

Cwmni preifat cyfyngedig drwy warant yw Registry Trust Limited, heb unrhyw gyfalaf cyfranddaliadau. Mae'n cadw Cofrestr o ddyfarniadau yn y Llysoedd Sirol ar ran yr Arglwydd Ganghellor a'r Ysgrifennydd Gwladol dros Gyfiawnder. Daeth refeniw a dderbyniwyd gan Registry Trust Limited yn y flwyddyn i £0.6m (2013-14: £0.6m) gyda chyfanswm balans dyledwyr o £0.2m (2013-14: £0.2m) yn ddyledus i Wasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd EM ar 31 Mawrth 2015.

Mae perthynas agos i Steve Gillespie, y Cyfarwyddwr Cyllid a Llywodraethu, wedi'i gyflogi gan Wasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd EM ers Medi 2014 ar gontract cyfnod penodol o 12 mis. Yn ystod 2014-15 a 2013-14, ni chafodd unrhyw Aelodau eraill o'r Bwrdd na phartïon perthynol eraill unrhyw drafodion perthnasol gyda Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd EM.

Mae gan Wasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd EM nifer o drefniadau gyda'r MoJ a'i hadrannau sy'n cael eu dosbarthu fel taliadau mewn-adrannol yr ail-godwyd amdanynt. Mae'r taliadau hyn at ddefnydd asedau a gwasanaethau eraill, ac yn cael eu codi fel traul ar y SoCNE bob blwyddyn fel yr achosir hwynt. Mae'n anymarferol gwahanu'r taliadau yn ddibynadwy rhwng rhai'n ymwneud ag asedau, a rhai'n ymwneud â gwasanaethau eraill. Nid oes gan y trefniadau hyn unrhyw ddyddiad gorffen pendant. Mae'r taliadau hefyd yn cynnwys taliadau am elfennau di-brydles y trefniadau.

## 21 Balansau trydydd partïon

Mae Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd EM yn dal nifer o wahanol falansau arian parod ar ran trydydd partïon. Mae'r rhain yn cynnwys arian mechnïaeth ac arian a ddelir ar ran defnyddwyr y llys a dderbynnir ac a ddelir tra bo'r achos yn digwydd. Ar 31 Mawrth 2015 roedd yr arian hwn yn dod i £17,942k (2013-14: £17,360k) ac nid ydynt wedi cael eu cydnabod yn y cyfrifon yn unol â gofynion y FReM.

## 22 Digwyddiadau ar ôl y cyfnod adrodd

Yn unol â gofynion IAS 10 'Digwyddiadau Ar Ôl y Cyfnod Adrodd', mae digwyddiadau ar ôl y Datganiad o'r Sefyllfa Ariannol yn cael eu hystyried hyd at y dyddiad pryd yr awdurdodir y Cyfrifon i'w cyhoeddi. Dehonglir hyn fel yr un dyddiad â dyddiad Tystysgrif ac Adroddiad y Rheolwr a'r Archwilydd Cyffredinol Nid oedd unrhyw ddigwyddiadau o'r fath lle oedd angen eu datgelu neu addasu'r Cyfrifon.

## 23 Atebolrwydd

Mae'r datgeliadau canlynol wedi eu cynnwys i gydymffurfio â gofynion adroddiadau cyfrifyddu'r llywodraeth.

- Roedd 1,455 (2013-14: 1,911) achos o golledion arian parod wedi eu hadrodd, sef cyfanswm o £370k (2013-14: £354k). Mae'r rhain yn ymwneud yn bennaf ag achosion lle cyfyd mân anghysondebau yng nghyswllt derbyn arian parod yn y llys.
- Yn ystod y flwyddyn, cafodd 61 o ddyledion gwerth cyfanswm o £11k (2013-14: £7k) eu dileu fel rhai na ellir eu hadennill. Roedd y swm hwn wedi'i gydnabod yn flaenorol fel traul amhariad yn y SoCNE.
- Yn ystod y flwyddyn roedd 2,077 (2013-14: 1,865) o daliadau arbennig, cyfanswm o £2,688k (2013-14: £1,341k). Taliadau arbennig yw rhai sy'n mynd y tu hwnt i'r rheolau gweinyddol neu lle nad oes unrhyw ddarpariaeth statudol neu atebolrwydd cyfreithiol ar eu cyfer.
- Yn ystod y flwyddyn roedd wyth taliad (2013-14: 2) yng nghyswllt llog a dalwyd o dan Ddeddf Talu Dyledion Masnachol yn Hwyr (Llog) 1988, cyfanswm o £0.3k (2013-14:£1k).
- Yn ystod y flwyddyn cafodd golled o £1,000k ei chydnabod am setlo hawliad cyfreithiol. Cafodd yr achos hwn ei ddatgelu fel rhwymedigaeth wrth gefn yn 2013-14.

## 24 Datganiad y Cyfrif Digolledu am Anafiadau Troseddol ar 31 Mawrth 2015

Mae'r datganiad hwn wedi'i gynnwys yn unol â'r cyfarwyddyd cyfrifon a gyhoeddir gan yr Ysgrifennydd Gwladol, o dan adran 6(3)(a)(ii) o Ddeddf Digolledu am Anafiadau Troseddol (CICA) 1995 a pharagraff 4 o Gynllun Digolledu am Anafiadau Troseddol 2001, ar ôl ymgynghori â Gweinidogion yr Alban yn unol ag adran 88(2) o Ddeddf yr Alban 1998 i adrodd costau a achoswyd gan Wasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd EM yn asesu hawliadau CIC o'r Alban.

| | 2014-15 | | 2013-14 | |
|---|---|---|---|---|
| | **£'000** | **£'000** | **£'000** | **£'000** |
| Incwm* | | (251) | | (319) |
| Costau staff: | | | | |
| Costau cyflogau staff | 695 | | 710 | |
| Costau cyflogau barnwrol | 1,269 | | 1,412 | |
| Cyfanswm costau cyflogau | | 1,964 | | 2,122 |
| Costau gweithredu eraill | | 1,211 | | 1,410 |
| Costau gweithredu net | | **2,924** | | **3,213** |

*Yn cynnwys cyfraniad o £251k (2013-14: £319k) gan Weithrediaeth yr Alban tuag at achosion o'r Alban.

# Atodiadau

Atodiad A: Ffynonellau data ac ansawdd y data

Mae'r atodiad hwn yn rhoi manylion byr am y ffynonellau data ar gyfer y ffigurau yn yr adroddiad hwn, ynghyd â thrafodaeth fer ar ansawdd y data. Rhoddir mwy o fanylion yn y 'Court Statistics Quarterly' a'r 'Quarterly Statistics for the Tribunals' drwy fynd i wefan GOV.UK yn https://www.gov.uk/government/collections/court-statistics-quarterly a https://www.gov.uk/government/collections/tribunals-statistics

Y Llysoedd Sirol (dim teulu)

Cynhyrchwyd y wybodaeth hon yn bennaf drwy ddefnyddio'r System Gwybodaeth Reoli (MIS), dull o storio data sy'n casglu data'n uniongyrchol o systemau gweinyddol y llysoedd. Mae data'r llysoedd sirol yn y MIS wedi dod o'r system weinyddol CaseMan, a ddefnyddir gan staff y llys i bwrpas rheoli achosion. Mae'n cynnwys gwybodaeth o ansawdd da am brif ddigwyddiadau a dyddiadau achos wrth iddo fynd drwy'r system llys. Mae gweithdrefnau i sicrhau ansawdd yr ystadegau'n cynnwys adnabod a dileu unrhyw ddwbl-gofnodi yng nghyswllt yr un digwyddiad mewn achos, a gwiriadau i sicrhau bod y data wedi'i gasglu gan y llysoedd i gyd i sicrhau cyflawnrwydd.

Llysoedd Teulu

Roedd y data ar y llysoedd teulu'n dod yn bennaf o'r system weinyddol FamilyMan (drwy MIS) gan y llysoedd sirol, a ddefnyddir gan staff y llys i bwrpas rheoli achosion ac sy'n cynnwys gwybodaeth o ansawdd da am gynnydd achos drwy'r llysoedd teulu. Daw peth data hefyd o gronfa ddata perfformiad Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd EM. Mae gweithdrefnau sicrhau ansawdd ystâdegol yn cynnwys adnabod a dileu unrhyw ddwbl-gofnodi ar gyfer yr un achos ar y systemau gweinyddol, a gwiriadau i sicrhau bod y data wedi'i gasglu gan y llysoedd i gyd i sicrhau cyflawnrwydd.

Llys y Goron

Mae'r data ar Lys y Goron wedi'i gasglu o system weinyddol CREST Llys y Goron (drwy MIS), a ddefnyddir gan staff y llys i bwrpas rheoli achosion. Mae'n cynnwys gwybodaeth o ansawdd da am brif ddigwyddiadau a dyddiadau achos wrth iddo fynd drwy Lys y Goron. Mae gweithdrefnau sicrhau ansawdd yr ystadegau'n cynnwys adnabod a dileu unrhyw ddwbl-gofnodi, gwirio i nodi unrhyw anghysondeb a gwirio i sicrhau cyflawnrwydd.

Llysoedd Ynadon

Mae'r ystadegau ar achosion a gwblhawyd yn deillio o gronfa ddata perfformiad Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd EM, a gyflwynwyd ar draws yr holl lysoedd ynadon yn 2007-2008 ac sy'n cynnwys gwybodaeth sy'n deillio o System Gwybodaeth Reoli Libra a thrwy law-gasglu data. Mae'n cynnwys gwybodaeth o ansawdd da am lwythi achosion y llysoedd ynadon. Rhaid i ddata a ddarperir gan y llysoedd gael ei wirio a'i ddilysu gan staff y llys cyn cael ei gyflwyno i gronfa ddata perfformiad Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd EM. Mae'r data a gesglir yn ganolog yna'n cael ei wirio ymhellach, gan gynnwys ymchwilio i unrhyw anghysondebau yn y data.

Tribiwnlysoedd

Mae'r data ar dribiwnlysoedd a gyflwynir yn yr adroddiad hwn yn deillio o Ystadegau Swyddogol o nifer o ffynonellau gweinyddol ac yn cael ei wirio am ei ansawdd a'i ail-gysoni. Er y cymerir gofal wrth brosesu a dadansoddi'r data, mae'r manylion yn agored i anghywirdebau sy'n anochel mewn unrhyw system gofnodi fawr a dyma'r data gorau oedd ar gael pan gyhoeddwyd yr adroddiad hwn.

ISBN 978-1-4741-2059-3